

MILLER



Research Evaluation Consulting

**Canllawiau Gwisg Ysgol – Dadansoddi Canlyniadau Trafod
ac Ymgynghori**

Adroddiad Drafft v0.1

Llywodraeth Cymru

Ionawr 2023

Hannah Sterritt, Kerry KilBride, Sean Heron, Joseff Howells, Katie
Lloyd, Merryn Tully / Miller Research (UK) Ltd.



Am fwy o wybodaeth cysylltwch â

Hannah Sterritt

hannah@miller-research.co.uk

Pen-y-Wyrlod, Llanwytherin, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 8RG, UK

www.miller-research.co.uk | 01873 851880 | Twitter: @miller_research

Tabl Cynnwys

Crynodeb.....	5
Cyflwyniad.....	17
Trosolwg o Ymatebion.....	20
Thema 1 – Fforddiadwyedd.....	23
Thema 2 – Mynediad ac Argaeledd	33
Thema 3 – Logos Ysgolion.....	42
Thema 4 – Trefniadau â Chyflenwyr	59
Thema 5 – Tryloywder i Gwsmeriaid	66
Thema 6 – Cymharu ag Archfarchnadoedd	72
Thema 7 – Cyfnewid / Ailgylchu Gwisg Ysgol	78
Thema 8 – Effaith ar y Gymraeg	89
Dadansoddiad o'r Sylwadau Terfynol.....	92
Atodiad A – Cwestiynau Ymgynghori	102
Atodiad B – Cwestiynau Trafod	104

Rhestr Tablau

Tabl 1 – Ymatebion i Gwestiwn 1.....	23
Tabl 2 – Ymatebion i Gwestiwn 2.....	33
Tabl 3 – Ymatebion i Gwestiwn 3.....	42
Tabl 4 – Ymatebion i Gwestiwn 4.....	47
Tabl 5 – Ymatebion i Gwestiwn 5.....	52
Tabl 6 – Ymatebion i Gwestiwn 6.....	57
Tabl 7 – Ymatebion i Gwestiwn 7.....	59
Tabl 8 – Ymatebion i Gwestiwn 8.....	66
Tabl 9 – Ymatebion i Gwestiwn 9.....	72
Tabl 10 – Ymatebion i Gwestiwn 10.....	78

Rhestr Ffigurau

Ffigur 1 – Ymatebion i Gwestiwn 1	23
Ffigur 2 – Ymatebion i Gwestiwn 2	33
Ffigur 3 – Ymatebion i Gwestiwn 3	42
Ffigur 4 – Ymatebion i Gwestiwn 4	48
Ffigur 5 – Ymatebion i Gwestiwn 5	52
Ffigur 6 – Ymatebion i Gwestiwn 6	57
Ffigur 7 – Ymatebion i Gwestiwn 7	59
Ffigur 8 – Ymatebion i Gwestiwn 8	66
Ffigur 9 – Ymatebion i Gwestiwn 9	72
Ffigur 10 – Ymatebion i Gwestiwn 10	78

Crynodeb

- i. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Miller Research yn hydref 2022 i ddadansoddi canlyniadau ymarferiad Trafod ac Ymgynghori i gefnogi'r ymgynghoriad diweddar ar "Newidiadau i'r Canllawiau Statudol ar Bolisi Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion".
- ii. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn rhwng 18 Hydref 2022 a 28 Tachwedd 2022. Bu'r ymgynghoriad yn holi barn ar gwestiynau'n ymwneud â themâu fforddiadwyedd, mynediad ac argaeledd, logos ysgol, trefniadau â chyflenwyr, tryloywder i gwsmeriaid, y gymhariaeth rhwng gwisg ysgol sydd ar gael gan ddarparwyr arbenigol gwisg ysgol a gwisg ysgol o archfarchnadoedd, cynlluniau cyfnewid ac aildefnyddio gwisgoedd ysgol, ac effaith ar y Gymraeg.
- iii. Ategwyd yr ymgynghoriad ffurfiol â gweithgareddau trafod wedi eu targedu, gan gynnwys grwpiau ffocws a grwpiau blaenoriaeth o rieni, llywodraethwyr ysgol, staff addysu a phlant a phobl ifanc. Cynhaliwyd cyfweiliadau hefyd â chyflenwyr arbenigol gwisg ysgol a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys Governors Cymru, Parentkind a Senedd Ieuentid Cymru.
- iv. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau o holl elfennau'r broses ymgynghori a thrafod. Mae hyn yn cynnwys y 5,079 o ymatebion unigryw a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad, a ategwyd gan y dystiolaeth a gafwyd o'r grwpiau ffocws blaenoriaeth a chyfweiliadau. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi'n annibynnol gan Miller Research a'u rhoi at ei gilydd i ffurfio sail yr adroddiad hwn.
- v. Isod mae'r prif ganfyddiadau ar gyfer pob thema a amlygwyd yn gyson yn yr ymatebion. Er mwyn eglurder, lle'r ydym wedi gwahaniaethu rhwng dwy set o ddata¹, cyfeirir at y rheini a gyflwynodd ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol fel "ymatebwyr i'r ymgynghori ffurfiol" a chyfeirir at y rheini a gymerodd ran yn y grwpiau

¹ Sef, y 5,079 o ymatebion unigryw a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad a'r trawsgrifiadau o'r grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau.

ffocws ansoddol a'r cyfweiliadau fel "rhanddeiliaid". Mewn llawer o achosion, fodd bynnag, mae'r teimladau a adroddir yn dod oddi wrth ymatebwyr yr ymgynghori ffurfiol a'r rhanddeiliaid.

Thema 1 – Fforddiadwyedd

- vi. O safbwynt thema fforddiadwyedd, roedd cytundeb unfrydol mwy neu lai ar bwysigrwydd blaenoriaethu fforddiadwyedd gwisg ysgol ymysg ymatebwyr yr ymgynghori ffurfiol a rhanddeiliaid. Crybwyllwyd cefnogaeth hefyd i bwysigrwydd gwisgoedd ysgol o ansawdd dda, sy'n cynnig mwy o werth am arian, yn ogystal â chysondeb, sy'n helpu osgoi pwysau gan gyfoedion a bwlio sy'n gysylltiedig â dillad.
- vii. Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod bod darparwyr arbenigol ac archfarchnadoedd yn darparu cynigion gwahanol iawn – y cyntaf yn gysylltiedig ag ansawdd gwell a chost uwch, a'r olaf yn rhatach ond ddim yn para cystal.
- viii. Materion allweddol eraill a grybwyllwyd o ran fforddiadwyedd oedd rhywfaint o bryder fod logos gorfodol yn ychwanegu cost ychwanegol a chost a allai fod yn ddiangen.
- ix. Roedd galw sylweddol gan rhanddeiliaid am gadw'r egwyddor o wisgoedd ysgol, oherwydd eu gwerth wrth sicrhau cydraddoldeb.
- x. Yn ogystal, gwnaed argymhellion i ysgolion ymgynghori â rhieni a disgyblion wrth osod polisi gwisg ysgol ac i Lywodraeth Cymru barhau i gynnig grantiau am wisg ysgol am ddim i deuluoedd ar incwm is.
- xi. Cymysg oedd y farn ymysg rhanddeiliaid ar y graddau MAE ysgolion yn rhoi blaenoriaeth i fforddiadwyedd – gan awgrymu bod hyn yn amrywio ledled Cymru – ond ei bod yn bosibl fod ysgolion yn dod yn fwy ymwybodol o gostau, yn wyneb yr argyfwng costau byw presennol.

Thema 2 – Mynediad ac Argaeledd

- xii. Roedd cytundeb bron yn unfrydol ymysg rhanddeiliaid ac ymatebwyr yr ymgynghori ffurfiol y dylid blaenoriaethu mynediad ac argaeledd.
- xiii. Roedd ymatebwyr yr ymgynghori ffurfiol yn mynegi pryderon gyda chyflenwyr gwisg ysgol, gan awgrymu y gallant gael monopolïau ac efallai nad ydynt wedi eu lleoli'n agos i'r ysgolion maent yn eu cyflenwi, gan ei gwneud yn ofynnol i rieni deithio i brynu gwisg ysgol.
- xiv. Roedd rhanddeiliaid yn galw ar gyflenwyr gwisg ysgol i gynnig mynediad rhwydd, er enghraifft trwy ddsbarthu i ysgolion neu fynd i nosweithiau agored pryd y gall rheini archebu.
- xv. Dywedwyd hefyd y dylai polisïau gwisg ysgol alluogi rhieni i brynu gwisg ysgol (heb ei brandio) o archfarchnadoedd, a all fod yn fwy cyfleus.
- xvi. Fel gyda fforddiadwyedd, roedd cydnabyddiaeth helaeth o'r cymhlethdod ynghylch mynediad ac argaeledd; er bod archfarchnadoedd yn cynnig hwylustod, nid ydynt yn arferol yn gwerthu gwisg ysgol drwy gydol y flwyddyn ac yn gyffredinol meintiau rheolaidd yn unig sydd mewn stoc ganddynt. Mae darparwyr arbenigol gwisg ysgol yn gwerthu drwy gydol y flwyddyn ac yn cynnig amrywiaeth fwy cynhwysfawr, er y gallant ei gwneud yn ofynnol i rieni deithio beth pellter i brynu'r wisg ysgol.
- xvii. Unwaith eto, o ran o mater o gost a fforddiadwyedd, awgrymwyd y dylai ysgolion roi dewis i rieni ynghylch lle i brynu gwisg ysgol – sef, cyflenwyr arbenigol neu archfarchnadoedd – ar sail yr hyn sydd fwyaf addas ar gyfer eu sefyllfa.
- xviii. Roedd safbwyntiau ar y graddau y mae cyrff llywodraethu yn blaenoriaethu mynediad ac argaeledd mewn gwirionedd yn gymysg iawn; mae enghreifftiau o arferion da wedi cael eu cyflwyno gan bob grŵp o randdeiliaid; fodd bynnag, roedd rhieni a disgyblion yn crybwyll achosion lle'r oedd mynediad yn fwy anodd nag oedd efallai'n angenrheidiol.

Thema 3 – Logos Ysgol

- xix. Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yr ymgynghori ffurfiol (56 y cant) yn cytuno *na* ddylai logos fod yn ofynnol ar wisgoedd ysgol, gyda chwarter yn anghytuno. Fodd bynnag, roedd y farn yn gymysg ymysg yr holl grwpiau rhanddeiliaid, ac eithrio cyflenwyr gwisgoedd ysgol a oedd yn cytuno'n unfrydol ei bod yn bwysig cael logos ysgol.
- xx. Tueddai mwyafrif ymatebwyr yr ymgynghori ffurfiol i awgrymu y dylai logos ymddangos ar wisgoedd ysgol, ond y dylent gael eu cyfyngu'n llym i ambell ddilledyn penodol.
- xxi. Teimlad llawer o randdeiliaid oedd bod logos yn rhan bwysig o hunaniaeth dysgwyr (er enghraifft wrth fynd i ddigwyddiadau cystadleuol megis chwaraeon a dadleuon, fel y crybwyllwyd gan staff addysgu), ysbryd a balchder cymunedol. Gallant helpu hefyd gydag adnabod a diogelu, pwynt a grybwyllwyd gan lywodraethwyr, rheini a chyflenwyr gwisgoedd ysgol. Y teimlad hefyd oedd bod logos yn ffordd hawdd o ddynodi gwahanol ysgolion sy'n agos at ei gilydd ac sydd â gwisg ysgol debyg neu'r un fath.
- xxii. Teimlai ymatebwyr i'r ymgynghori ffurfiol, rheini a llywodraethwyr mai po fwyaf o eitemau oedd â logo, y drutaf y daw cyfanswm cost y wisg ysgol. Roedd llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghori ffurfiol a rhanddeiliaid yn nodi nad yw logos yn hwyluso dysgu.
- xxiii. Roedd mwyafrif sylweddol (65 y cant) o ymatebwyr ymgynghori ffurfiol yn cytuno y dylid cyfyngu logos i un dilledyn allanol, fodd bynnag, nid oedd barnau'n unfrydol. Roedd tua un o bob pump ymatebydd (21 y cant) yn anghytuno â'r syniad y dylid cyfyngu logos i un dilledyn allanol. Y farn gyffredinol oedd mai dim ond un neu ddau o eitemau allweddol a ddylai gael logo "i nodi eich bod yn rhan o'r ysgol".
- xxiv. Roedd ymatebion i'r ymgynghori yn canolbwyntio i raddau helaeth ar y gost ddianghenraid o ychwanegu logos at ddilledynnau allanol.
- xxv. Awgrymwyd gan rai y byddai teis neu gynllun lliw safonol fod yn ddigonol ar gyfer hyrwyddo teimlad o berthyn a balchder mewn ysgol dysgwr, a ystyrid fel rhywbeth pwysig.

- xxvi. Hyd yn oed ymysg yr ymatebwyr hynny i'r ymgynghori ffurfiol a anghytunai â'r syniad o gyfyngu logos i un dilledyn yn unig, roedd consensws bras y dylid cyfyngu cymaint â phosibl ar y gofyniad am logos ar wisgoedd ysgol.
- xxvii. Yr eitemau allweddol o wisg ysgol y ddylai gynnwys logo ym marn rhanddeiliaid oedd siwmperi (a nodwyd gan rieni a chyflenwyr gwisgoedd ysgol), blaserau (a grybwyllwyd gan lywodraethwyr, pobl ifanc, cyflenwyr gwisgoedd ysgol), crysau ymarfer corff (awgrymwyd gan lywodraethwyr, plant a phobl ifanc a rhanddeiliaid eraill) a theis (a nodwyd gan lywodraethwyr yn unig).
- xxviii. Roedd eitemau o wisg ysgol *na* ddylai gynnwys y logo ym marn rhanddeiliaid yn cynnwys blaserau (rhieni), crysau/crysau polo (llywodraethwyr), trowsus (llywodraethwyr), sgertiau (pobl ifanc), crysau ymarfer corff (staff addysgu) a siorts ymarfer corff (llywodraethwyr).
- xxix. Roedd cyflenwyr gwisgoedd ysgol yn rhestru amryw o resymau dros gael logos ar ddillad chwaraeon, a oedd yn cynnwys pa mor gyffredin (ers y pandemig Covid-19) oedd i ddysgwyr fod yn gwisgo dillad ymarfer corff drwy'r dydd (ac felly'n golygu bod ansawdd gwell a gwydnwch gwisgoedd ysgol a brynir gan gyflenwyr arbenigol yn bwysicach) a'r risg y gallai'r dewis arall fod yn ddrutach (megis dillad chwaraeon brandiau byd-eang).
- xxx. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghori ffurfiol (67 y cant) yn cytuno y dylid darparu bathodynau logo y gellir eu gosod ar ddillad gartref yn rhad ac am ddim i ddysgwyr. Roedd y traean o ymatebwyr a oedd yn weddill naill ai'n anghytuno neu'n teimlo'n niwtral ar y pwnc.
- xxxi. Roedd consensws cyffredinol ymysg rhanddeiliaid y dylai fod bathodynau ar gael, ond roedd mwy o amwysedd yn eu hadborth ynghylch a ddylent fod yn rhad ac am ddim. Roedd llawer yn bryderus ynghylch pwy fyddai'n ariannu hyn, gan rybuddio yn erbyn gwneud i ysgolion dalu. Roedd un rhiant yn awgrymu y dylai hyn ddibynnu ar brawf modd.

- xxxii. Awgrymwyd y byddai rhwng 50 ceiniog a £2 am fathodyn yn dderbyniol; roedd staff addysgu yn argymhell eu gwerthu am bris cost.
- xxxiii. I'r rheini a oedd o blaid bathodynau logo, roedd bathodynau y gellid eu smwddio ar ddillad yn cael eu ffafrio yn hytrach na'r rhai roedd yn rhaid eu gwnïo gan ymatebwyr i'r ymgynghori ffurfiol a staff addysgu, naill ai oherwydd eu bod yn haws eu gosod a/neu oherwydd eu bod yn rhatach eu cynhyrchu. Er hynny, roedd pryderon ynghylch sut y byddai bathodynau yn cael eu dosbarthu a'r anhawster o'u rhoi ar ddillad yn cael eu crybwyll yn helaeth; gallai'r mater olaf arwain at ddiffyg cysondeb ymysg dysgwyr, gyda'r potensial iddo arwain at fwlio. Roedd hyn yn cael ei adleisio gan rieni, llywodraethwyr a phlant a phobl ifanc.
- xxxiv. Roedd cyflenwyr gwisg ysgol yn unfrydol yn erbyn bathodynau logo i'w smwddio neu eu gwnïo ar ddillad, gan grybwyll pa mor anodd yw glynu bathodyn â haearn smwddio cartref yn sgil y tymheredd is na haearn smwddio diwydiannol; pryderon ynghylch diffyg sgiliau gwnïo ymysg rhieni; y ffaith y byddai hyn yn lleihau cysondeb ac (o bosibl) ansawdd gwisg ysgol yn ogystal â'r risg o fwlio fel y crybwyllwyd gan randdeiliaid eraill.

Thema 4 – Trefniadau gyda Chyflenwyr

- xxxv. Teimlai bron i naw o bob deg o'r ymatebwyr i'r ymgynghori ffurfiol y dylai ysgolion osgoi cytundebau â chyflenwyr unigol.
- xxxvi. Roedd rhieni'n awgrymu y gall fod rhai achosion lle nad mater i'r ysgol yw mynd i gytundeb â chyflenwr unigol, ac y gallai'r awdurdod lleol fod yn gorfodi'r penderfyniad o ba gyflenwr i'w ddefnyddio.
- xxxvii. Dywedodd mymryn dros hanner y rhieni fod cytundeb â chyflenwr unigol mewn grym yn ysgol eu plentyn neu blant.
- xxxviii. Y broblem a grybwyllwyd amlaf gyda'r trefniant hwn oedd bod cyflenwyr yn aml yn gwerthu allan yn gyflym, gan ei gwneud yn fwy anodd prynu gwisg ysgol pan fo'i hangen. Crybwyllwyd y broblem hon

gan bobl ifanc hefyd. Roedd llywodraethwyr ysgol yn awgrymu bod cael dau gyflenwr yn fwy addas, gan roi dewis i rieni o le i brynu gwisg ysgol yn ogystal â chyflwyno elfen o gystadleuaeth dros bris.

- xxxix. Teimlai llywodraethwr ysgol y byddai trefniant â chyflenwr unigol yn fwy addas os oedd cyfle i'r contract gael ei aildendro yn rheolaidd.
- xl. Roedd cyflenwyr gwisgoedd ysgol yn crybwyll amryw o fanteision contractau â chyflenwr unigol, gan bwysleisio bod contractau â chyflenwr unigol "yn gysyniad a gaiff ei gamddeall yn fawr". Roedd y manteision yn cynnwys sicrhau cysondeb llwyr mewn gwisg ysgol (o safbwynt arlliw a dyluniad) a chynnig gwasanaeth gwell a mwy cynhwysfawr yn dilyn proses dendro gystadleuol drylwyr i benodi un cyflenwr. Roedd cyflenwyr yn nodi hefyd fod y contractau hyn yn cefnogi'r economi leol.
- xli. Roedd cyflenwyr gwisgoedd ysgol yn nodi rhai anfanteision contractau cyflenwr unigol gan gynnwys lleihau cystadleuaeth / dewis i rieni a gosod baich y cyfrifoldeb ar un cyflenwr yn unig. Awgrymai un cyflenwr arbenigol fod risg y gallai cyflenwyr mewn contractau â chyflenwr unigol godi gormod a thanseilio'r holl sector.
- xlii. Roedd cyflenwyr gwisgoedd ysgol yn nodi bod contractau â chyflenwr unigol yn anghyffredin yng Nghymru, lle mae gan y mwyafrif o ysgolion ddau gyflenwr neu fwy.

Thema 5 – Tryloywder i Gwsmeriaid

- xliii. Fe wnaeth bron i naw o bob deg o ymatebwyr i'r ymgynghori ffurfiol ymateb yn ddiamwys y dylai ysgolion fod yn dryloyw ynghylch unrhyw fudd ariannol maent yn ei dderbyn gan drefniadau â chyflenwyr gwisg ysgol. O'r degfed ran a oedd yn weddill o ymatebwyr, ni roddodd y mwyafrif ohonynt ateb i'r cwestiwn hwn, oherwydd eu bod yn ddrislyd ynghylch beth oedd yn ei ofyn neu'n teimlo bod y cwestiwn yn amherthnasol oherwydd na ddylai ysgolion fod yn derbyn unrhyw fudd ariannol.

- xliv. Roedd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi synnu neu'n ddryslyd ynghylch y cwestiwn, gan nad oeddent yn sylweddoli'r posibilrwydd y gallai budd ariannol ddeillio o drefniadau o'r fath â chyflenwr gwisgoedd ysgol.
- xlv. Er bod galwad lethol am dryloywder, rheoleiddio ac atebolrwydd, roedd y farn yn amrywio ynghylch moeseg budd ariannol posibl i ysgolion.
- xlvi. Ni allai neb o'r rhieni gofio gael gwybod am ysgol eu plentyn neu blant yn derbyn unrhyw fudd ariannol o gontract cyflenwr gwisg ysgol ac roeddent yn ansicr hefyd a oedd yn gyffredin mewn ysgolion eraill.
- xlvii. Roedd amryw o lywodraethwyr ysgol a chyflenwyr gwisgoedd ysgol yn crybwyll ffyrdd y gallai ysgolion elwa'n anffurfiol o gyflenwyr megis derbyn dillad pêl-droed a roddwyd a gwobrau raffl ac eitemau ar ddisgownt i deuluoedd ar incwm isel.
- xlviii. Teimlad rhai rheini oedd, pe bai unrhyw elw ariannol i ysgolion, yr hoffent wybod lle caiff ei ddyrannu yng nghyllideb yr ysgol.
- xlix. Roedd un cyflenwr yn gwybodaeth am leiafrif o achosion lle cytunwyd ar y cam tendro y byddai'r cyflenwr yn talu comisiwn am bob gwerthiant: "I un neu ddwy o ysgolion, mae'n ffynhonnell ychwanegol o incwm ... tua £800-900 y flwyddyn mewn cyfanswm comisiwn."

Thema 6 – Cymharu ag Archfarchnadoedd

- i. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghori ffurfiol a'r rhanddeiliaid yn cytuno y dylai ysgolion sicrhau bod gwisgoedd ysgol o drefniadau â chyflenwyr unigol yn gymharol mewn cost â rhai o siopau'r stryd fawr ac archfarchnadoedd.
- ii. Roedd llawer yn pwysleisio'r gwahaniaeth presennol mewn pris rhwng dilladau o gyflenwyr arbenigol gwisg ysgol a gwisgoedd ysgol o siopau eraill a phwysigwydd fforddiadwyedd. Er hynny, roedd dealltwriaeth o rym prynu a maint archfarchnadoedd o gymharu â chyflenwyr arbenigol gwisg ysgol. Dywedodd llywodraethwr y byddai'n

well ganddynt gefnogi busnes lleol ond yn cydnabod ei bod yn fwyaf tebygol “na fyddent byth yn gallu curo cost [archfarchnadoedd] ond gallai fod yn gystadleuol”.

- lii. Roedd trafod helaeth ymysg rhanddeiliaid ynghylch ansawdd ac a fyddai costau tebyg yn ddichonadwy ar gyfer ansawdd tebyg. Roedd cyflenwyr gwisgoedd ysgol yn pwysleisio'r gwahaniaethau sylweddol mewn ansawdd rhwng eitemau o'u sector a gwisgoedd o siopau'r stryd fawr ac archfarchnadoedd.
- liii. Roedd nifer o randdeiliaid yn pwysleisio nad cynhyrchu ar raddfa fawr a'r arbedion costau cysylltiedig â hynny ddylai'r ateb fod. Yn hytrach, dylai'r pwyslais fod ar gynnig eitemau mwy cynaliadwy ac ar ailddefnyddio.
- liv. Er bod rhieni'n deall y byddai cyflenwyr sy'n cynnig prisiau mwy cystadleuol yn fuddiol i'w cwsmeriaid, roedd y mwyafrif yn sylweddoli y gallai hyn greu problemau ac byddai'n afrealistig yn ymarferol.

Thema 7 – Cyflnewid ac Ailgyrchu Gwisgoedd Ysgol

- lv. Roedd consensws ymysg pawb bron y dylai ysgolion weithredu cynlluniau cyfnewid neu ailgyrchu gwisgoedd ysgol; dim ond wyth o ymatebwyr i'r ymgynghori ffurfiol oedd yn anghytuno â'r syniad ac roedd 56 arall nad oedd yn cytuno nac anghytuno y dylai ysgolion weithredu cynllun cyfnewid a/neu ailgyrchu gwisgoedd ysgol.
- lvi. Roedd manteision cynlluniau o'r fath a nodwyd gan randdeiliaid ac ymatebwyr i'r ymgynghori ffurfiol yn cynnwys:
 - Galluogi mynediad at dillad o well ansawdd am bris rhatach (sef gwisg ysgol ail-law gan dddarparwyr arbenigol yn hytrach na gwisg ysgol newydd gan archfarchnadoedd)
 - Darparu arbedion costau i rieni ac incwm ychwanegol i ysgolion
 - Creu buddion amgylcheddol o ran rhwystro dillad rhag mynd i dirlenwi – ac fel ysgogydd, mae hyn yn fwy derbyniol yn

gymdeithasol na bod yn methu â fforddio gwisg ysgol newydd.

- lvii. Roedd anfanteision a grybwyllwyd yn cynnwys:
- Pryder y byddai cynlluniau'n ychwanegu at faich ariannol a llwyth gwaith ysgolion, a'r lle i storio.
 - Y risg y gallant gael eu rhedeg yn wael neu'n ansensitif gan ysgolion, gan waethygu'r cywilydd i rieni a dysgwyr.
 - Mae rhai gwisgoedd ysgol wedi gwisgo gormod i'w rhoi i rywun arall.
 - Graddau isel o fanteisio ar y cynlluniau hyn.
- lviii. Y teimlad oedd bod y cywilydd ynghylch defnyddio dillad ail-law yn sgil caledi ariannol yn dal i fod yn broblem, ond y canfyddiad oedd ei fod yn llai o broblem wrth ei hystyried o safbwynt amgylcheddol. Awgrymwyd y dylid fframio cynlluniau cyfnewid/ailgylchu yn nhermau cynaliadwyedd ac ailgylchu a'u hyrwyddo fel y dewis "naturiol" neu amlwg i bawb, yn hytrach na thargedu cynlluniau ar deuluoedd sy'n cael eu gweld fel rhai "mewn angen".
- lix. Roedd barnau gwahanol ynghylch a ddylai cymryd rhan mewn cynlluniau fod yn orfodol neu beidio i bob ysgol, ac a ddylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, elusennau, neu gymdeithasau rhieni athrawon fod yn gyfrifol am eu rhedeg.

Thema 8 – Effaith ar y Gymraeg

- lx. Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghori ffurfiol yn gweld y canllawiau gwisg ysgol fel rhywbeth a oedd yn berthnasol i'r Gymraeg.
- lxi. Roedd ymatebion yn debyg i'r gwestiwn, yn ymwneud â logos ar wisg ysgol, gydag ymatebwyr yn argymhell logos dwyieithog, neu gael gwared ar logos yn gyfangwbl er mwyn gwella cydraddoldeb rhwng y ddwy iaith.

- lxii. Teimlai'r ymatebwyr y dylai'r holl ganllawiau a gwybodaeth fod yn ddwyieithog.
- lxiii. Awgrymai cyflenwyr gwisgoedd ysgol y gallai cefnogi cyflenwyr arbenigol gwisgoedd ysgol gynyddu'r nifer o swyddi sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg.

Thema 9 – Sylwadau terfynol

- lxiv. Roedd llawer o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ailadrodd neu'n pwysleisio agweddau o gwestiynau blaenorol i'r ymgynghoriad. Roedd nifer mawr o ymatebwyr i'r ymgynghori ffurfiol yn pwysleisio y dylai gwisgoedd ysgol fod o ansawdd uchel, yn fforddiadwy i rieni ac yn cael eu cynhyrchu'n gynaliadwy.
- lxv. Thema na chafodd sylw mewn cwestiynau eraill ond a grybwyllwyd yn y sylwadau terfynol oedd y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad², sy'n darparu cyllid i deuluoedd ar incwm is i brynu gwisg ysgol a chyfarpar arall sy'n gysylltiedig â mynd i'r ysgol. Roedd rhai ymatebwyr i'r ymgynghori ffurfiol yn mynegi gwerthfawrogiad o'r grant, tra bod eraill yn galw ar Lywodraeth Cymru i ehangu'r meini prawf cymhwys, gan fod llawer o deuluoedd sy'n ei chael yn anodd fforddio gwisg ysgol nad ydynt yn gallu hawlio'r cyllid o dan y meini prawf cymhwys presennol.
- lxvi. Ar y llaw arall, roedd ychydig o ymatebwyr yn beirniadu Llywodraeth Cymru am gynnig y grant gan eu bod yn credu bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n anaddas, gan nad oes dim craffu ynghylch sut y caiff yr arian ei wario gan y teuluoedd sy'n ei dderbyn.
- lxvii. Fe wnaeth amryw o lywodraethwyr grybwyll yr anhawster mae rhieni plant hŷn yn ei wynebu ynghylch cost ychwanegol eitemau gwisg ysgol o faint mwy yn sgil y Dreth ar Werth a ychwanegir at ddillad ac esgidiau 'oedolion' mwy na maint penodol, er eu bod yn cael eu gwisgo fel gwisg ysgol.

² <https://www.llyw.cymru/grant-datblygu-disgyblion-mynediad#content>

- lxviii. Roedd y farn yn rhanedig ynghylch gwisg ysgol yn fwy cyffredinol. Roedd y rheini a oedd o blaid gwisg ysgol yn crybwyll y manteision o hyrwyddo cymuned, gan roi cae chwarae gwastad i ddysgwyr o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol a rhwystro bwlio, yn ogystal â gwella ymddygiad o fewn yr ysgol ac yn allanol. Ar y llaw arall, teimlai rhai fod gwisgoedd ysgol yn ddiangen, nad ydynt yn cefnogi dysgu, y gallant arwain at gost ddiangen i blant, ac y gallant fod yn anghysurus i'w gwisgo.
- lxix. O'r rhein a oedd yn feirniadol o wisgoedd ysgol, roedd cryn nifer o ymatebwyr i'r ymgynghori ffurfiol yn cyfeirio at yr heriau y gall gwisg ysgol eu creu i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), anhwylder sbectrwm awtistiaeth, neu nam ar y synhwyrau, a all lesteirio eu gallu i ddysgu. Roedd ymatebwyr yn bryderus hefyd ynghylch effaith canllawiau presennol gwisg ysgol ar amrywiaeth, gan gynnwys rheolau ar wallt affro a gwallt wedi ei liwio. Cafodd natur ryweddol gwisgoedd ysgol hefyd ei grybwyll, gyda rhai'n gweld canllawiau seiliedig ar rywedd fel rhywbeth a oedd yn gwahaniaethu.
- lxx. Roedd pawb o'r llywodraethwyr ysgol yn dweud sut mae canllawiau cyffredinol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn ddefnyddiol, gan eu bod yn ei gwneud yn haws i bob ysgol benderfynu ar bolisiâu unigol sy'n dibynnu ar gyd-destun eu hysgol eu hunain.

Cyflwyniad

Trosolwg

- 1.1 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Miller Research yn hydref 2022 i gyflawni ymarferiad Dadansoddi Canlyniadau Trafod ac Ymgynghori i gefnogi'r ymgynghoriad diweddar ar "Newidiadau i'r Canllawiau Statudol ar Bolisi Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion".

Cefndir polisi

- 1.2 Mae'r canllawiau statudol ar bolisiâu gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion er mwyn i gyrrff llywodraethu a phrifathrawon eu defnyddio wrth ffurfio, gweithredu neu newid polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion. Fe wnaeth yr ymgynghoriad diweddar gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid er mwyn gosod sail ar gyfer newidiadau i'r canllawiau statudol, yn benodol ynghylch cost a fforddiadwyedd gwisg ysgol.
- 1.3 Nid oes dim deddfwriaeth addysg sy'n ymwneud yn benodol â gwisgo gwisg ysgol nac agweddau arall o edrychiad disgyblion megis lliw ac arddull gwallt a gwisgo gemwaith a cholur. Fel rhan o'i gyfrifoldeb dros sut mae ysgol yn gweithredu, fodd bynnag, gall corff llywodraethu bennu gwisg ysgol y mae'n ofynnol i ddisgyblion ei gwisgo a chyflwyno rheolau eraill sy'n ymwneud â'u hedrychiad.
- 1.4 Mae'r pwerau sydd gan Weinidogion Cymru i gyflwyno canllawiau statudol yn y maes hwn wedi eu cynnwys mewn nifer o ddarpariaethau deddfwriaethol. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu canllawiau statudol i ysgolion a chyrrff llywodraethu ar bolisiâu gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion. Mae'r ddogfen ganllawiau bresennol i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru³.

3

https://www.google.com/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=&ved=2ahUKewj_qqG_hfn8AhWCWMAKHbbpDXMQFnoECBMQAQ&url=https%3A%2F%2Fbusnes.senedd.cymru%2Fdocuments%2Fs95144%2F10.07.19%2520Canllawiau%2520statudol%2520ar%2520gyf%2520er%2520cyrrff%2520llywodraethu%2520ysgolion%2520ar%2520bolisau%2520gwisg%2520ysgol%2520ac%2520edrychi.pdf&usq=AOvVaw1xVBLMuY29JUARp85knXng

- 1.5 Mae disgwyl i gyrff llywodraethu roi sylw i ganllawiau statudol Llywodraeth Cymru wrth weithredu neu newid polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.

Cefndir i'r ymgynghoriad

- 1.6 Aeth yr ymgynghoriad ar Newid i Ganllawiau Statudol ar Bolisiau Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion yn fyw ar 18 Hydref 2022, ac fe'i hategwyd gan ymgyrch gyfathrebu o dan arweiniad Llywodraeth Cymru, a chaeodd ar 28 Tachwedd 2022. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar gwestiynau'n ymwneud â themâu fforddiadwyedd, mynediad ac argaeledd, logos ysgol, trefniadau â chyflenwyr, tryloywder i gwsmeriaid, cymhariaeth rhwng gwisgoedd ysgol sydd ar gael gan ddarparwyr arbenigol gwisg ysgol a gwisg ysgol o archfarchnadoedd, cynlluniau cyfnewid ac aildefnyddio gwisgoedd ysgol, ac effaith ar y Gymraeg.

- 1.7 Cyn i'r ymgynghoriad ddigwydd, roedd Llywodraeth Cymru'n rhagweld canlyniadau disgwylidig a fyddai'n cynnwys bod cyrff llywodraethu ysgolion yn:

- Rhoi sylw i fforddiadwyedd wrth osod eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion ac yn ystyried yr effeithiau ariannol mae eu polisi yn eu cael ar deuluoedd.
- Ystyried y graddau mae eitemau gwisg ysgol ar gael a'r mynediad atynt wrth osod eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.
- Adolygu eu polisi gwisg ysgol presennol er mwyn sicrhau ei fod yn unol ag unrhyw ddiweddariadau mewn canllawiau statudol.

- 1.8 Ategwyd yr ymgynghoriad ffurfiol â gweithgareddau trafod a dargedwyd, gan gynnwys grwpiau ffocws gyda grwpiau blaenoriaeth i rieni, llywodraethwyr ysgol, staff addysgu a phlant a phobl ifanc. Cynhaliwyd cyfweiliadau hefyd gyda chyflenwyr arbenigol gwisgoedd ysgol a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys Llywodraethwyr Cymru, Parentkind a Senedd Ieuenctid Cymru.

- 1.9 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau o holl elfennau'r broses ymgynghori a thrafod. Mae hyn yn cynnwys y 5,079 o ymatebion unigryw a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad, a ategwyd gan y dystiolaeth a gafwyd o'r grwpiau ffocws blaenoriaeth a chyfweliadau. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi'n annibynnol gan Miller Research a'u rhoi at ei gilydd i ffurfio sail yr adroddiad hwn.

Trosolwg o Ymatebion

Crynodeb

- 1.10 Cyflwynwyd cyfanswm o 5,079 o ymatebion unigol unigryw i'r ymgynghoriad, ac o'r rhain cyflwynwyd 126 o ymatebion yn y Gymraeg. Roedd hyn yn ychwanegol at y 25 o wahanol eitemau o ohebiaeth a dderbyniwyd trwy e-bost.
- 1.11 Cyflwynwyd cyfartaledd o 1,013 o sylwadau ansoddol, dilynol i bob cwestiwn mewn ymateb i'r cwestiynau meintiol a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad.
- 1.12 Roedd 4,021 o ymatebion a oedd yn gyflawni a 1,058 o ymatebion rhannol. Roedd mwyafrif sylweddol o ymatebion "rhannol" yn cynnwys ateb i bron bob cwestiwn aml-ddewis (meintiol), gan adael y cwestiynau ansoddol a'r cwestiynau demograffig yn wag yn aml.
- 1.13 Roedd gan ymatebwyr a gyflwynodd ymatebion rhannol gyfradd ymateb ansoddol o 8.9 y cant ar gyfartaledd, o gymharu â 26.18 y cant ar gyfer yr ymatebion llawn.
- 1.14 Dangosodd bron bob ymatebydd eu bod naill ai'n byw yng Nghymru (tua 79 y cant) neu nid oeddent wedi rhoi dim ymateb i'r cwestiwn hwn (bron i 21 y cant). Dim ond 14 o ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn byw yng Nghymru.
- 1.15 Adroddodd 9 y cant o ymatebwyr fod ganddynt fuddiant busnes yng Nghymru.
- 1.16 Yn ogystal ag ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o grwpiau ffocws a chyfweliadau un-i-un a gyflawnwyd gan Miller Research. Cynhaliwyd tri grŵp ffocws rhieni (dau yn y Saesneg, un yn y Gymraeg), ynghyd â dau grŵp ffocws gyda llywodraethwyr ysgol, dau grŵp gyda phlant a phobl ifanc a grŵp ffocws gyda staff addysgu. Cynhaliwyd chwe chyfweliad gyda chyflenwyr arbenigol gwisgoedd ysgol yn ogystal â thri chyfweliad gyda rhanddeiliaid eraill (yn benodol cynrychiolwyr o Lywodraethwyr Cymru, Parentkind a Senedd Ieuenctid Cymru).

- 1.17 Mae'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad ffurfiol i'w gweld yn Atodiad A. Mae'r cwestiynau a ofynnwyd yn y grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau i'w cael yn Atodiad B. Mae'r ddwy set o gwestiynau yn debyg ac yn dilyn yr un themâu ond gyda chwestiynau ansoddol, mwy agored, yn cael eu gofyn yn y cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws.

Dull o ddadansoddi'r ymatebion yr ymgynghoriad

- 1.18 Dadansoddwyd ymatebion i'r ymgynghori gwestiwn wrth gwestiwn gan ddefnyddio cyfuniad o Microsoft Excel, PowerBI, meddalwedd OpenAI, a chodio ansoddol â llaw.
- 1.19 Cafodd yr holl gwestiynau diamwys eu dadansoddi trwy ddefnyddio Microsoft Excel Pivot Tables. Mae'r holl ganrannau yn seiliedig ar gyfanswm nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac eithrio'r rheini ar gyfer Cwestiynau 14 a 15, sy'n seiliedig ar gyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn penodol hwnnw (oherwydd nifer mawr o ddiffyg ymatebion i'r cwestiynau hynny).
- 1.20 Defnyddiwyd Microsoft PowerBI i gynhyrchu cymylau geiriau i adnabod themâu ac ymadroddion a grybwyllwyd yn aml, a ddefnyddiwyd wedyn fel codau cychwynnol i drefnu ymatebion. Cafodd ymatebion ym mhob categori eu codio â llaw wedyn a'u dadansoddi gan ymchwilyr i gynhyrchu crynodeb o ymatebion.
- 1.21 Defnyddiwyd OpenAI hefyd i gynhyrchu crynodeb o ymatebion, ac adnabod themâu a oedd yn bresennol ar draws yr ymatebion. Cymharwyd hyn â chrynodebau unigol ymchwilyr.

Dull o ddadansoddi canfyddiadau grwpiau ffocws a chyfweiliadau

- 1.22 Mae'r adborth gan grwpiau ffocws a chyfweiliadau wedi cael ei ddadansoddi ar wahân yn ôl grwpiau rhanddeiliaid, sef rhieni, llywodraethwyr, staff addysgu, plant a phobl ifanc, cyflenwyr arbenigol gwisg ysgol a rhanddeiliaid eraill.

- 1.23 Cyflawnwyd dadansoddiad gan ddefnyddio byrddau gwyn digidol a grewyd mewn Miro⁴.

⁴ www.miro.com

Thema 1 – Fforddiadwyedd

Cwestiwn Ymgynghori 1 – Ydych chi'n cytuno y dylai cyrff llywodraethu ysgolion flaenoriaethu fforddiadwyedd wrth osod eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?


Ymatebwyr yr Ymgynghoriad

- 1.24 Roedd mwyafrif sylweddol o ymatebio (94 y cant) yn cytuno y dylai cyrff llywodraethu ysgolion flaenoriaethau fforddiadwyedd wrth osod eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.

Tabl 1 – Ymatebion i Gwestiwn 1

Ymateb	Nifer	Canran o'r Cyfanswm
Dim ymateb	37	1 y cant
Cytuno	4749	94 y cant
Anghytuno	125	2 y cant
Ddim yn cytuno nac anghytuno	168	3 y cant
Cyfanswm	5079	100 y cant

Ffigur 1 – Ymatebion i Gwestiwn 1



- 1.25 Roedd y themâu allweddol a nodwyd yn yr ymatebion yn cynnwys pris uchel gwisgoedd ysgol yn enwedig yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw a'r angen o ganlyniad am fwy o fforddiadwyedd, hyblygrwydd a bod dewisiadau fforddiadwy ar gael. Ar yr un pryd, roedd ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd cod gwisg cyson ac addas a chost-effeithiolrwydd gwisgoedd ysgol o ansawdd da.
- 1.26 Argymhellwyd y dylai polisiâu gwisg ysgol fod wedi eu seilio ar ddealltwriaeth o gost a fforddiadwyedd, gan flaenoriaethu gwerth am arian ac ansawdd a chysondeb dros y pris ynddo'i hun. Y teimlad oedd ei bod yn bwysig cydbwysio fforddiadwyedd gwisg ysgol â ffactorau amgylcheddol a moesegol, megis cyrchu gan gynhyrchwyr ac iddynt enw da ac sy'n amgylcheddol ymwybodol, ac osgoi plastigion sy'n difrodi'r amgylchedd.
- 1.27 Roedd llawer o bobl yn cytuno y gall cost gwisg ysgol fod mor uchel nes ei fod yn creu anawsterau, yn enwedig i deuluoedd sydd ag amryw o blant mewn ysgol. Gall fod yn neilltuol o anodd i deuluoedd ar incwm isel a gynnal a chadw gwisgoedd ysgol a'u cadw'n lân, gan y gallent fod heb yr adnoddau i'w golchi mewn pryd. O ganlyniad, gall plant weithiau orfod gwisg ysgol sy'n fudr i fynd i'r ysgol os na all rheini fforddio set sbâr. Roedd rhai yn awgrymu y dylai ysgolion ystyried ffyrdd o gefnogi teuluoedd gyda chost gwisg ysgol, gan gynnwys talebau neu grantiau gwisg ysgol. Byddai cynnig dewisiadau fforddiadwy penodol hefyd yn helpu, gan gynnwys bathodynau y gellir eu gwnïo ar ddillad a brynir gan siopau eraill, gan gynnwys archfarchnadoedd.
- 1.28 Er bod archfarchnadoedd yn ddewis mwy fforddiadwy yn aml, nid ydynt bob amser yn cynnig yr un safon na pharhauster â darparwyr arbenigol gwisgoedd ysgol. Yr ystyriaeth greiddiol wrth osod polisi gwisg ysgol a nodwyd mewn llawer o ymatebion i'r cwestiwn hwn yw un o fforddiadwyedd yn erbyn ansawdd. Un broblem a nodwyd gan ymatebwyr yw'r ffaith fod gan lawer o ysgolion gyflenwr unigol ar gyfer gwisg ysgol, a all arwain at ddillad rhy ddrud. Caiff rhieni eu cyfyngu'n aml i un cyflenwr yn unig i brynu eitemau drud sy'n cynnwys logo ysgol, megis gwisg ysgol arferol a dillad ymarfer corff, ac mae teimlad fod y canllawiau presennol

sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu roi ystyriaeth ddyledus i gost yn cael eu hanwybyddu'n aml.

- 1.29 Roedd llawer o bobl yn crybwyll cost logos gwisg ysgol fel cost ychwanegol y dylid ei lleihau neu gael gwared ohoni'n gyfan gwbl. Awgrymwyd y dylai ysgolion ddarparu gwisgoedd plaen yn lliwiau'r ysgol a chynnig bathodynau â logo'r ysgol arnynt. Awgrymwyd hefyd y dylai ysgolion ddarparu grantiau ar gyfer gwisg ysgol am ddim i'r rheini sy'n gymwys. Yn ogystal, awgrymwyd na ddylai ysgolion ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr wisgo eitemau drud gyda logos, megis blaserau, a bod eitemau plaen fel cardigan neu siwmpwr yn fwy addas. Mae dadansoddiad manylach ar bwnc logos gwisg ysgol i'w gael yn Thema 3.

Cwestiwn Trafod A – I ba raddau ddylai gyrff llywodraethu ysgolion flaenoriaethu fforddiadwyedd wrth osod eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?

Rhieni

- 1.30 Roedd cytundeb cyffredinol ymysg holl aelodau grwpiau ffocws y dylai fforddiadwyedd fod yn flaenoriaeth **uchel**.
- 1.31 Crybwyllwyd bod, ar hyn o bryd, ceisio cyrchu gwisg ysgol fforddiadwy yn arwain at orfod mynd at siopau'r stryd fawr ac archfarchnadoedd nad oes ganddynt berthynas o unrhyw fath â'r ysgol.
- 1.32 Wrth adleisio hyn, roedd cyfranogwyr yn trafod hefyd sut mai siwmpwr yr ysgol yn aml yw'r dilledyn 'drutaf' mewn gwisg ysgol gan fod angen iddo gael ei gyrchu gan gyflenwyr penodol yr ysgol.

Llywodraethwyr ysgol

- 1.33 Teimlai amryw o lywodraethwyr fod anghysondebau mawr mewn incwm teuluoedd o fewn dalgylch yr ysgol a wasanaethant, sy'n golygu ei bod yn bwysig blaenoriaethu fforddiadwyedd. Yn ogystal, awgrymodd un llywodraethwr y dylid ystyried y gyfran o ddisgyblion sy'n derbyn prydu

ysgol am ddim wrth sefydlu polisi penodol o ran gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.

- 1.34 Dywedodd amryw o lywodraethwyr eu bod yn credu mai sicrhau addysg dda i ddisgyblion yw diben ysgol yn y pen draw – ac er bod gwisg ysgol yn syniad da, eu teimlad oedd nad oedd cyn bwysiced ag addysg, ac felly fforddiadwyedd ddylai'r brif flaenoriaeth fod i gyrff llywodraethu.
- 1.35 Crybwyllodd un llywodraethwr sut mae gwisg ysgol yn lliniaru unrhyw bwysau gan gyfoedion y gall rhai dysgwyr ei deimlo ynghylch dillad ac y gall helpu dysgwyr i deimlo'n gyfartal, yn hytrach na galluogi'r rheini a all fforddio hynny wisgo dillad (nad ydynt yn wisg ysgol) brandiau drud.
- 1.36 Crybwyllodd llywodraethwr arall fod plant yn tyfu allan o ddillad mor gyflym, ac felly fod fforddiadwyedd yn bwysig ond y dylid ei gydbwysu law yn llaw ag ansawdd eitemau, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau o leiaf hyd nes bydd y plentyn wedi tyfu allan ohonynt.
- 1.37 Yn ogystal, ar lefel ysgol gynradd, dylai hyblygrwydd ar eitemau y gellir eu gwisgo fod yn ystyriaeth, er mwyn sicrhau blaenoriaethu cynhwysiant.

Staff addysgu

- 1.38 Roedd staff addysgu'n mynegi'r farn y dylai fforddiadwyedd fod yn flaenoriaeth uchel wrth sefydlu polisi gwisg ysgol.
- 1.39 Roedd y staff yn trafod sut mae elfennau unigol y wisg ysgol yn cronni i wneud cyfanswm y gost yn uchel, gan gynnwys blaserau a dillad chwaraeon penodol i'r ysgol.
- 1.40 Pwysleisiwyd y bydd gan bob ysgol o leiaf un disgybl sy'n derbyn prydau ysgol am ddim y bydd ei deulu'n ei chael yn anodd fforddio'r wisg ysgol, felly mae'r mater hwn yn berthnasol i bob ysgol (hyd yn oed mewn ardaloedd mwy llewyrchus) ac felly y dylid ei ystyried yn unol â hynny.
- 1.41 Esboniodd staff addysgu fod pwyslais cryf wedi cael ei roi ar fforddiadwyedd yn y flwyddyn ysgol bresennol ar bolisi gwisg eu hysgol.

Plant a phobl ifanc

- 1.42 Roedd llawer o'r plant a phobl ifanc a gafodd eu cyfweld yn pwysleisio mor ddrud yw gwisg ysgol ac yn dweud bod eu rhieni'n bryderus ynghylch arian a chost gwisgoedd ysgol.
- 1.43 Awgrymwyd hefyd y gallai fod gwisgoedd ysgol gwahanol yn yr haf a'r gaeaf gan fod dysgwyr yn cwyno eu bod weithiau'n rhy boeth neu'n rhy oer.
- 1.44 Dywedodd dysgwyr fod polisi gwisg ysgol yn cael ei benderfynu gan y tîm arweinwyr sydd weithiau'n ymgynghori â dysgwyr, fodd bynnag, awgrymwyd y dylai fod mwy o gyd-drafod â dysgwyr wrth bennu neu ailystyried polisi gwisg ysgol.

Cyflenwyr gwisg ysgol

- 1.45 Roedd cyflenwyr arbenigol gwisg ysgol yn cytuno bod fforddiadwyedd yn bwysig iawn; fodd bynnag, roeddent yn pwysleisio mai ansawdd a gwerth am arian oedd hanfod hyn, yn hytrach na'r pris isaf. Roeddent yn dweud bod ansawdd uchel a hirhoedledd yn arbennig o bwysig mewn gwisgoedd ysgol gan eu bod yn cael eu gwisgo drwy'r dydd am tua 190 o ddyddiau'r flwyddyn. Fel enghraifft o barhauster gwisg ysgol, cyfeiriodd un cyflenwr at ymchwil sy'n awgrymu na fydd y mwyafrif o ddysgwyr ond yn cael 2.5 blaser ar gyfartaledd yn eu gyrfa ysgol. Cyferbynwyd hyd â pheidio â chael dim gwisg ysgol o gwbl, a oedd, yn ôl cyflenwyr, y dewis lleiaf fforddiadwy bob amser gan y byddai'n arwain at ddysgwyr eisiau llawer o wahanol eitemau o ddillad ac, o bosibl, dillad newydd yn rheolaidd i gyd-fynd â'r ffasiwn ddiweddaraf.
- 1.46 Awgrymwyd na all y cyflenwyr arbenigol gwisg ysgol gystadlu ag archfarchnadoedd ar bris na chyflenwi sawl eitem i'w prynu ar y tro oherwydd y gwahaniaeth mewn ansawdd. Awgrymai rhai cyflenwyr mai'r rheswm fod gwisgoedd ysgol yn cael eu hystyried i fod yn rhy ddrud yw am eu bod yn orfodol. Fodd bynnag, roeddent yn dweud nad ydynt ond yn gallu codi eu prisiau yn unol â chwyddiant gan eu bod fel arfer wedi eu clymu mewn contractau ag ysgolion.

Rhanddeiliaid eraill

- 1.47 Roedd consensws ymysg rhanddeiliaid eraill y dylai fforddiadwyedd gael blaenoriaeth oherwydd bod cost gwisg ysgol yn bryder cynyddol i rieni.
- 1.48 Er hynny, y flaenoriaeth yn y pen draw yw bod plant yn cael addysg dda ac na ddylai materion sy'n ymwneud â gwisg ysgol amharu ar hyn.
- 1.49 Dywedodd rhanddeiliaid eraill ei bod yn bwysig edrych ar y “darlun ehangach” ac ymgynghori gyda rhieni a rhanddeiliaid eraill wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion ... a fydd yn debygol o ddatgelu pryderon yn ymwneud â fforddiadwyedd”.
- 1.50 Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod bod fforddiadwyedd yn gymhleth:
- Mae ar rieni eisiau dillad a fydd yn para, a phwysleisiwyd gan rhanddeiliaid nad yw gwisgoedd ysgol archfarchnadoedd yn gyffredinol yn para'n dda.
 - Mae plant yn tyfu allan o ddillad yn gyflym iawn, felly efallai nad yw parhauster lawn mor dyngedfennol ag y byddai ar gyfer dillad oedolion.
 - Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth i wisg ysgol ar y sail y gall helpu osgoi pwysau gan gyfoedion a bwlio ynghylch dillad.

Cwestiwn Trafod B – I ba raddau yn eich barn chi mae cyrff llywodraethu ysgolion yn blaenoriaethu fforddiadwyedd wrth osod eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion? Pa dystiolaeth sydd o hyn?

Rhieni

- 1.51 Roedd **ymateb cymysg** gan rieni ar y cwestiwn hwn, er bod yn gyffredinol fwy o dystiolaeth a oedd yn amlygu'r ffyrdd nad yw cyrff llywodraethu'n blaenoriaethu fforddiadwyedd ar hyn o bryd.
- 1.52 Rhoddwyd y dystiolaeth ganlynol gan rieni, a oedd yn awgrymu **bod** fforddiadwyedd yn cael ei flaenoriaethu:

- Hyblygrwydd mewn gofynion gwisg ysgol, a grybwyllwyd gan dri chyfranogwr. Roedd hyn yn galluogi rhieni i brynu gwisg ysgol gan siopau'r stryd fawr ac archfarchnadoedd, neu ddefnyddio ddillad presennol plant, gan leihau'r cost.
- Dywedodd tri chyfranogwr hefyd fod presenoldeb blwch ailgylchu yn golygu y gallai rhieni gyrchu rhywfaint o wisgoedd ysgol i'w plant heb orfod prynu o'r newydd bob blwyddyn, fodd bynnag, roeddent yn ychwanegu bod hyn yn cael ei drefnu'n arferol gan rieni neu elusennau ac mai rhan gyfyngedig a chwaraeid gan yr ysgol.

1.53 Rhoddwyd y dystiolaeth ganlynol gan rieni i awgrymu **nad** oedd fforddiadwyedd yn cael ei flaenoriaethu:

- I chwech o gyfranogwyr, roedd gan ysgol eu plentyn (plant) bolisi llym ar wisg ysgol, ac felly nid oeddent yn gallu siopa'n gystadleuol am wisg ysgol. Dywedodd tri o'r cyfranogwyr hyn hefyd fod polisiâu llym ar esgidiau yn gostus iawn, yn enwedig wrth ystyried sawl pâr fydd ar blant eu hangen o ganlyniad i dyfu allan ohonynt mor gyflym.
- Dywedodd pedwar cyfranogwr fod monopoli pan ddaw'n fater o brynu gwisg ysgol, gan na ellid ei chyrru ond gan gyflenwr unigol.
- Teimlai dau ymatebydd fod y diffyg safoni ar draws ysgolion yn cynyddu'r gost; roedd hyn yn digwydd weithiau os oedd gan deuluoedd blant mewn gwahanol ysgolion.
- Yn ogystal, crybwyllwyd hefyd newidiadau parhaus i godau gwisg, anghysondeb rhwng gwisgoedd ysgol bechgyn a genethod a newidiadau mewn gwisg ysgol rhwng blynyddoedd ysgol (yn benodol Blwyddyn 11 a'r Chweched Dosbarth) fel materion sy'n effeithio ar gost.
- Yn olaf, roedd un rhiant yn honni gwario bron i £450 i brynu gwisg ysgol eleni. Dywedwyd bod y gost ychwanegol, gyda theuluoedd eisoes yn ei chael yn anodd, yn "eu gwthio dros y dibyn".

Llywodraethwyr Ysgol

- 1.54 Teimlai pawb o'r llywodraethwyr eu bod yn blaenoriaethu fforddiadwyedd yn yr hinsawdd ariannol presennol yn eu cyrff llywodraethu.
- 1.55 Crybwyllodd sawl llywodraethwr y Grant Gwisg Ysgol (sydd bellach yn rhan o'r Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad⁵) fel tystiolaeth fod fforddiadwyedd yn cael ei ystyried pan fo cyrff llywodraethu'n pennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.
- 1.56 Fodd bynnag, crybwyllwyd gan rhai llywodraethwyr nad oes camau dilynol nac archwilio'n digwydd gyda'r grant hwn er mwyn sicrhau bod rhieni wedi ei wario ar wisg ysgol. Teimlai un llywodraethwr y gallai teuluoedd, os ydynt yn ei chael yn anodd talu am filiau neu fwyd, roi blaenoriaeth i hyn uwchlaw gwario'r grant ar wisg ysgol.
- 1.57 Teimlai rhai llywodraethwyr eu bod yn rhoi llawer o hyblygrwydd, gan gynnig amryw o eitemau anorfodol gyda logo yn ogystal â'r eitemau gorfodol sy'n cynnwys logo.
- 1.58 Crybwyllodd llywodraethwyr eraill fod y gallu i brynu eitemau di-logo o siopau gan gynnwys yr archfarchnadoedd yn dystiolaeth bellach fod fforddiadwyedd yn cael ei ystyried, gan flaenoriaethu lliw'r wisg ysgol dros a oedd yn cynnwys logo neu beidio.

Staff Addysgu

- 1.59 Dywedodd staff addysgu fod eu hysgol wedi gwneud penderfyniad bwriadol i flaenoriaethu fforddiadwyedd wrth bennu eu polisi eleni, ond roeddent yn awgrymu bod hyn yn benderfyniad gweddol ddiweddar a wnaed mewn ymateb i'r argyfwng costau byw.
- 1.60 Roedd newidiadau o'r math hwn yn cynnwys mwy o oddefgarwch ac ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddysgwyr nad oeddent yn cydymffurfio'n llawn â'r polisi gwisg ysgol. Nodwyd bod blaenoriaethu fforddiadwyedd fel hyn

⁵ <https://www.llyw.cymru/grant-datblygu-disgyblion-mynediad#content>

yn golygu dealltwriaeth ymysg pawb o'r staff addysgu na ddylai disgyblion o gartrefi ag incwm is gael eu herio na'u rhybuddio am beidio â chydymffurfio.

- 1.61 Roedd staff ysgolion hefyd yn crybwyll eu pwyslais cynyddol sicrhau bod gwisgoedd ysgol ail-law ar gael yn haws i bob disgybl.

Plant a phobl ifanc

- 1.62 Roedd llawer o'r plant a'r bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy yn awgrymu yr hoffent gael gwared ar wisgoedd ysgol a gwisgo dillad cysurus yn eu lle, fodd bynnag roeddent yn pwysleisio sut mae'n ddefnyddiol cael gwisg ysgol yn ystod ymarfer corff, yn wyneb cost dillad chwaraeon gan frandiau rhyngwladol fel Nike ac Under Armour.
- 1.63 Adroddwyd hefyd fod rhai dysgwyr yn cael eu blaserau a theis wedi eu dwyn ac felly ei bod yn ddrud cael rhai newydd i gymryd eu lle.
- 1.64 Roedd dysgwyr yn pwysleisio eu bod yn teimlo bod cyrff llywodraethu yn aml yn blaenoriaethu edrychiad a diwyg trwsiadus uwchlaw fforddiadwyedd.

Cyflenwyr Gwisg Ysgol

- 1.65 Roedd y farn ymysg cyflenwyr yn rhanedig, er eu bod yn cytuno'n gyffredinol fel ysgolion yn dod yn fwy ymwybodol o leihau cost ac yn dod yn fwy proffesiynol a chraff yn fasnachol wrth dendro a dyfarnu contractau gwisg ysgol i gyflenwyr.
- 1.66 Dywedodd un cyflenwr: "Fy mhrofiad llethol i yw bod gan gyrrff llywodraethu ysgolion agwedd gyfrifol iawn tuag at wisg ysgol a chostau."
- 1.67 Y dystiolaeth o blaid y farn hon oedd y cynnig o fwndel hollgynhwysol i ysgolion sy'n helpu cadw costau i lawr; dyluniad sy'n ystyried fforddiadwyedd megis cael gwared ar frodwaith ychwanegol ar flaser ysgol, a chyrff llywodraethu'n lleihau'r nifer o eitemau gorfodol wedi eu brandio. Er enghraifft, canfu arolwg diweddar nad oedd y nifer cyfartalog o

eitemau gorfodol o ddillad sy'n cynnwys logo mewn ysgolion ledled Cymru ond 1.5.

- 1.68 Awgrymwyd y bydd ysgolion yn teilwra eu polisi i angen lleol: “efallai y bydd cyrff llywodraethu yng nghanol dinas Abertawe yn gwneud penderfyniadau gwahanol i'r rheini yn Nhrefynwy, dyweder”.

Rhanddeiliaid eraill

- 1.69 Roedd rhanddeiliaid eraill yn fwy tawedog wrth ymateb i'r cwestiwn hwn nag oeddent wrth ymateb i'r un blaenorol, yn bennaf oherwydd nad oeddent yn teimlo eu bod mewn sefyllfa i roi sylwadau. Roedd teimlad cyffredinol ei bod yn anodd cyffredinoli gan ei fod yn dibynnu ar yr ysgol a'r corff llywodraethu unigol.
- 1.70 Teimlai un rhanddeiliad y byddai llawer o gyrff llywodraethu yn blaenoriaethu fforddiadwyedd – ac yn gynyddol felly yn yr argyfwng costau byw presennol.
- 1.71 Wrth ateb y cwestiwn hwn, roedd dau rhanddeiliad yn pwysleisio pwysigrwydd ymgynghori gyda rhieni ar bob polisi (gan gynnwys gwisg ysgol).

Thema 2 – Mynediad ac Argaeledd

Cwestiwn Ymgynghori 2 – Ydych chi'n cytuno y dylai cyrff llywodraethu ysgolion sicrhau argaeledd a mynediad hawdd at eitemau gwisg ysgol wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?


Ymatebwyr yr Ymgynghoriad

- 1.72 Roedd bron y cyfan o'r ymatebion (97 y cant) yn awgrymu bod argaeledd a mynediad hawdd at eitemau gwisg ysgol yn ystyriaethau pwysig wrth bennu polisiau gwisg ysgol.

Tabl 2 – Ymatebion i Gwestiwn 2

Ymateb	Nifer	Canran o'r Cyfanswm
-	49	1 y cant
Cytuno	4927	97 y cant
Anghytuno	28	1 y cant
Ddim yn cytuno nac anghytuno	75	1 y cant
Cyfanswm	5079	100 y cant

Ffigur 2 – Ymatebion i Gwestiwn 2



- 1.73 Roedd llawer o'r themâu allweddol a godwyd yn y sylwadau dilynol ar y cwestiwn hwn yn tueddu i orgyffwrdd â'r rhai a grybwyllwyd mewn ymateb i Gwestiwn 1. Mewn ymateb i Gwestiwn 2, roedd llawer o ymatebwyr yn mynegi rhwystredigaeth at ddiffyg hygyrchedd cyflenwyr arbenigol gwisg ysgol. Roeddent yn pwysleisio'r broblem o un cyflenwr gwisg ysgol yn cael monopoli dros y farchnad leol. Mae'r broblem yn neilltuol o ddrwg os yw'r cyflenwr wedi ei leoli bellter sylweddol o'r ysgol. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn crybwyll pwysigrwydd darparu dewisiadau gwisg ysgol sy'n addas i blant ag anableddau.
- 1.74 Argymhellwyd y dylai ysgolion ganiatáu rhieni i brynu gwisg ysgol gan amrywiaeth o gyflenwyr, gan gynnwys archfarchnadoedd, er mwyn hwyluso mynediad haws a'u bod ar gael yn ehangach. Mae caniatáu ar gyfer mwy nag un cyflenwr yn cynnig y potensial i hyrwyddo cystadleuaeth a rhwystro codi crochris⁶. Roedd eraill yn argymhell bod ysgolion yn cynnig dewisiadau i brynu gwisgoedd ysgol ail-law ar wahanol lefelau o brisiau. Byddai gwerthu gwisgoedd ysgol ail-law o ansawdd da neu hwyluso cyfnewid gwisgoedd ysgol yn helpu teuluoedd gyda chost gwisg ysgol. Roedd rhai ymatebwyr yn argymhell hefyd fod ysgolion yn ystyried hygyrchedd cyflenwyr i deuluoedd sydd â chyfyngiadau symudedd neu ariannol.
- 1.75 Mae teimlad y dylai fod yn ofynnol i ysgolion gael gwisg ysgol sy'n gysurus a hygyrch i bob dysgwr, heb bennu eitemau na ellir eu prynu ond mewn siop arbenigol. Dylai'r lliwiau fod yn gyffredinol a dylai'r gyfran o eitemau y mae'n rhaid iddynt gynnwys logo'r ysgol gael eu cadw i'r isafswm. Dylai'r wisg ysgol fod yn syml a chynnwys trowsus, crysau polo a siwmperi, a thei i ddysgwyr ysgolion uwchradd.
- 1.76 Er bod consensws cyffredinol y dylid sicrhau bod mynediad at wisgoedd ysgol yn hyblyg a fforddiadwy, ychwanegodd rhai ymatebwyr bod gwisg ysgol safonedig yn bwysig er mwyn creu teimlad o gyd-ddiheu a chymuned ymysg dysgwyr. Yn yr ystyr hwn, gall gwisg ysgol helpu hyrwyddo cydraddoldeb a theimlad o falchder a pherthyn ymysg dysgwyr,

⁶ Sef cynyddu prisiau nwyddau neu wasanaethau i lefel llawer uwch na'r hyn a ystyrir yn resymol neu deg.

gyda rhai ymatebwyr yn awgrymu bod gwisgoedd ysgol yn cael effaith cadarnhaol ar ganolbwyntio a chyrraedd addysgol.

Cwestiwn Trafod C – I ba raddau dylai cyrff llywodraethu ysgolion sicrhau argaeledd a mynediad hawdd at eitemau gwisg ysgol wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?

Rhieni

- 1.77 Unwaith eto, roedd rhieni'n cytuno i raddau helaeth y dylai hyn gael blaenoriaeth uwch nag a gaiff ar hyn o bryd.
- 1.78 Dywedodd tri chyfranogwr y dylai fod siop gyfnewid neu ryw fath o gynllun ailgylchu ar gael ym mhob ysgol.
- 1.79 Credai un chyfranogwr y dylai ysgolion gyfathrebu a chysylltu gyda chyflenwyr er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddigonol o wisgoedd ysgol ar gael drwy gydol y flwyddyn. Y farn oedd y gallai hyn leihau'r diffyg argaeledd y gellir ei brofi ar rai adegau o'r flwyddyn ysgol.

Llywodraethwyr ysgol

- 1.80 Dywedodd rhai llywodraethwyr y dylai fod yn gyfrifoldeb ar lywodraethwyr i sicrhau y gall rhieni gael mynediad at siop ddillad ysgol y cyflewnwr.
- 1.81 Fe wnaeth un rannu profiad o fod yn llywodraethwr yn Lloegr, lle gwahoddwyd darparwyr gwisg ysgol i nosweithiau agored yr ysgol fel bod rhieni'n gallu archebu heb orfod teithio i siop y cyflenwr.
- 1.82 Dywedodd un llywodraethwr fod llawer o ystyriaethau i'w gwneud wrth bennu'r polisi yn ogystal â fforddiadwyedd, mynediad ac argaeledd, gan gynnwys diogelwch. Dyna'r rheswm y tu ôl i'w penderfyniad diweddar i symud at deis â chlip yn lle rhai i'w clymu.
- 1.83 Dywedodd llywodraethwr arall ei bod wedi bod yn anodd annog plant yn ôl i wisgo gwisg ysgol ers y pandemig COVID-19, gan fod disgyblion bellach wedi arfer gwisgo dillad ymarfer corff neu ddillad mwy anffurfiol.

- 1.84 Roedd llywodraethwyr eraill yn trafod pwysigrwydd i ysgolion fabwysiadu lliw generig, sy'n golygu bod rhieni'n cael amrywiaeth o ddewisiadau wrth ystyried prynu eu gwisg ysgol y tu allan i gyflenwr yr ysgol.

Staff addysgu

- 1.85 Dywedodd staff addysgu y dylai mynediad ac argaeledd gael eu hystyried yn unol â fforddiadwyedd.
- 1.86 Roeddent yn pwysleisio hefyd y dylid ystyried hyn yn benodol mewn ardaloedd llai llewyrchus ac y dylid ei ystyried wrth lunio polisi gwisg ysgol.
- 1.87 Bu staff yn trafod dewisiadau ar gyfer cyrchu gwisg ysgol mewn archfarchnadoedd ac roeddent yn awgrymu y dylai ysgolion fod yn agored i annog a normaleiddio hyn i rieni.

Plant a phobl ifanc

- 1.88 Dywedodd rhai pobl ifanc eu bod yn gorfod gyrru i siopau penodol i brynu gwisg ysgol, hyd at 30 munud o amser teithio, sy'n gostus ac yn draul ar amser.
- 1.89 Teimlai llawer o bobl ifanc y dylai ysgolion fod yn fwy goddefgar yn eu polisi gwisg ysgol ar y sail fod rhai o'r gwisgoedd ysgol gyda logos yn sylweddol ddrutach na'r hyn y gellir ei brynu o archfarchnad.
- 1.90 Cytunwyd hefyd gan lawer fod fod polisiau gwisg ysgol yn rhy llym o safbwynt lliw gwallt a thyllau yn y corff, nad yw'n gwneud gwahaniaeth i ddysgu ac all adael dysgwyr yn teimlo'u bod yn cael eu bychanu.

Cyflenwyr gwisg ysgol

- 1.91 Fel gyda fforddiadwyedd, teimlai cyflenwyr fod mynediad ac argaeledd yn fater cymhleth. Roedd y mwyafrif o ddysgwyr yn canolbwyntio ar y manteision cymharol a gynigid gan gyflenwyr o gymharu ag archfarchnadoedd.

- 1.92 Mae'r rhain yn cynnwys: dillad ar gael drwy gydol y flwyddyn, cyflenwad o amrywiaeth helaeth o feintiau, amrywiaeth o ddewisiadau derbyn megis clicio a chasglu neu ddanfon i'r ysgol, a chysondeb mewn arddull. Dywedent nad oedd archfarchnadoedd ar y llaw arall ond yn cadw gwisg ysgol mewn stoc ar adegau penodol o'r flwyddyn, yn tueddu i gynnig y meintiau mwyaf cyffredin yn unig, nad ydynt yn gwerthu'r un cynnyrch flwyddyn ar ôl blwyddyn a'u bod yn rhydd i godi prisiau gan nad ydynt wedi eu clymu i gontractau.
- 1.93 Teimlai un cyflenwr y dylai gyrff llywodraethu roi i rieni y dewis i brynu gan gyflenwyr arbenigol neu archfarchnad: "Rhowch y dewis i rieni brynu'n rhad am y flwyddyn yn unig neu brynu [gwisg ysgol gan gyflenwr arbenigol] a'i throsglwyddo i rywun arall ei hailddefnyddio wedyn."

Rhanddeiliaid eraill

- 1.94 Roedd rhanddeiliaid eraill hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd dewis, yn enwedig wrth brynu gan gyflenwyr arbenigol a/neu archfarchnadoedd.
- 1.95 Cafodd costau trafniadaeth hefyd eu nodi fel ystyriaeth, yn enwedig gyda chostau cynyddol tanwydd: "Mae'r cyfan yn ychwanegu at y gost – os oes yn rhaid ichi deithio i rywle arall [ac gyflenwr wedi ei gontractio] a ddim yn gallu ei brynu o'r Sainsbury lleol." Nodwyd hefyd fod angen i gyrff llywodraethu gydnabod y gall prynu gwisg ysgol o archfarchnad wrth siopa am nwyddau rheolaidd fod yn fwy cyfleus i rieni.
- 1.96 Unwaith eto, roedd amryw o randdeiliaid yn pwysleisio pa mor bwysig oedd hi i gyrff llywodraethu ymgynghori gyda rhieni a disgyblion ar bolisi gwisg ysgol addas: "Mae'n fater o gael deialog gyda holl gymuned yr ysgol – beth sydd orau i bawb, beth sy'n fforddiadwy ac yn hawdd ei gael." Roedd rhanddeiliaid eraill yn pwysleisio hefyd fod angen i gyrff llywodraethu gadw gwisg ysgol mor syml â phosibl er mwyn sicrhau mynediad ac argaeledd hawdd.

Cwestiwn Ymgynghori D – I ba raddau yn eich barn chi mae cyrff llywodraethu ysgolion yn sicrhau argaeledd a mynediad hawdd at eitemau gwisg ysgol wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion? Pa dystiolaeth sydd o hyn?

Rhieni

- 1.97 Roedd rhai rhieni wedi cael profiadau da o fynediad ac argaeledd yn yr ysgol; gyda rhai enghreifftiau penodol o hyn yn cynnwys:
- Un rhiant a oedd yn gallu defnyddio ap ffôn symudol, gan ei gwneud yn hawdd archebu a thalu am wisg ysgol. Nid oedd rhaid i rieni ymweld yn gorfforol â siop, a oedd yn arbed amser ac arian iddynt, a gall y cyflenwr reoli'r galw yn haws.
 - Dywedodd un arall nad oeddent erioed wedi cael trafferth eu hunain i gael gwisg ysgol.
- 1.98 Roedd rhieni eraill fodd bynnag wedi cael profiadau mwy negyddol, a'r rhain yn cynnwys:
- Dim 'siop gyfnewid' na chynllun ailgylchu gwisg ysgol o unrhyw fath ar gael, fel y crybwyllwyd gan bum unigolyn.
 - Un cyflenwr arbenigol yn unig â contract gyda'r ysgol, gan olygu bod monopoli ac y gall mynediad fod yn fwy anodd i rieni a all fyw ar ben pellaf y dalgylch.
 - Roedd dau gyfranogwr wedi cael problem gyda stoc ar adegau penodol o'r flwyddyn, gan olygu bod plant weithiau'n cael eu hanfon i'r ysgol heb wisg ysgol.
 - Er mwyn sicrhau popeth mewn pryd, dywedodd dau gyfranogwr eu bod yn gorfod archebu gwisg ysgol i'w plant ymhell o flaen llaw ac felly, yn wynebu'r risg y byddai eu plentyn yn tyfu allan o'r dillad cyn i'r tymor gychwyn hyd yn oed.
 - Dywedodd un cyfranogwr ei fod yn ei chael ei anodd gael gwybodaeth hyd yn oed ar yr eitemau o wisg ysgol roedd angen eu prynu.

- Dywedodd un cyfranogwr nad oedd ond yn gallu prynu'n uniongyrchol gan yr ysgol ei hun, gydag un arall yn honni nad oedd y danfon i'r ysgol yn digwydd ar amser delfrydol.

Llywodraethwyr ysgol

- 1.99 Dywedodd un llywodraethwr fod dwy siop i'w hysgol – un ar y stryd fawr yn y dref a'r llall yn y dref gyfagos.
- 1.100 Dywedodd fod gwahaniaeth ym mhrisiau'r ddwy siop, gyda'r siop a oedd yn y lleoliad mwyaf cyfleus yn ddrutach.
- 1.101 Dywedodd llywodraethwr arall sut mae eu hysgol gynradd yn gorfodi lliw'r wisg ysgol yn hytrach na chynnwys logo. Roedd hyn fel bod pawb o'r disgyblion yn gallu teimlo bod yn rhan o'r ysgol boed eu gwisg wedi ei phrynu o'r archfarchnad neu gan gyflenwr yr ysgol.

Staff addysgu

- 1.102 Rhoddodd staff addysgu enghreifftiau o'r camau'r oeddent yn eu cymryd yn eu hysgol i wneud gwisg ysgol yn fwy hygyrch. Roedd y rhain yn cynnwys:
- Rhoi gwybodaeth ar sut i brynu gwisg ysgol mewn pecynnau cynefino i ddisgyblion newydd.
 - Cynnig y dewis i gyrchu bathodyn logo'r ysgol ar wahân.
 - Gwneud gwisgoedd ysgol ail-law yn hawdd i'w cael a sicrhau bod pawb yn gwybod hynny. Roeddent hefyd yn dweud ei bod yn bwysig sicrhau nad oedd y rheilen neu'r 'stoc' dillad wedi ei lleoli mewn lle amlwg yn yr ysgol, er mwyn lleihau teimlad o gywilydd i rieni a dysgwyr.

Plant a phobl ifanc

- 1.103 Roedd pobl ifanc yn pwysleisio bod llawer o ddysgwyr yn gwisgo fersiynau hŷn a gawsant o'r wisg ysgol ar ôl eraill er mwyn arbed arian.

Yn aml, nid yw hyn yn unol â'r polisi gwisg ysgol presennol, fodd bynnag. Awgrymwyd y gallai ysgolion fod yn fwy hyblygu wrth gyflwyno polisi gwisg ysgol newydd ac na ddylent gosbi dysgwyr yn ystod cyfnod pontio estynedig.

- 1.104 Dywedodd rhai plant a phobl ifanc fod gan rai siopau gynlluniau dillad ail-law neu gyfnewid sy'n galluogi dysgwyr i brynu fersiynau rhatach o wisg ysgol. Er hynny, mae'n ymddangos bod llawer o bobl heb fod yn gwybod am y cynllun hwn. Roeddent yn pwysleisio hefyd sut mae llawer o ddysgwyr yn teimlo cywilydd yn gwisgo dillad ail-law.
- 1.105 Dywedodd un dysgwr a oedd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig y gall y crysau ysgol fod yn ei gosi a'u bod yng anghysurus ac roedd eraill yn y grŵp yn awgrymu bod llawer o ddysgwyr o'r fath yn cael trafferth gyda'r wisg ysgol.

Cyflenwyr gwisg ysgol

- 1.106 Teimlai'r mwyafrif o gyflenwyr fod cyrff llywodraethu yn ystyried argaeledd a mynediad at eitemau gwisg ysgol; roedd un yn nodi "maen nhw'n eithaf da [am sicrhau mynediad ac argaeledd] yn fy mhrofiad i". Roedd y dystiolaeth o hyn a grybwyllwyd yn cynnwys:
- Y ffaith fod rhai ysgolion cynradd yn dewis gwneud bathodynau yn gwbl ddewisol ar eitemau o wisg ysgol – gan alluogi rhieni i brynu gwisg ysgol o unrhyw le.
 - Gweithio gyda chyflenwyr a gontractir i ddarparu bwndeli o wisg ysgol: "mae hyn yn ffordd wirioneddol dda i'w gwneud yn haws i rieni ... maen nhw'n gallu prynu'r eitemau heb eu brandio hefyd, blows, trowsus etc."
 - Cysylltu â chyflenwyr lleol yn gyntaf wrth fynd allan i dendro am gontract.
 - Contractio darparwyr arbenigol a all ddarparu gwisg ysgol o feintiau anghyffredin: "Beth os yw eich plentyn yn chwe troedfedd pedair [modfedd] ac yn 11 oed? Neu os oes

ganddyn nhw gyflwr corachaid? Bydd y cyflenwr yn sicrhau na fydd y plentyn yn teimlo'n ddim gwahanol.”

- 1.107 Dim ond un cyflenwr a roddodd ymateb mwy cymysg a nodi nad oedd yn gwybod am unrhyw ysgolion a oedd wedi mynd ati'n fwriadol i leihau'r nifer o eitemau'r oedd yn orfodol eu brandio, er budd lledaenu mynediad ac argaeledd.

Rhanddeiliaid eraill

- 1.108 Ychydig a oedd gan rhanddeiliaid eraill i'w ddweud ar y mater hwn. Dywedodd dau a gafodd eu cyfweld nad oeddent yn gwybod i ba raddau mae cyrff llywodraethu yn sicrhau argaeledd a mynediad at eitemau gwisg ysgol wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion. Teimlai un rhanddeiliad nad oedd yn bosibl cyffredinolli a'i bod yn debygol fod hyn yn amrywio rhwng ysgolion a'i gilydd.

Thema 3 – Logos Ysgolion

Cwestiwn Ymgynghori 3 – Ydych chi'n cytuno na ddylai logos fod yn ofynnol ar wisgoedd ysgol?


Ymatebwyr yr Ymgynghoriad

- 1.109 Roedd y farn ar logos yn gymysg. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (56 y cant) yn cytuno na ddylai logos fod yn ofynnol ar wisg ysgol, gyda mymryn dros chwarter (27 y cant) yn anghytuno.

Tabl 3 – Ymatebion i Gwestiwn 3

Ymateb	Nifer	Canran o'r Cyfanswm
-	47	1 y cant
Cytuno	2843	56 y cant
Anghytuno	1384	27 y cant
Ddim yn cytuno nac anghytuno	805	16 y cant
Cyfanswm	5079	100 y cant

Ffigur 3 – Ymatebion i Gwestiwn 3



- 1.110 Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno mewn ymateb i'r cwestiwn hwn – a oedd, felly, yn teimlo y *dylai* logos fod yn ofynnol – yn fwy tebygol o ymhelaethu ar eu barn. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr hyn yn tueddu i awgrymu y dylai logos ymddangos ar wisgoedd ysgol, ond y dylid eu cyfyngu'n llym i eitemau penodol o ddillad. Teimlad roedd oedd

bod logos gwisg ysgol yn rhan bwysig o hunaniaeth dysgwr a'u bod yn meithrin teimlad o falchder ac ysbryd cymunedol; fodd bynnag, dylid cyfyngu ar y gofyniad am logos er mwyn cadw costau i lawr. Er mwyn sicrhau fforddiadwyedd gyffredinol, dylai rheini gael dewisiadau i brynu gan amrywiaeth o fanwerthwyr, gan gynnwys archfarchnadoedd. Gall logos i'w smwddio ymlaen neu glytiau i'w gwnïo wedyn gynnig dewis arall mwy cost-effeithiol yn lle logos brodwaith, sy'n rhaid eu prynu gan gyflenwyr arbenigol.

- 1.111 Mae rhai yn credu bod logos yn rhoi teimlad o berthyn. Nodwyd y gall logos helpu gydag adnabod a diogelu, yn enwedig yn ystod tripliau ysgol. Fodd bynnag, mae eraill yn dadlau bod logos yn gyrru prisiau gwisg ysgol i fyny ac nad ydynt yn hanfodol ar gyfer dysg plant. Mae cost gwisg ysgol yn anfforddiadwy i lawer o deuluoedd ac mae'r gofyniad i brynu eitemau o ddillad â logos arnynt yn faich diangen y gall arwain at gywilydd a bwlio. Gall y dysgwyr ieuengaf hyd yn oed adnabod cyfoedion sydd â llai o arian ar sail bod heb logos ar eu dillad.
- 1.112 Mae llawer o ddysgwyr o deuluoedd incwm is nad ydynt yn gymwys am y Grant Amddifadedd Disgyblion - Mynediad, ond sydd eto'n canfod cost gwisg ysgol wedi ei brandio yn anfforddiadwy iddynt. Roedd staff ysgol a rhieni yn mynegi'r angen am fwy o help gyda chostau gwisg ysgol, ac am i swm atodol i'r Grant Amddifadedd Disgyblion – Mynediad fod ar gael yng nghanol y flwyddyn i helpu gyda chost eitemau ychwanegol. Awgrymwyd y dylai ysgolion gael 'siop gyfnewid ail-law' o wisgoedd ysgol wedi eu brandio er mwyn lleihau gwastraff a chost.

Cwestiwn Trafod E – Pa mor bwysig yw hi i gael logos ysgol ar wisgoedd ysgol? Pam ydych chi'n dweud hynny? Beth yw'r manteision/anfanteision cymharol o gael logo ysgol?

Rhieni

- 1.113 Roedd pedwar rhiant yn credu'n bendant fod logos yn bwysig. Ar y llaw arall, teimlai pum rhianit yn gryf nad yw logos yn bwysig. Barn fwy cymysg oedd gan y gweddill.

- 1.114 Roedd un rhiant yn ansicr o'u pwysigrwydd, ond er hynny'n meddwl y dylent fod ar gael am bris teg.
- 1.115 Y manteision grybwyllwyd ynglŷn â logos oedd:
- Y gred fod logo yn helpu dysgwyr i deimlo'n fwy fel 'tîm'.
 - Yr awgrym fod logo ysgol yn dda i gymuned ehangach yr ysgol.
- 1.116 Roedd yr anfanteisio a grybwyllwyd yn cynnwys:
- Y gost ychwanegol a'r teimlad nad yw logos yn hanfodol i'r profiad o ysgol.
 - Y risg o greu rhaniadau rhwng y rheini sydd â logos a'r rheini sydd heb.
 - Mae llawer o ysgolion bellach yn gwisg blaserau, ac roedd pedwar cyfranogwr o'r farn y byddai'n gost fawr ac ychwanegol i brynu fersiynau unswydd (er enghraifft o gymharu â siwmperi sydd â logos arnynt).
- 1.117 Dywedodd un unigolyn y gellid defnyddio teis fel dynodydd yn lle logos ac y gallai hyn brofi i fod yn fwy cost-effeithiol.

Llywodraethwyr ysgol

- 1.118 Dywedodd llywodraethwyr mai manteisio cael logos ar wisg ysgol oedd:
- Mae'n rhoi hunaniaeth i'r ysgol.
 - Mae logos yn sicrhau ei bod yn hawdd adnabod dysgwyr o bob ysgol, pe bai unrhyw broblemau yn y gymuned.
 - Teimlai un llywodraethwr hefyd fod rhai plant yn falch o wisgo gwisg ysgol neu gynnwys logo eu hysgol a'i fod yn ychwanegu at deimlad cymunedol yr ysgol.
 - Mantais arall a rannwyd oedd bod rhai teuluoedd nad oes ganddynt yr arian i ddisgyblion wisgo eu dillad eu hunain bob dydd – a bod cael gwisg ysgol yn gweithio allan yn rhatach.
- 1.119 Trafodwyd anfanteisio logos hefyd:

- Roedd llywodraethwyr yn bryderus am y goblygiad cost anferthol pe bai pob eitem o wisg ysgol i gael logo. Cyfeiriodd un llywodraethwr at ysgol lle'r oedd sanau ymarfer corff ar wahân wedi eu brandio ar gyfer pêl-droed a rygbi, gan awgrymu bod hyn yn ormodol.
- Teimlai llywodraethwyr hefyd fod eitemau di-logo yn aml yn rhatach na'r rheini sydd â logos.

1.120 Crybwyllodd rhai llywodraethwyr nad yw'r mater a oes gan ddilledyn logo neu beidio yn cael effaith ar gyrhaeddiad addysgol ac felly nid yw'n bwysig, a'i fod yn hytrach yn rhywbeth sy'n "dda ei gael".

Staff addysgu

1.121 Roedd staff addysgu yn mynegi barn gymysg ar y pwnc hwn a gallent weld manteision ac anfanteision i rôl logos ysgol:

- Roedd staff yn hoffi hunaniaeth logos (a gwisg ysgol yn gyffredinol) wrth gynrychioli'r ysgol yn gadarnhaol mewn digwyddiadau (ee digwyddiadau cystadleuol fel chwaraeon a dadleuon) a sicrhau bod modd adnabod dysgwyr ar dripiâu ysgol.
- O ran gwisg ysgol yn fwy cyffredinol, awgrymai staff fod y rhain yn bwysig er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb drwy holl boblogaeth yrysgol a lleihau'r cyfle i fwlio.
- Fodd bynnag, dywedodd un aelod o staff y gall gwisg ysgol fod yn gynrychioliadol ac yn gallu dynodi trwy gynllun lliw yn unig (heb yr angen am logo).

Plant a phobl ifanc

1.122 Awgrymwyd hefyd gan rai pobl ifanc fod logos ysgol yn ddefnyddiol ar dripiâu ysgol gan y byddai'n helpu adnabod dysgwyr pe bai rhywun ar goll.

- 1.123 Fodd bynnag, roedd amryw o ddysgwyr yn awgrymu y byddai gwisg ysgol yn edrych yn drwsiadus heb y logo a'i fod felly'n ddiangen.
- 1.124 Roedd llawer yn dadlau nad oeddent yn teimlo unrhyw falchder wrth wisgo logo'r ysgol.
- 1.125 Awgrymai rhai pobl ifanc y gellid defnyddio laniard yn lle logo.

Cyflenwyr gwisg ysgol

- 1.126 Roedd cyflenwyr yn teimlo'n unfrydol ei bod yn bwysig cael logos ysgol.
- 1.127 Mae manteision allweddol logos yn cynnwys:
 - Adnabod – er enghraifft mewn achosion o chwarae triwant neu ymddygiad gwrth-gymdeithasol.
 - Diogelu – yn enwedig i ddisgyblion oed ysgol gynradd a phan maent allan ar dripiâu.
 - Mae logos yn gyfystyr â gwisg ysgol o ansawdd gwell a brynir gan gyflenwyr unigol: “mae'r logo yn gwarantu y byddant yn prynu'r wisg ysgol gan y cyflenwr.” “Y pwynt allweddol yw nad y logo yw'r hyn sy'n gwneud y wisg ysgol – mae'r logo yn rhan ohoni, yr hyn sy'n gwneud y wisg ysgol yw natur unffurf y dilledyn allanol – blaser neu siwmpwr.”
 - Mae logos yn helpu creu hunaniaeth a theimlad o gymuned, rhywbeth sy'n bwysig i bob rhanddeiliad.
 - Mae logos yn sicrhau unffurfiaeth hefyd: “Mae'r bathodyn yn creu agwedd o wastadhau ... os oes ganddynt ddilledyn penodedig, mae pawb yn gwisgo'r un fath.”
 - Nid yw bathodynnau/logos yn ddrud – maent yn costio tua £2-£2.50 yr un.
- 1.128 Ni wnaeth cyflenwyr nodi unrhyw anfanteision o gael logo.

Rhanddeiliaid eraill

- 1.129 Roedd gan randdeiliaid eraill amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch pwysigrwydd logos ysgol.
- 1.130 Roedd y manteision allweddol a grybwyllwyd yn cynnwys:
- Y ffaith y gallant greu hunaniaeth, rhywbeth sy'n arbennig o bwysig i ysgolion sy'n agos at ysgolion eraill, efallai gyda gwisg ysgol debyg neu'r un fath o ran lliw.
 - Maent yn helpu rhoi gradd o graffu: "bydd angen i ysgolion ystyried eu henw da a sut mae disgyblion yn ymddwyn y tu allan i'r ysgol."
 - Roedd rhanddeiliaid yn awgrymu y gall logos hefyd roi teimlad o berchnogaeth a pherthyn, yn enwedig os yw dysgwyr wedi chwarae rhan mewn dylunio'r logo.
 - Gall logos gyflawni elfen ddiogelwch hefyd, er enghraifft, yn ystod tripiâu ysgol lle mae'n hanfodol gallu adnabod dysgwyr yn hawdd.
 - Maent yn creu unffurfiaeth trwy sicrhau bod pob dysgwr yn gwisgo'r un fath.
- 1.131 Roedd un rhanddeiliad a deimlai nad oedd logos yn bwysig yn amau prif ddiben logos yn y lle cyntaf.
- 1.132 Y brif anfantais a grybwyllwyd oedd cost ychwanegol logo brodwaith.

Cwestiwn Ymgynghori 4 – Ydych chi'n cytuno y dylai logos gael eu cyfyngu i un dilledyn allanol, er enghraifft siwmpwr, cardigan neu siaced/blaser?

Ymatebwyr yr Ymgynghoriad


- 1.133 Roedd mwyafrif sylweddol (65 y cant) o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i gyfyngu logos i un dilledyn allanol, fel siwmpwr, cardigan, neu flaser. Roedd tua un o bob pump o ymatebwyr (21 y cant) yn anghytuno.

Tabl 4 – Ymatebion i Gwestiwn 4

Ymateb	Nifer	Canran o'r cyfanswm
--------	-------	---------------------

-	67	1 y cant
Cytuno	3285	65 y cant
Anghytuno	1060	21 y cant
Ddim yn cytuno nac anghytuno	667	13 y cant
Cyfanswm	5079	100 y cant

Ffigur 4 – Ymatebion i Gwestiwn 4



- 1.134 Roedd ymatebion yn canolbwyntio i raddau helaeth ar y gost ddiangen o ychwanegu logos at ddilladau allanol. Roedd teimlad fod y gofyniad i gael logo ysgol ar ddillad chwaraeon yn neilltuol o ddiangen, a'i bod yn gyffredinol anymarferol (ar sail ariannol) i rieni brynu eitemau lluosog â logos arnynt i blant sy'n tyfu.
- 1.135 Roedd y prif themâu o fewn yr ymatebion yn cynnwys yr angen am wisgoedd ysgol cost-effeithiol gan ddal i hyrwyddo teimlad o berthyn a balchder yn yr ysgol. Roedd eraill yn dadlau y dylid cael gwared yn gyfan gwbl ar logos, neu y dylai ysgolion roi'r rhyddid i rieni ddewis. Awgrymwyd dro ar ôl tro fod teis ysgol yn ddigonol ar gyfer adnabod ysgol. Mae'r ymatebion yn awgrymu y dylai fod cyfyngu ar y graddau y caiff gwisg ysgol ei brandio, ac roedd cytundeb sylweddol fod gosod cynllun lliw

safonol yn ffordd fforddiadwy o sicrhau bod gan bob dysgwr wisg ysgol sy'n addas ar gyfer yr ysgol.

- 1.136 Roedd y rheini a oedd yn anghytuno â'r cynnig i gyfyngu logos i un dilledyn allanol yn tueddu i grybwyll y newidiadau tymhorol mewn tywydd a thymheredd fel rheswm dros frandio mwy nag un eitem o ddillad. Er enghraifft, byddai siacedi a siwmperi yn cael eu gwisgo (a felly byddai'r logo yn weladwy) yn ystod y misoedd oerach, lle byddai'n well cael logos ar grysau neu grysau polo yn ogystal, gan fod siacedi a siwmperi'n llai tebygol o gael eu gwisgo ym misoedd yr haf.
- 1.137 Mae'n bwysig nodi bod, hyd yn oed ymysg yr ymatebwyr hynny a wnaeth anghytuno'n ffurfiol â'r cynnig, consensws cyffredinol y dylai'r gofyniad am logos ar wisg ysgol gael ei gyfyngu gymaint â phosibl.

Cwestiwn Trafod F – A oes unrhyw eitemau penodol o wisg ysgol a ddylai / na ddylai gynnwys logo yn eich barn chi?

Rhieni

- 1.138 Credai pum cyfranogwr y dylai logos fod ar siwmperi.
- 1.139 Roedd un rhiant yn meddwl y dylai logos fod ar grysau polo yn ogystal.
- 1.140 Credai pedwar cyfranogwr na ddylai logos fod yn ofynnol ar flaserau gan eu bod yn ddrud, ac fellyn ychwanegu cost ddiangen.

Llywodraethwyr ysgol

- 1.141 Teimlai llywodraethwyr mai'r eitemau pwysicaf o ddillad ysgol a ddylai gynnwys logo oedd:
- Blaserau ysgol
 - Siwmperi
 - Crysau ymarfer corff
 - Teis

- 1.142 Teimlai llywodraethwyr nad oedd angen i eitemau eraill fel crysau polo, crysau, trowsus a siorts ymarfer corff gynnwys logo.
- 1.143 Awgrymodd un llywodraethwr ei bod yn bwysig ystyried newidiadau mewn tymor a thymheredd a beth mae hyn yn ei olygu i wisg ysgol. Er enghraifft, yn eu hysgol nhw, mae ganddynt siwmperi a chrysau polo wedi eu brandio, sy'n golygu bod dysgwyr yn dal i wisgo logo'r ysgol (ar y crysau polo) yn yr haf pan fo'n rhy gynnes i wisg siwmperi.

Staff addysgu

Roedd staff addysgu'n cytuno'n gyffredinol na ddylai logos ysgol fod yn ofynnol ar gyfer dillad chwaraeon, ar y sail y byddai hyn yn arwain at gost ychwanegol a diangen.

Plant a phobl ifanc

- 1.144 Awgrymai pobl ifanc ei bod weithiau'n werthfawr gael dillad ymarfer corff sy'n cynnwys logo, er enghraifft yn ystod gemau chwaraeon er mwyn dangos pa ysgol ydych chi'n ei chynrychioli.
- 1.145 Awgrymwyd hefyd y dylai logo'r ysgol fod ar flaserau (lle maent yn edrych yn smart ac yn gwbl weladwy ar boced frest) ond nid ar eitemau eraill (er enghraifft sgertiau a throwsusau) lle gallant fynd 'ar goll' ym mhlygiadau'r brethyn ac edrych yn flêr.

Cyflenwyr gwisg ysgol

- 1.146 Teimlai pawb o'r cyflenwyr y dylai blaserau a siwmperi gael logo. Y teimlad cyffredinol oedd nad oedd ond un neu ddau o eitemau allweddol a ddylai gael logo: "i nodi eich bod yn rhan o'r ysgol".
- 1.147 Roedd y farn ar addasrwydd cael logos ar ddillad chwaraeon ysgol yn fwy cymysg. Nodwyd bod gan lawer o ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd, ddillad ymarfer corff unigryw gyda lliwiau ac arddull penodol, sy'n golygu nad oes angen logos er mwyn adnabod. Dywedwyd hefyd y

byddai gwneud logo yn ofynnol ar ddillad ymarfer corff yn arwain at eitem gorfodol ychwanegol i rieni ei brynu.

- 1.148 Dywedodd cyflenwyr a oedd o blaid cael logos ar ddillad chwaraeon y byddai'n golygu bod dillad ymarfer corff yn cael eu prynu gan gyflenwyr arbenigol a fydd yn darparu dilladau o ansawdd gwell.
- 1.149 Yn ogystal, nodwyd bod risg y gallai'r dewis arall fod yn ddrutach: "Mae'n anodd iawn cael dillad chwaraeon o archfarchnadoedd ... os ydych yn cael gwared ar ddillad chwaraeon penodol i ysgol, bydd plant yn dewis dilladau Nike ac Under Armour – a fyddai'n treblu'r pris i'r rhieni." Yn ogystal, gan fod dysgwyr wedi gorfod gwisgo dillad ymarfer corff drwy'r dydd ers y pandemig Covid-19, awgrymwyd fod logos yn bwysicaf, am resymau'n ymwneud ag adnabod a diogelu fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adran hon.

Rhanddeiliaid eraill

- 1.150 Ymysg rhanddeiliaid eraill a oedd o blaid logos, y consensws cyffredinol oedd mai dim ond un logo sydd ei angen, yn benodol ar ddilledyn allanol fel blaser neu siwmpwr.
- 1.151 Awgrymai un rhanddeiliad y gellid prynu logos ar wahân a'u smwddio ar y dilledyn. Crybwyllwyd hefyd na ddylai logos ar ddillad chwaraeon fod yn ofynnol ond ar gyfer dysgwyr sy'n chwarae i dimau'r ysgol – ond unwaith eto, y dylai hwn fod yn logo i'w smwddio ar y dilledyn.

Cwestiwn Ymgynghori 5 – Ydych chi'n cytuno y dylid darparu bathodynau logo y gellir eu smwddio neu eu gwnïo ymlaen, yn rhad ac am ddim?


Ymatebwyr yr Ymgynghoriad

- 1.152 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (67 y cant) yn cytuno y dylid darparu bathodynau logo yn rhad ac am ddim i ddysgwyr. Roedd y traean arall o ymatebwyr naill ai'i anghytuno neu'n teimlo'n niwtral ar y pwnc.

Tabl 5 – Ymatebion i Gwestiwn 5

Ymateb	Nifer	Canran o'r cyfanswm
-	63	1 y cant
Cytuno	3385	67 y cant
Anghytuno	790	16 y cant
Ddim yn cytuno nac anghytuno	841	17 y cant
Cyfanswm	5079	100 y cant

Ffigur 5 – Ymatebion i Gwestiwn 5



1.153 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y dylid darparu bathodynau i deuluoedd, ond roedd rhywfaint o amwysedd ynghylch y cwestiwn a ddylent fod yn rhad ac am ddim. Roedd pryderon ynghylch pwy a fyddai'n ariannu'r ddarpariaeth o fathodynau logo i'w smwddio neu eu gwnïo ymlaen i ddysgwyr. Roedd llawer o ymatebwyr yn dadlau y byddai'n annheg i ysgolion orfod defnyddio eu cyllidebau, sydd eisoes o dan straen, i ddarparu'r bathodynau hyn ac yn awgrymu y gellid codi tâl bach i dalu am gost eu cynhyrchu, ac y dylai'r arian fynd yn ôl i gronfeydd yr ysgol.

1.154 Roedd bathodynau y gellir eu smwddio ar ddilledyn yn cael eu ffafrio'n gyffredinol dros rai i'w gwnïo, oherwydd eu bod yn haws i'w gosod a/neu

yn rhatach i'w cynhyrchu. Roedd y cwestiwn o sut y byddai'r bathodynau yn cael eu dosbarthu a'u rhoi ar ddillad yn bryder a grybwyllwyd yn helaeth, fodd bynnag; mae potensial i fathodynau i'w smwddio neu eu gwnïo gael eu gosod yn anwastad neu i beidio â glynu'n iawn i fathau penodol o frethyn, gan arwain at ddiffyg unffurfiaeth ymysg dysgwyr a'r potensial o greu catalydd i fwlio. Awgrymwyd y byddai pin metel yn well gan y byddai modd ei aildefnyddio a'i drosglwyddo; ymysg ymatebwyr a awgrymodd hyn, eu barn oedd y byddai tâl o rhwng 50 ceiniog a £2 am fathodyn yn dderbyniol. Awgrymwyd hefyd gan rai mai'r ffordd orau o liniaru'r gost a'r drafferth sy'n gysylltiedig â bathodynau i'w smwddio neu eu gwnïo yw cael gwared ar logos yn gyfan gwbl a glynu'n hytrach wrth cod gwisg/gwisg ysgol safonol plaen.

Cwestiwn Trafod G – I ba raddau ydych chi'n meddwl bod bathodynau y gellir eu smwddio neu eu gwnïo ymlaen yn ddewis arall ymarferol i gymryd lle'r logo brodwaith traddodiadol? A ddylai'r rhain gael eu darparu'n rhad ac am ddim i ddisgyblion, yn eich barn chi?

Rhieni

- 1.155 Roedd chwe rhiant yn hoffi'r syniad o logo i'w smwddio neu ei wnïo ymlaen, ond yn dweud y dylai fod yn ddewisol, ac y dylai'r logo fod yn hawdd ei roi ar y dilledyn.
- 1.156 Dywedodd dau riant y byddai'n well ganddynt yn bersonol brynu'r wisg ysgol gyda'r bathodyn eisoes arni.
- 1.157 Roedd yn rhiant nad oedd yn hoffi'r syniad, ar y sail "ni fydd yn smart."
- 1.158 Roedd un rhiant o'r farn y byddai logo y gellir ei smwddio neu ei wnïo ymlaen yn addas ar gyfer dillad chwaraeon ond nid ar gyfer darnau eraill o'r wisg ysgol.
- 1.159 Un fantais allweddol i logos i'w gwnïo neu eu smwddio ymlaen yw y byddent yn creu diwydiant i berchnogion busnes bach greu'r bathodynau.

- 1.160 Ar y llaw arall, awgrymwyd nad oedd logos i'w smwddio ar ddiplad yn ddim ond “rhywbeth arall i rieni feddwl amdano”.
- 1.161 Roedd rhai rhieni'n mynegi pryderon y gallai'r syniad arwain at fwlio pe bai bathodynau yn cael eu glynu'n wael ac y gallai greu problemau os oes gwahaniaethau rhwng dysgwyr sydd â gwisg ysgol 'go-iawn' (sef, gyda logo brodwaith) a'r rheini roedd eu rhieni wedi glynu'r logo eu hunain.
- 1.162 Credai un rhiant y dylai bathodynau fod yn fudd-dal prawf moddion, dibynnol ar incwm teulu, tra bod dau arall o'r farn y dylai bathodyn am ddim neu ar ddisgownt fod yn cael ei roi i bawb.

Llywodraethwyr ysgol

- 1.163 Nid oedd neb o'r llywodraethwyr o'r farn fod bathodynau logo y gellir eu smwddio neu eu gwnïo ymlaen yn ddewis arall ymarferol yn lle'r logo brodwaith traddodiadol, ar y sail nad ydynt yn realistig ac na fyddent yn gweithio: “ni fyddai'n rhieni ni'n gwneud hyn”.
- 1.164 Roedd llywodraethwyr yn bryderus ynghylch anhawster gwnïo neu smwddio bathodyn ymlaen, a fyddai'n ddisgwyliad ychwanegol ar rieni / gwarcheidwaid dysgwyr.
- 1.165 Er hynny, cyfeiriodd un llywodraethwr at ei brofiad o ysgol yn Lloegr, lle'r oedd y dewis i brynu blaser ddu blaen a gwnïo'r bathodyn arni, ac nad oedd gwneud hynny ddim yn “destun cywilydd o gwbl”.
- 1.166 Awgrymodd llywodraethwr arall hyrwyddo'r siop wisg ysgol a dewisiadau ail-law fel dewis arall yn lle cynnwys dewisiadau smwddio neu wnïo ymlaen.

Staff addysgu

- 1.167 Roedd staff addysgu yn gyffredinol o blaid darparu logos i'w smwddio ymlaen.

- 1.168 Dywedodd rhai staff eu bod eisoes yn ystyried hyn fel dewis arall yn eu hysgol ond eu bod yn ansicr ynghylch faint y gallai ei gostio i rieni.
- 1.169 Eu dealltwriaeth oedd y byddai'r ysgol yn gwerthu'r bathodynau ar bris cost. Byddai hyn yn eu cadw mor fforddiadwy â phosibl i rieni eu prynu.
- 1.170 Roedd staff yn obeithiol y byddai hyn yn galluogi teuluoedd i gydymffurfio â gweddill safonau'r wisg ysgol, gan wneud y 'pecyn' cyffredinol yn fwy fforddiadwy o'r cychwyn.

Plant a phobl ifanc

- 1.171 Roedd llawer o'r bobl ifanc o'r farn fod cynnig bathodynau y gellir eu smwddio neu eu gwnïo ar ddillad yn syniad da gan y byddai'n golygu bod y wisg ysgol yn rhatach, er eu bod yn nodi hefyd y byddai'n ddibynol ar sgiliau gwnïo rhieni.
- 1.172 Roedd dysgwyr eraill yn bryderus y gallai bathodynau y gellir eu smwddio neu eu gwnïo ymlaen syrthio i ffwrdd yn hawdd.
- 1.173 Pryder arall a fynegwyd gan ddysgwyr oedd y gallai logo'r ysgol gael ei ychwanegu'n hawdd at ddillad anaddas nad yw'n unol â pholisi'r ysgol.

Cyflenwyr gwisg ysgol

- 1.174 Roedd cyflenwyr yn unfrydol yn erbyn bathodynau y gellir eu smwddio neu eu gwnïo ar ddillad.
- 1.175 Roedd prif ddiffygion bathodynau o'r fath a nodwyd ganddynt yn cynnwys:
- Nid yw heyrn smwddio cartref yn creu digon o wres i smwddio logo ymlaen yn iawn "mae'n dod i ffwrdd ac yn gadael ôl gliw."
 - Byddai'n caniatáu i amrywiaeth helaeth o ddilladau gael eu prynu a'u gwisgo, a thrwy hynny golli cysondeb a

chydreddoldeb gwisg ysgol: “nid yw cael ‘siwmpwr las’ a rhoi logo arni yn ei gwneud yn wisg ysgol.”

- Yn gysylltiedig â'r uchod, mae hyn yn creu'r risg o fwlio a chwestiynau fel: “o le gest ti dy flaser?”
- Diffyg helaeth o sgiliau gwnïo ymysg rheini, gan arwain at y logos yn cael eu gosod yn afreolaidd a ffyrdd gwahanol o'u glynu neu eu gosod: “Dw i wedi eu gweld yn cael eu rhoi ymlaen gyda Sellotape, styffylau, yn y lle anghywir – mae'n arwain at fwlio, ac nid yw'n gost-effeithiol.”
- Mae logo i'w smwddio ymlaen yn dal i olygu cost, a delir gan yr ysgol yn aml.

Rhanddeiliaid eraill

- 1.176 Ar y llaw arall, lle gwnaeth rhanddeiliaid eraill fynegi barn ar y pwnc hwn, roedd pawb ohonynt yn ystyried bathodynau logo i'w smwddio neu eu gwnïo ymlaen fel dewis arall ymarferol yn lle'r logo brodwaith traddodiadol. Teimlai dau rhanddeiliad fod hyn yn galluogi ysgol i newid eu logo heb newid y wisg ysgol i gyd gan y gellir tynnu'r bathodyn presennol sydd wedi ei wnïo ar y dilledyn a rhoi'r un newydd yn ei le.
- 1.177 Awgrymwyd hefyd fod logos y gellir eu smwddio neu wnïo ymlaen yn galluogi rhieni i brynu dillad ail-law neu dderbyn dillad gan ddysgwyr mewn ysgolion eraill sydd â gwisg ysgol o'r un lliw.
- 1.178 Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, fe wnaeth un rhanddeiliad fynegi beirniadaeth o wisg ysgol yn llwyr, gan ddweud: “gwisg ysgol ddylai fod y peth diwethaf i gael ei flaenoriaethu – pan fo popeth arall yn mynd ymlaen. Dylid rhoi blaenoriaeth i gael disgyblion i fynd i'r ysgol!”

Cwestiwn Ymgynghori 6 – Ydych chi'n cytuno na ddylai logos fod yn ofynnol ar ddillad chwaraeon ysgol a gwahanol fathau o offer ysgolion?


Ymatebwyr i'r Ymgynghori

- 1.179 Roedd tri chwarter yr ymatebwyr (75 y cant) yn cytuno na ddylai logos ysgol fod yn ofynnol ar ddillad chwaraeon ysgol, tra bod 14 y cant yn anghytuno. Roedd un ymatebydd o bob deg yn amwys ei farn ar y mater hwn.

Tabl 6 – Ymatebion i Gwestiwn 6

Ymateb	Nifer	Canran o'r Cyfanswm
-	60	1 y cant
Cytuno	3824	75 y cant
Anghytuno	693	14 y cant
Ddim yn cytuno nac anghytuno	502	10 y cant
Cyfanswm	5079	100 y cant

Ffigur 6 – Ymatebion i Gwestiwn 6



- 1.180 Y brif thema yn yr ymatebion hyn oedd bod logos ar ddillad chwaraeon ysgol a chyfarpar arall yn ddiangen ac yn gallant fod yn faich ariannol sylweddol ar rieni. Roedd llawer o ymatebwyr yn mynegi rhwystredigaeth fod logos yn ofynnol ar eitemau o ddillad chwaraeon na fydd efallai ond yn cael eu gwisgo o fewn tir yr ysgol, a bod yn rhaid cael dilladau a logos newydd pan gaiff eitemau'n cael eu colli neu'n mynd yn rhy fach. Awgryma rhai ymatebwyr y byddai canllawiau lliw syml yn ddigonol ar gyfer dillad chwaraeon.

- 1.181 Roedd llawer o'r ymatebion i Gwestiwn 6 yn llawn arddeliad, gyda geiriau megis "chwerthinllyd", "gwastraff amser," "gormodedd," a "chost" yn cael eu defnyddio'n barhaus i fynegi rhwystredigaeth a diflastod gyda'r gofyniad am logos ar ddillad ac offer chwaraeon yr ysgol. Yn gyffredinol, mae'r iaith a ddefnyddiwyd yn yr ymatebion yn awgrymu bod graddau uchel o anfodlonrwydd gyda rhai o'r gofynion presennol.
- 1.182 Mae'r ymatebion yn awgrymu bod logos ar ddillad chwaraeon yn ddiangen oni bai fod y plentyn yn cynrychioli'r ysgol mewn gemau chwaraeon cystadleuol. Amlygwyd yr angen i allu adnabod dysgwyr pan maent yn cynrychioli'r ysgol mewn gemau chwaraeon cystadleuol. Fodd bynnag, byddai'n fwy cynhwysol a fforddiadwy i ganiatáu disgyblion i wisgo dillad chwaraeon lliw plaen ar gyfer gwersi rheolaidd ymarfer corff.

Thema 4 – Trefniadau â Chyflenwyr

Cwestiwn 7 - Mae nifer o ysgolion yn sefydlu trefniadau gyda chyflenwr unigol i ddarparu gwisg ysgol. Mae hynny'n golygu nad oes modd dewis ble i brynu eitemau gwisg ysgol â brand. A ydych chi'n cytuno y dylai ysgolion osgoi trefniadau gyda chyflenwr unigol ar gyfer darparu gwisgoedd ysgol â brand?


Ymatebwyr yr Ymgynghoriad

- 1.183 Mae mwyafrif llethol yr ymatebwyr (87 y cant) yn cytuno y dylai ysgolion osgoi cytundebau gyda chyflenwyr unigol ar gyfer darparu gwisgoedd ysgol â brand, gyda dim ond pump y cant yn anghytuno.

Tabl 7 – Ymatebion i Gwestiwn 7

Ymateb	Nifer	Canran o'r cyfanswm
-	54	1 y cant
Cytuno	4418	87 y cant
Anghytuno	251	5 y cant
Ddim yn cytuno nac anghytuno	356	7 y cant
Cyfanswm	5079	100 y cant

Ffigur 7 – Ymatebion i Gwestiwn 7



- 1.184 Y consensws cyffredinol oedd bod cytundebau gyda chyflenwyr unigol yn arwain at fonopolïau a chyflenwyr yn manteisio'n annheg trwy godi prisiau uwch. Mae llawer yn credu bod y cytundebau hyn yn cael eu gyrru'n bennaf gan elw ac nad ydynt er budd rhieni a dysgwyr. Awgryma rhai ymatebwyr hefyd y dylid osgoi cytundebau â chyflenwyr unigol, gan y gallant arwain at broblemau ynghylch diffyg argaeledd ac ansawdd. Awgrymwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod cystadleuaeth rhwng cyflenwyr i gadw costau cyn ised â phosibl. Dylai rhieni gael y dewis i brynu gwisg ysgol gan amrywiaeth o gyflenwyr, gan gynnwys archfarchnadoedd, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyrchu gwisg ysgol yn unol â'u hamgylchiadau ariannol.
- 1.185 Nodwyd hefyd y gallai logos y gellir eu smwddio neu eu gwnïo ar y ddillad leihau'r graddau o ddibyniaeth ar gyflenwr unigol. Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd sicrhau bod ansawdd y wisg ysgol o safon uchel.
- 1.186 Yn achos ysgolion yn cychwyn cytundeb â chyflenwyr, dylai ysgolion ystyried hygyrchedd y cyflenwr, ac a ydynt yn gallu darparu dillad am brisiau fforddiadwy. Os nad ydynt, mae angen i'r ysgol gymorthdal am ddillad sy'n ddrutach. Dylai ysgolion hefyd allu trafod prisiau is gyda chyflenwyr unigol a dylent ddarparu pecynnau gwisg ysgol sylfaenol am bris gosodedig.
- 1.187 Roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru rwystro ysgolion rhag gwneud trefniadau annheg gyda chyflenwyr sy'n manteisio'n annheg ar gwsmeriaid ac y dylent orfodi camau yn erbyn ysgolion sy'n gwneud hynny. Yn yr un modd, dadleuwyd y dylai awdurdodau lleol ddefnyddio eu hadrannau caffael i drafod prisiau ffafriol gydag ychydig o gwmnïau lleol dethol a sicrhau bod y gwisgoedd ysgol yn fforddiadwy ac yn hygyrch i bawb. Mewn rhai achosion, dywedodd ymatebwyr yn benodol na ddylid caniatáu "monopolïau". Awgrymwyd y dylai ysgolion, uwchlaw popeth, flaenoriaethu siopau cyfnewid gwisgoedd ysgol er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a chostau gorfod prynu gwisgoedd ysgol newydd.

- 1.188 Roedd yr ychydig ymatebwyr a oedd yn anghytuno gyda'r cynnig yn crybwyll pwysigrwydd cefnogi busnesau lleol yn hytrach nag archfarchnadoedd mawr corfforaethol fel rheswm pam y *dylai* ysgolion fynd i gytundebau â chyflenwyr penodol. Roedd rhai pobl yn dadlau y gall cael cyflenwr unigol sicrhau cysondeb lliw, deunydd, etc. Yn ogystal, y teimlad oedd, cyhyd ag mae'r cyflenwr yn darparu dillad am brisiau fforddiadwy, neu'r ysgol yn cymorthdalw cost uwch dillad, ni ddylai cytundebau â chyflenwr unigol fod yn bryd. Y consensws ymysg y grŵp hwn o ymatebwyr, fodd bynnag, oedd y dylai ysgolion, yn ddelfrydol, fynd i gytundebau gydag o leiaf ddau neu dri manwerthwr. Argymhellwyd y dylai fod tendro trwyadl a chystadleuol er mwyn dewis darparwr neu ddarparwyr gwisg ysgol, ond y dylai hyn fod ar y pwynt dewis ac nid wrth ddsbarthu.

*Cwestiwn Trafod H / I – Pa mor addas / cyffredin yw hi i ysgolion sefydlu trefniadau gyda chyflenwr unigol i ddarparu gwisg ysgol?
Anogwch os oes angen: Mae hynny'n golygu nad oes modd dewis ble i brynu eitemau gwisg ysgol â brand. Beth yw'r manteision / anfanteision cymharol o gael trefniadau â chyflenwr unigol ar gyfer darparu gwisgoedd ysgol?*

- 1.189 Noder bod Cwestiynau Trafod H ac I wedi cael eu cyfuno yn ystod y broses ddadansoddi gan fod rhanddeiliaid wedi cynnig barn debyg mewn ymateb i'r ddau gwestiwn. Roedd Cwestiwn Trafod H yn canolbwyntio ar pa mor addas yw trefniadau gyda chyflenwr unigol, tra bod Cwestiwn Trafod I yn canolbwyntio ar pa mor gyffredin yw hi i ysgolion gael trefniadau cyflenwr unigol gyda darparwr gwisg ysgol.

Rhieni

- 1.190 Roedd chwech o rieni nad oedd â chytundeb â chyflenwr unigol yn ysgol eu plentyn (plant), a dywedodd saith o rieni bod ganddynt gytundeb â chyflenwr unigol. Roedd y gweddill yn ansicr o'r sefyllfa yn ysgol eu plentyn (plant).

- 1.191 Dywedodd un rhiant nad oedd yn hoffi'r syniad o gytundeb â chyflenwr unigol.
- 1.192 Credai un arall y dylai ysgolion weithredu fel diwydiannau eraill, gan sicrhau nad oes monopoli a diogelu cystadleurwydd.
- 1.193 Roedd rhieni'n cydnabod y gallai fod rhai achosion lle nad yw'n fater i'r ysgolion, ac y gallai fod mai'r awdurdod lleol yw rheini sy'n gorfodi'r penderfyniad ynghylch pa gyflenwr i'w ddefnyddio.
- 1.194 Ni chafodd unrhyw fanteision i gytundeb â chyflenwr unigol eu crybwyll gan rieni.
- 1.195 Roedd anfanteision a nodwyd gan rieni yn cynnwys:
- Mae cyflenwyr yn aml yn gwerthu allan yn gyflym ac os nad oes ond un cyflenwr mae hyn yn gwneud gwisg ysgol yn fwy anodd ei chael.
 - Roedd cytundebau â chyflenwyr unigol yn arwain at ddillad drutach, oherwydd y diffyg cystadleuaeth.
 - Pryderon ynghylch cyflenwyr unigol yn cynnig cyflawni araf, ansawdd gwael, diffyg dewis, oriau agor cyfyngedig a ffrâm amser byr ar gyfer archebu dillad.

Llywodraethwyr ysgol

- 1.196 Teimlai llywodraethwyr ysgol y byddai trefniant gyda chyflenwr unigol yn fwy priodol os oes cyfle i'r contract gael ei aildendro ar ysbeidiau rheolaidd.
- 1.197 Roedd rhai yn sôn sut roedd cael dau gyflenwr yn fwy addas, gan ei fod yn rhoi dewis i rieni o le i brynu gwisg ysgol yn ogystal â chyflwyno elfen o gystadleuaeth dros bris. Y teimlad oedd bod hyn yn arbennig o berthnasol mewn ysgolion uwchradd lle mae dalgyrch yr ysgol yn fwy.
- 1.198 Un fantais o drefniadau â chyflenwr unigol yw ei bod yn aml yn golygu y bydd y cyflenwr yn danfon y wisg ysgol yn uniongyrchol i'r ysgol, sy'n hwylus i rieni.

- 1.199 Er hynny, yn unol â'r adborth gan randdeiliaid eraill, roedd llywodraethwyr yn mynegi pryderon y gallai trefniant o'r fath arwain at gyflenwyr yn cael monopoli. Yn ogystal, awgrymwyd y gallai fod achosion lle mae'r cyflenwr unigol yn rhedeg allan o stoc o faint penodol, gan olygu na allai rhieni brynu'r wisg ysgol mae ar eu plentyn ei hangen.

Staff addysgu

- 1.200 Ni rannwyd unrhyw farn gan staff addysgu mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Plant a phobl ifanc

- 1.201 Roedd llawer o bobl ifanc yn adnabod y risg ariannol o gael dim ond un cyflenwr gwisg ysgol, gan bwysleisio na fyddai ganddynt ddim dewis, pe bai prisiau'n codi, ond defnyddio'r cyflenwr hwnnw.
- 1.202 Roedd dysgwyr yn mynegi pryder hefyd nad oedd, yn aml yn eu profiad hwy, gan "siopau gwisg ysgol" ddigon o stoc na'r maint a oedd ei angen, gan olygu bod yn rhaid iddynt ddychwelyd i'r siop yn ddiweddarach neu brynu gwisg ysgol nad yw gan y cyflenwr swyddogol.

Cyflenwyr gwisg ysgol

- 1.203 Dywedodd cyflenwyr fod contractau cyflenwyr unigol yn anghyffredin yng Nghymru, lle mae gan y mwyafrif o ysgol ddau neu fwy o gyflenwyr. Dywedodd un ymatebydd ei bod yn "debygol mai llai na phump y cant o ysgolion yng Nghymru sydd â chyflenwr unigol". Gall hyn ddibynnu ar leoliad daearyddol a'r graddau mae cyflenwyr arbenigol gwisg ysgol ar gael; er enghraifft mewn ardaloedd fel yr Wyddgrug nid oes ond un cyflenwr yn lleol, tra mewn ardaloedd fel Abertawe mae digonedd o gyflenwyr, gan ei gwneud yn fwy ymarferol i ysgolion contractio gyda sawl cyflenwr.

- 1.204 Roedd cyflenwyr gwisg ysgol yn gyffredinol o blaid contractau â chyflenwr unigol gan ddweud bod atebolrwydd ar un cyflenwr yn arwain at wasanaethau gwell, mwy cynhwysfawr, gyda buddsoddiad addas. Yn ogystal, mae'n helpu cyflenwr i greu perthynas â'r ysgol a rhieni ac yn ei dro gynnig cymorth wedi ei dargedu i'r rheini mewn angen. Awgrymwyd bod contractau â chyflenwyr unigol "yn gysyniad a gaiff ei gamddeall yn fawr".
- 1.205 Gall y cyflenwr unigol hefyd gynnig parhad mewn lliw ac arddull, yn ogystal â sicrhau bod gwisgoedd ysgol wedi eu cyrchu'n foesebol ac (mewn llawer achos) wedi eu gwneud o ddeunyddiau wedi eu hailgylchu.
- 1.206 Roedd cyflenwyr yn nodi hefyd fod berthynas â chyflenwr unigol yn fuddiol i'r gymuned leol gan fod cyflenwyr arbenigol gwisg ysgol yn busnesau annibynnol, lleol (yn aml) sy'n darparu swyddi lleol. Yn ogystal, mae'r gwerthiannau gwarantedig sy'n gysylltiedig â pherthynas â chyflenwr unigol yn galluogi cyflenwyr i roi'n ôl i'r ysgol trwy wisgoedd ysgol ar ddisgownt neu am ddim; mewn llawer achos, mae'r cyfnewid hwn yn aml yn "rhan o broses dendro".
- 1.207 Er hynny, roedd cyflenwyr yn awyddus i bwysleisio bod y manteision hyn yn dibynnu ar broses dendro drylwyr gystadleuol i benodi cyflenwr unigol.
- 1.208 Roedd cyflenwyr yn nodi y gall contractau cyflenwr unigol fod â'r risg o leihau cystadleuaeth neu ddewis i rieni ac hefyd osod baich cyfrifoldeb diwallu galw ar un cyflenwr yn unig.
- 1.209 Awgrymwyd bod risg i leiafrif o gyflenwyr arbenigol mewn contractau cyflenwr unigol godi gormod a thanseilio'r holl sector.

Rhanddeiliaid eraill

- 1.210 Roedd yn ymddangos mai cyfyngedig oedd yr ymwybyddiaeth o'r mater hwn ymysg rhanddeiliaid eraill. Nid oedd neb o'r rhanddeiliaid yn gwybod pa mor gyffredin yw hi i ysgolion wneud trefniadau cyflenwr unigol gyda chyflenwr gwisg ysgol.

- 1.211 Awgrymwyd fodd bynnag y gallai trefniadau gyda chyflenwr unigol fod yn addas os gall y cyflenwr gynnig gwerth da am arian a sicrhau bod y dillad ar gael. Roedd eraill o'r farn fod hyn yn anaddas ac yn teimlo y dylai rhieni gael dewis o fwy nag un cyflenwr. Teimlai un rhanddeiliad y dylid penderfynu hyn ar sail achos unigol gan yr ysgol.

Thema 5 – Tryloywder i Gwsmeriaid

Cwestiwn 8 – Ydych chi'n cytuno y dylai ysgolion fod yn dryloyw wrth ddangos bod unrhyw fudd o gytundeb ariannol sydd ganddyn nhw gyda chyflenwyr gwisg ysgol yn cael ei drosglwyddo i'r cwsmer?


Ymatebwyr yr Ymgynghoriad

- 1.212 Credai naw o bob deg o ymatebwyr (88 y cant) y dylai ysgolion fod yn dryloyw wrth ddangos bod unrhyw fudd o gytundeb ariannol sydd ganddyn nhw gyda chyflenwr gwisg ysgol yn cael ei drosglwyddo i'r cwsmer. Dim ond dau y cant oedd yn anghytuno'n agored â hyn.

Tabl 8 – Ymatebion i Gwestiwn 8

Ymateb	Nifer	Canran o'r Cyfanswm
-	70	1 y cant
Cytuno	4487	88 y cant
Anghytuno	97	2 y cant
Ddim yn cytuno nac anghytuno	425	8 y cant
Cyfanswm	5079	100 y cant

Ffigur 8 – Ymatebion i Gwestiwn 8



- 1.213 Roedd ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd tryloywder ynghylch unrhyw fudd ariannol. Roedd rhai ymatebwyr yn mynegi awydd am dryloywder ariannol ond roeddent yn agored i'r syniad o ysgolion yn ategu eu cyllideb trwy fudd o'r fath, er bod nifer sylweddol yn teimlo na ddylai ysgolion fod yn elwa o gwbl o'r trefniadau hyn.
- 1.214 Roedd cydnabyddiaeth gan rai fod ysgolion yn ei chael yn anodd yn ariannol a theimlad y byddai enillion ariannol yn dderbyniol pe cânt eu gwario mewn ffordd sydd o fudd i ddisgyblion, er y teimlai llawer y dylid rheoleiddio hyn yn llym er mwyn sicrhau atebolrwydd. Roedd rhai yn mynegi hyder y byddai unrhyw arian yn cael ei wario'n ddoeth ac er budd y disgyblion. Roedd ymatebwyr eraill yn nodi nad oedd eu hysgolion yn elwa o unrhyw drefniadau sydd ganddynt ar hyn o bryd.
- 1.215 Ar y llaw arall, teimlai llawer yn gryf na ddylai ysgolion gael budd nac elw o gytundebau o'r fath, yn enwedig heb wybodaeth teuluoedd, ac yn gweld hyn fel elwa "ar gefnau" rhieni a theuluoedd difreintiedig. Crybwyllwyd yr argyfwng costau byw a chwyddiant, gan gynnwys costau gyrru at gyflenwyr sydd wedi eu leoli ymhell i ffwrdd o gartrefi teuluoedd a'r costau ynni sy'n gysylltiedig â defnyddio peiriannau golchi a sychwyr i alluogi plant i wneud gyda llai o ddarnau o wisg ysgol. Teimlai rhai fod yn rhaid i fudd ariannol i ysgol gael ei gydbwysu yn erbyn fforddiadwyedd gwisg ysgol i deuluoedd sy'n ei chael yn anodd. Roedd rhai yn esbonio eu barn y dylai'r holl gyllid fynd yn ôl i werthiant dillad er mwyn dod â phrisiau gwisg ysgol i lawr neu i ariannu costau gwisg ysgol y rheini na all fforddio eu prynu.
- 1.216 Roedd grŵp mawr o ymatebwyr hefyd a oedd yn anghytuno mewn egwyddor â'r cysyniad o gytunedau â chyflenwyr unigol, gan ei weld fel ffurf o arferion gwrth-gystadleuol a rhywbeth sy'n llesteirio dewis rhieni. Roedd rhai a oedd yn erbyn y mathau hyn o gytundebau yn gyffredinol yn esbonio na ddylai tryloywder fod yn angenrheidiol oherwydd na ddylai'r cytundebau fod yn y lle cyntaf. Teimlai o leiaf un ymatebydd y dylai hyn fod yn gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, nid ysgolion.

- 1.217 Roedd llawer o ymatebwyr wedi eu synnu at y cwestiwn hwn, heb fod wedi ystyried budd ariannol posibl i ysgolion o gytundebau â chyflenwyr unigol. Roedd rhai yn dehongli'r cwestiwn fel trafod budd ariannol posibl i deuluoedd, gan nodi nad oeddent yn gwybod am neb. Nid oedd dim ymatebion a oedd yn anghytuno'n ddiamwys â'r teimlad y dylai ysgolion fod yn dryloyw wrth ddangos bod unrhyw fuddion ariannol a dderbyniant gan gyflenwyr gwisg ysgol yn cael eu trosglwyddo i'r cwsmer, er bod rhai yn mynegi ansicrwydd eu amheuaeth ynghylch defnyddioldeb cytundebau o'r fath, fel yr esbonir uchod.

Cwestiynau Trafod J / K – Pa mor bwysig / cyffredin yw hi fod ysgolion yn dryloyw wrth ddangos bod unrhyw fudd o gytundeb ariannol sydd ganddyn nhw gyda chyflenwyr gwisg ysgol yn cael ei drosglwyddo i'r cwsmer?

- 1.218 Noder bod Cwestiynau Trafod J a K wedi cael eu cyfuno gan fod rhanddeiliaid yn cynnig barnau tebyg pan ofynnwyd y ddau gwestiwn iddynt. Roedd Cwestiwn Trafod J yn canolbwyntio ar pa mor bwysig yw tryloywder ysgolion ynghylch unrhyw fudd ariannol, tra bod Cwestiwn Trafod K yn canolbwyntio ar pa mor gyffredin yw hi i ysgolion fod yn dryloyw.

Rhieni

- 1.219 Teimlai pawb o'r rhieni ei bod yn bwysig fod ysgolion yn dryloyw wrth ddangos bod unrhyw fudd ariannol sydd ganddynt gyda chyflenwr gwisg ysgol yn cael ei drosglwyddo i'r cwsmer mewn rhyw ffordd.
- 1.220 Dywedodd tri chyfranogwr yr hoffent wybod, os oedd elw o unrhyw fath, lle'r oedd yn cael ei ddyrannu yng nghyllideb yr ysgol.
- 1.221 Teimlai rhieni eraill fod tryloywder yn bwysig, ond eu bod yn hapus mewn egwyddor i'r ysgol elwa'n ariannol.
- 1.222 Roedd un rhiant yn ansicr pam *na* fyddai ysgolion yn datgelu'r wybodaeth hon.

- 1.223 Dywedodd un cyfranogwr eu bod wedi derbyn y wisg ysgol yn uniongyrchol gan yr ysgol, ac felly y byddai'n fanteisiol gwybod a oes unrhyw fuddion ariannol.
- 1.224 Ni allai neb o'r rhieni a oedd yn cymryd rhan yn y grwpiau ffocws gofio derbyn gwybodaeth ynghylch eu hysgol yn elwa'n ariannol o gontract cyflenwr gwisg ysgol ac roeddent yn ansicr a oedd yn drefn gyffredin mewn ysgolion eraill.
- 1.225 Fe wnaeth un cyfranogwr grybwyll achos lle'r oedd un ysgol yn newid tei'r ysgol bob blwyddyn, a oedd, yn ei farn, yn deillio o gymhelliad ariannol ar ran yr ysgol.
- 1.226 Roedd un ymatebydd yn meddwl y gallai ddarganfod a oedd yr ysgol yn elwa'n ariannol a sut roedd yn gwneud hynny, ond na roddwyd yr wybodaeth hon yn agored a phenodol iddo. Dywedodd rhiant arall na fyddai o angenrheidrwydd yn credu beth fyddai eu hysgol yn honni fyddai natur unrhyw fudd ariannol sydd ganddynt gyda'i cyflenwr gwisg ysgol.

Llywodraethwyr ysgol

- 1.227 Cyfyngedig oedd ymwybyddiaeth llywodraethwyr o'r mater hwn er iddynt roi enghreifftiau o fusnesau eraill yn rhoi cymorth anariannol neu ariannol i'w hysgol leol.
- 1.228 Fe wnaeth un llywodraethwr grybwyll enghraifft o ysgol yn Lloegr sy'n agos i Faes Awyr Manceinion, lle'r oedd y maes awyr yn talu am flaser a thei i bob disgybl Blwyddyn 7. Roedd yn crybwyll bod y bartneriaeth wedi cael ei sefydlu'n wreiddiol oherwydd fod yr ysgol wedi ei lleoli mewn ardal a oedd â lefelau uchel o amddifadedd. Roedd y llywodraethwr yn awgrymu y gellid archwilio cynlluniau tebyg yng Nghymru ond roedd yn sylweddoli nad oedd gan bob ysgol fusnes mawr a oedd wedi'i leol gerllaw iddi a allai neu a fyddai'n cynnig cyllid.

- 1.229 Roedd llywodraethwyr yn awgrymu bod enghreifftiau mwy cyffredin o gefnogaeth gan y sector preifat yn ymwneud â busnesau lleol yn noddi timau pêl-droed, gan dalu am dillad chwarae, er enghraifft.
- 1.230 Dywedodd dau lywodraethwr nad oeddent yn gwybod am unrhyw fudd roedd eu hysgol yn ei dderbyn gan eu cyflenwr gwisg ysgol ond roeddent yn awgrymu gallai fod rheolwr busnes eu hysgol yn gwybod mwy am y mater.

Staff addysgu

- 1.231 Nid oedd staff addysgu'n gwybod am y ffyrdd mae ysgolion yn cael budd ariannol o gontractau gyda chyflenwyr.
- 1.232 Er hynny, teimlent y byddai ysgolion yn gwneud eu gorau i gadw'r gost sy'n gysylltiedig â gwisg ysgol cyn ised â phosibl i ddysgwyr a rhieni – er enghraifft trwy archwilio dewisiadau sy'n cynnig logos i'w smwddio neu eu gwnïo ymlaen.

Plant a phobl ifanc

- 1.233 Ni allai neb o'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws rannu unrhyw wybodaeth mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Cyflenwyr gwisg ysgol

- 1.234 Roedd un cyflenwr yn amau'r sail resymegol ar gyfer y cwestiwn hwn: "Dw i ddim yn meddwl bod sail resymegol dros gredu bod hyn yn bryder – roedd ysgolion yn y gorffennol a oedd â phroses gomisiwn ar gyfer gwisg ysgol, ond dyw hyn ddim yn digwydd bellach."
- 1.235 Er hynny, roedd cyflenwyr o'r farn ei bod yn bwysig iawn i ysgolion fod yn dryloyw ynghylch unrhyw faterion ariannol: "Dylai ysgolion gyfathrebu ... maen nhw wedi dod yn fusnesau ... mae angen iddyn nhw sicrhau tryloywder ynghylch popeth maen nhw'n ei wneud."

- 1.236 Roedd un cyflenwr yn gwybod am leiafrif o achosion lle cytunwyd ar y cam tendro y byddai'r cyflenwr yn talu comisiwn am bob gwerthiant: "I ysgol neu ddwy mae'n ffynhonnell ychwanegol o incwm ... tua £800-900 y flwyddyn mewn cyfanswm comisiwn."
- 1.237 Er nad oedd y mwyafrif o gyflenwyr yn gwybod am fudd ariannol uniongyrchol i ysgolion sy'n gysylltiedig â chontract i gyflenwi gwisg ysgol, roedd amryw yn crybwyll ffyrdd y mae ysgolion yn cael budd anffuriol gan gyflenwyr, er enghraifft:
- Noddi dramâu ysgol neu cynnig gwobrau raffl
 - Rhoi dillad chwarae pêl-droed
- 1.238 Gall cyflenwyr gynnig buddion i rieni hefyd – yn aml fel rhan o'u contract – er enghraifft eitemau ar ddisgownt i deuluoedd ar incwm isel, prisiau disgownt ar adegau penodol o'r flwyddyn, neu ddanfon nwyddau am ddim i ysgolion.
- 1.239 Y consensws cyffredinol oedd bod ysgolion yn dryloyw ynghylch unrhyw fuddiol – ffurfiol neu anffurfiol – sy'n gysylltiedig â chontractau gyda chyflenwyr arbenigol gwisg ysgol.

Rhanddeiliaid eraill

- 1.240 Nid oedd neb o'r rhanddeiliaid eraill yn gwybod am ysgolion yn derbyn budd ariannol trwy contractau gyda chyflenwyr gwisg ysgol, nac yn gwybod pa mor gyffredin ydyw fod ysgolion yn dryloyw wrth ddangos bod unrhyw fudd o gytundeb ariannol sydd ganddynt gyda chyflenwr gwisg ysgol yn cael ei drosglwyddo i'r cwsmer.
- 1.241 Er hynny, teimlai pawb o'r rhanddeiliaid fod tryloywder yn hanfodol. Gyda rhai o'r rheini a gyfwelwyd yn dweud: "Mae'n swnio'n bwysig, ond dw i ddim yn gwybod dim am hyn mewn gwirionedd" ac un arall ohonynt yn pwysleisio y dylai ysgolion "fod y dryloyw ynghylch unrhyw beth sydd a wnelo ag arian."

Thema 6 – Cymharu ag Archfarchnadoedd

Cwestiwn 9 – Ydych chi'n cytuno, os bydd ysgolion yn ymrwymo i gytundeb gyda chyflenwyr gwisg ysgol, y dylent sicrhau bod costau defnyddio'r cyflenwr hwn yn debyg i brisiau gwisgoedd ysgol manwerthwyr y stryd fawr neu archfarchnadoedd?


Ymatebwyr yr Ymgynghoriad

- 1.242 Mae mwyafrif llethol ymatebwyr (90 y cant) yn cytuno y dylai ysgolion sicrhau bod costau gwisgoedd ysgol o drefniadau â chyflenwr unigol yn debyg i brisiau siopau'r stryd fawr ac archfarchnadoedd.

Tabl 9 – Ymatebion i Gwestiwn 9

Ymateb	Nifer	Canran o'r Cyfanswm
Dim ymateb	53	1 y cant
Cytuno	4596	90 y cant
Anghytuno	176	3 y cant
Ddim yn cytuno nac anghytuno	254	5 y cant
Cyfanswm	5079	100 y cant

Ffigur 9 – Ymatebion i Gwestiwn 9



- 1.243 Roedd llawer o ymatebwyr yn feirniadol o'r drefn bresennol, a oedd yn ei barn hwy yn cael ei gyrru gan elw ac nad oedd yn rhoi'r gwerth gorau i deuluoedd. Roedd llawer o ymatebion yn cyfeirio at y gwahaniaeth presennol mewn pris rhwng archfarchnadoedd a siopau'r stryd fawr, a chyflenwyr arbenigol gwisg ysgol. Roedd fforddiadwyedd yn cael ei weld fel rhywbeth pwysig iawn. Roedd nifer mawr o ymatebwyr yn amheus a fyddai'r ateb arfaethedig o sicrhau costau tebyg yn bosibl, fodd bynnag. Gyda grym prynu a maint siopau fel Aldi a Tesco, credai llawer y byddai cyflenwyr gwisg ysgol yn annhebygol o ddarparu gwisgoedd ysgol am brisiau cystadleuol.
- 1.244 Roedd rhywfaint o bryder ynghylch yr effeithiau ar yr economi leol a chyflenwyr annibynnol, gyda'r potensial i archfarchnadoedd eu prisio allan o'r farchnad. Teimlai rhai fod y cwestiwn yn camddeall sut mae holl fusnes gwisg ysgol yn gweithio a bod cymharu cyflenwyr annibynnol â siopau'r stryd fawr yn annheg. Dywedodd lleiafrif o ymatebwyr eu bod yn hapus o gefnogi cyflenwyr annibynnol, lleol, hyd yn oed os oedd y pris yn uwch.
- 1.245 Roedd nifer o ymatebion yn pwysleisio nad cynhyrchu ar raddfa fawr a'r arbedion costau cysylltiedig â hynny ddylai'r ateb fod, hyd yn oed gan y rheini sy'n anghytuno â chytundebau â chyflenwyr unigol. Yn hytrach, dylai'r pwyslais fod ar eitemau mwy cynaliadwy ac ar ailgylchu ac ailddefnyddio. Roedd llawer yn gobeithio gallu trosglwyddo eitemau gwisg ysgol i lawr o blant hŷn i frodyr a chwiorydd iau ymhen amser, ac roedd hyn yn gofyn am ansawdd da a deunydd oedd yn para.
- 1.246 Roedd cyfeirio helaeth at ansawdd ac a fyddai costau tebyg yn ddichonadwy am ansawdd tebyg, er bod gwahaniaeth barn ar hyn. Credai llawer fod cyflenwyr gwisg ysgol yn cynnig eitemau o ansawdd gwell, gan olygu y byddai dysgwyr yn mynd trwy fwy o ddarnau o wisg ysgol a brynir gan archfarchnadoedd. Ar y llaw arall, dywedodd eraill fod gwisg ysgol a brynwyd gan gyflenwyr o ansawdd tebyg neu is o gymharu ag eitemau tebyg a brynwyd mewn archfarchnadoedd. Roedd llawer yn gweld y gwahaniaeth pris rhwng gwahanol fathau o gyflenwyr fel rhywbeth y dylid ei briodoli'n gyfan gwbl i ychwanegu logo, gan ddweud na ddylai'r

gwahaniaeth pris fod yn ddim mwy na chost gosod y logo. Roedd llawer yn awgrymu nad oedd cynnwys logo ar eitemau o wisg ysgol yn werth y gost ychwanegol. Er hyn, dywedodd rhai y byddent yn fodlon talu swm bach yn ychwanegol i gyflenwr unswydd pe bai logos wedi eu gosod ar yr eitemau o wisg ysgol.

- 1.247 Roedd llawer yn pwysleisio y dylid gallu prynu gwisg ysgol o unrhyw siop o ddewis rhieni. Ar y pwynt hwn, roedd lleiafrif o ymatebwyr yn mynegi rhwystredigaeth fod rhai cyflenwyr gwisg ysgol yn cynnig dewis mwy cyfyngedig o feintiau ac nad ydynt yn darparu ar gyfer cymaint o fathau o gyrff â siopau'r stryd fawr ac archfarchnadoedd.
- 1.248 Ar y llaw arall, roedd eraill yn nodi nad oedd archfarchnadoedd yn cadw gwisgoedd ysgol mewn stoc drwy gydol y flwyddyn, tra bod gan gyflenwyr gwisg ysgol gyflenwad mwy cyson ar gael. Teimlai eraill fod prynu eitemau rhatach o wisg ysgol o archfarchnadoedd a siopau'r stryd fawr yn bwysig, gan ei fod yn galluogi teuluoedd i fforddio sawl eitem o bob math o ddillad. Cafodd cyfleustra archfarchnadoedd ei grybwyll hefyd yng nghyd-destun heriau trafndiaeth, yn nhermau amser a chostau tanwydd.
- 1.249 Mynegwyd rhai pryderon ynghylch goblygiadau posibl caniatáu gwisg ysgol gan amryw o fanwerthwyr, gyda hyn yn arwain at eitemau o ddillad cymysg o ran diwyg gan wahanol fanwerthwyr. Teimlai rhai ymatebwyr mai'r ateb fyddai rhoi cymorth pellach i deuluoedd gyda chostau gwisg ysgol, yn hytrach nag iddynt brynu gwisgoedd ysgol o le bynnag y mynnont.

Cwestiwn Trafod L – Pa mor bwysig yw hi fod ysgolion yn ymrwymo fod costau gwisg ysgol sydd ar gael trwy gytundeb gyda chyflenwyr unigol yn debyg i brisiau gwisgoedd ysgol manwerthwyr y stryd fawr neu archfarchnadoedd? I ba raddau mae hyn yn digwydd?

Rhieni

- 1.250 Er bod rhieni'n deall y byddai trefniant prisio mwy cystadleuol yn fuddiol, roedd y mwyafrif yn sylweddoli'r problemau a fyddai'n codi pe ceisid gwneud hyn.

- 1.251 Dywedodd pedwar ymatebydd fod gwahaniaeth amlwg mewn pris rhwng siopau'r stryd fawr a chyflenwyr ysgolion. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth hwn mewn pris yn aml yn gysylltiedig â gwahaniaeth mewn ansawdd, megis siwmperi yn colli eu lliw.
- 1.252 Credai dau gyfranogwr na fyddai cyflenwyr bach byth yn gallu cystadlu'n realistig ag archfarchnadoedd yn sgil gwahaniaethau yn eu cadwyni cyflenwi a lefelau stoc.
- 1.253 Dywedodd cyfranogwr arall fod rhai pethau yn fforddiadwy, fodd bynnag roedd eitemau fel sgertiau a blaserau yn ddrud, yn dibynnu i raddau helaeth ar ofynion yr ysgol.
- 1.254 Yn ogystal, roedd un cyfranogwr o'r farn y dylid cadw prisiau'n gyson ac yn debyg mewn ysgolion ledled y wlad.
- 1.255 Roedd un rhiant o'r farn y gallai hyn fod yn gyfle i gefnogi'r gymuned/economi leol pe câi ei wneud yn dda.

Llywodraethwyr ysgol

- 1.256 Nid oedd llywodraethwyr ysgol yn sicr o le'r oedd trefniadau â chyflenwyr yn deillio, fodd bynnag, roeddent yn nodi bod gan archfarchnadoedd mawr y fantais o allu archebu symiadu mawr o stoc gan gynnwys strwythurau prisio cystadleuol. Nid yw cyflenwyr lleol, fodd bynnag, yn gallu gweithio ar yr un raddfa na chael yr un grym prynu ag archfarchnadoedd sy'n gwerthu gwisg ysgol generig.
- 1.257 Dywedodd un llywodraethwr fod hyn yn eithaf pwysig ac yn rhywbeth yr hoffent ei archwilio mewn mwy o fanylder ar gyfer eu hysgol.
- 1.258 Crybwyllodd llywodraethwr arall y byddai arnynt eisiau cefnogi busnes lleol; roedd yn cydnabod ei bod yn hynod debygol "na allent fyth guro cost [archfarchnadoedd] ond y gallent fod yn gystadleuol".
- 1.259 Dywedodd un llywodraethwr ysgol sut roedd cost blaserau ysgol eisoes wedi codi £5 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a hyn, gellir tybio, yn sgil chwyddiant.

Staff addysgu

- 1.260 Ni allai neb o'r staff addysgu a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws rannu unrhyw wybodaeth mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Plant a phobl ifanc

- 1.261 Roedd llawer o bobl ifanc yn esbonio bod archfarchnadoedd yn aml yn cynnig dewis arall rhatach ar gyfer gwisg ysgol o gymharu â'r cyflenwyr swyddogol, sy'n ffactor o bwysigrwydd cynyddol yn sgil yr argyfwng costau byw.
- 1.262 Fodd bynnag, roedd rhai dysgwyr hefyd yn nodi bod ansawdd gwisg ysgol a brynir gan gyflenwyr arbenigol yn tueddu i fod yn uwch na dilladau archfarchnadoedd sy'n golygu eu bod yn para'n hirach.

Cyflenwyr gwisg ysgol

- 1.263 Teimlai pawb o'r cyflenwyr nad yw sicrhau bod cost gwisg ysgol sydd ar gael trwy gytundebau â chyflenwyr unigol yn debyg i gost gwisg ysgol sydd ar gael o archfarchnadoedd yn ddewis posibl oherwydd y gwahaniaethau sylweddol mewn ansawdd rhyngddynt:
- “Mae'r un fath â chymharu afalau a gellyg”
 - “Maen nhw'n gynhyrchion cwbl wahanol – fel cymharu Kia gyda Mercedes.”
- 1.264 Awgrymwyd hefyd fod pobl yn afrealistig wrth gymharu'r dewis arall yn lle gwisg ysgol a brynir gan gyflenwyr arbenigol:
- “Mae pobl yn aml yn eithaf beirniadol o'r blaser gan mai dyma'r eitem unigol drutaf. Ond pe baech yn prynu côt, byddai'n debygol o gostio mwy gan y bydd yn debygol o fod wedi ei brandio.”
 - “Nid yw'r dewis arall yn rhatach o angenrheidrwydd.”

Rhanddeiliaid eraill

- 1.265 Teimlai'r mwyafrif o randdeiliaid ei bod yn dyngedfennol fod cost gwisg ysgol sydd ar gael trwy gytundebau â chyflenwr unigol yn debyg i gost gwisg ysgol sydd ar gael o siopau'r stryd fawr neu archfarchnadoedd. Dywedodd un o'r rheini a gyfwelwyd fod y mater hwn "yn bwysig iawn – rhaid [i'r pris] fod yn gystadleuol."
- 1.266 Nid oedd neb o'r rhanddeiliaid eraill yn gwybod pa mor gyffredin yw bod cyflenwyr yn cynnig gwisg ysgol ar gost debyg i wisg ysgol sydd ar gael o siopau'r stryd fawr neu archfarchnadoedd. Roedd un yn amau bod hyn yn annhebygol o fod yn gyffredin iawn ond nid oedd yn gwybod i sicrwydd.

Thema 7 – Cyfnewid / Ailgylchu Gwisg Ysgol

Cwestiwn 10 – Ydych chi'n cytuno y dylai ysgolion weithredu cynllun cyfnewid a/neu ailgylchu gwisg ysgol fyddai ar gael i deuluoedd?


Ymatebwyr yr Ymgynghoriad

- 1.267 Mae mwyafrif llethol yr ymatebwyr (93 y cant) o'r farn y dylai ysgolion gweithredu cynlluniau cyfnewid eu ailgylchu gwisg ysgol. Dim ond un y cant o ymatebwyr oedd yn anghytuno.

Tabl 10 – Ymatebion i Gwestiwn 10

Ymateb	Nifer	Canran o'r cyfanswm
Dim ymateb	54	1 y cant
Cytuno	4743	93 y cant
Anghytuno	55	1 y cant
Ddim yn cytuno nac anghytuno	227	4 y cant
Cyfanswm	5079	100 y cant

Ffigur 10 – Ymatebion i Gwestiwn 10



- 1.268 Y thema amlycaf o'r ymatebion oedd brwdfrydedd dros gynlluniau aildddefnyddio a chyfnewid. Credai llawer y byddai hyn o fudd i rieni a theuluoedd trwy arbedion costau ac roeddent yn ei weld fel rhywbeth pwysig i'r amgylchedd. Rhoddodd llawer o ymatebwyr farn fanwl ynghylch sut y dylid rhedeg cynlluniau.
- 1.269 Soniodd ymatebwyr am eu profiadau eu hunain gyda chynlluniau sy'n bod eisoes a gaiff eu rhedeg mewn ysgolion, eglwysi a sefydliadau cymunedol. Roedd agweddau at y cynlluniau hyn yn hynod gadarnhaol, gydag ymatebwyr yn dweud eu bod wedi eu helpu i arbed ar gostau gwisg ysgol ond wedi dal i gael y dillad roedd eu hangen. Defnyddir y cynlluniau hyn ar gyfer prynu gwisg ysgol yn rheolaidd ar ddechrau'r flwyddyn ysgol, ond hefyd pan fo plant yn difrodi, colli, neu dyfu allan o eitemau gwisg ysgol. Er hynny, roedd ymatebion hefyd a oedd yn dweud mai prin y defnyddir cynlluniau ailgylchu a chyfnewid presennol oherwydd cywilydd neu lefelau isel o amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn eu hardal leol – sef mewn lleoedd lle mai'r canfyddiad yw nad yw rheini'n cael trafferth i fforddio gwisg ysgol.
- 1.270 Y farn oedd bod cywilydd erbyn prynu a gwisgo dillad ail-law yn dal i fod yn broblem barhaus. Er bod rhai ymatebwyr yn dweud nad oedd ganddynt unrhyw broblem gyda phrynu'n ail-law, roedd hyn yn aml yn gysylltiedig â materion yn ymwneud â lleihau gwastraff ac ymddwyn mewn modd cyfrifol yn amgylcheddol. Roedd y cysyniad o fethu â fforddio prynu gwisgoedd ysgol newydd yn cael ei weld fel testun cywilydd gan rai ymatebwyr, gan arwain at heriau posibl yn ymwneud â chyfnewid gwisg ysgol, gan y gallai fod rhai rhieni a phlant na fyddai'n teimlo'n gysurus ynghylch gwisgo eitemau ail-law.
- 1.271 Roedd un ateb i broblemau o gywilydd a awgrymwyd yn aml yn ymwneud â sut y caiff cynllun ei fframio a'i farchnata. Roedd llawer o ymatebwyr yn dadlau y dylid hyrwyddo cynllun o'r fath ar sail cynaliadwyedd a chylchu, yn hytrach nag mewn perthynas â chost a chaledi ariannol. Dylai cyfathrebu strategol anelu at wneud cynlluniau ailgylchu a chyfnewid fel y dewis "naturiol" neu amlwg i leihau gwastraff. Er mwyn lleihau'r teimlad o gywilydd, roedd un ymatebydd yn pwysleisio pwysigrwydd y geiriau a

ddefnyddid, gan annog termau fel “newydd i chi” yn hytrach nag “ail-law”. Roedd syniadau eraill i leihau cywilydd a awgrymwyd gan ymatebwyr yn cynnwys cyflwyno'r cynnig fel “siop” gwisg ysgol yn hytrach na bin cyfrannu a chynnig mynediad i bawb i'r cynllun yn hytrach na'i chyfyngu i'r rheini sy'n cael eu hystyried fel rhai “mewn angen”.

- 1.272 Er hynny, teimlai ymatebwyr eraill y dylid defnyddio doethineb wrth redeg cynlluniau, fel y gall rhieni fanteisio arnynt yn gymharol ddisywlw. Sut bynnag y caiff y cynllun ei redeg, mae angen cyfathrebu clir fel bod teuluoedd yn deall manylion y cynllun.
- 1.273 Er bod cefnogaeth sylweddol i'r cysyniad o gynlluniau cyfnewid ac ailgylchu, roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn mynegi pryderon ynghylch yr effaith y byddai cynlluniau o'r fath yn ei gael ar ysgolion sydd dan straen ac sydd â rhy ychydig o adnoddau. Nodwyd prinder lle storio gan ysgolion a llwyth gwaith staff ysgol fel problemau posibl y gallai cynlluniau eu gwaethygu. Roedd amryw o ymatebwyr yn awgrymu y gallai'r cynlluniau hyn gael eu rhedeg neu eu cefnogi'n ariannol gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, sefydliadau trydydd sector, cyflenwyr gwisg ysgol, neu gymdeithasau rheini ac athrawon.
- 1.274 Roedd awgrymiadau'n amrywio ynghylch a ddylai'r cynllun gael ei redeg o fewn adeilad yr ysgol neu a ddylai gael ei leoli yn rhywle arall yn y gymuned. Roedd amryw o ymatebion yn amlinellu pwysigrwydd rhoi cyngor eglur i leoliadau ar yr arferion gorau sy'n ymwneud â chynlluniau cyfnewid ac ailgylchu, ac nid oedd dim consensws ynghylch a ddylai fod yn orfodol neu beidio i ysgolion weithredu neu gymryd rhan mewn cynlluniau ailgylchu neu gyfnewid. Roedd un ymateb yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ganmol ysgolion sydd eisoes yn cymryd rhan yn y math hwn o gynllun, yn hytrach na mynd ati mewn ffordd gosbedigol neu orchymyn bod pob ysgol yn gweithredu'r un mesurau.
- 1.275 O ran sut y dylid rhedeg y cynlluniau, roedd syniadau'n amrywio. Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y dylai gwisg ysgol fod am ddim, gydag ymatebydd yn awgrymu bod pob plentyn yn derbyn o leiaf un wisg ysgol yn gyfan gwbl am ddim, gyda'r stoc hwnnw'n cael ei ddychwelyd a'i roi i

grwp y flwyddyn ganlynol. Dywedodd eraill y gallai codi swm bach o arian (ee £1 yr eitem) fynd at reoli cynllun, ac y gallai cynnig “model talu'r hyn y gallwch ei fforddio” helpu lleihau unrhyw deimladau o gywilydd wrth ddefnyddio'r cynllun gan rieni a theuluoedd. Roedd gwobrwyo rhieni â thâl bychan y gellid ei ad-dalu os ydynt yn cyfrannu gwisg ysgol eu plant yn ôl i'r cynllun ailgylchu neu gyfnewid yn cael ei gynnig hefyd fel ffordd o gymell cyfranogiad. Yn olaf, awgrymwyd y gallai ysgolion a oedd â'r un cynllun lliw weithredu cynllun ailgylchu neu gyfnewid ar y cyd ar gyfer dilladau di-logo er mwyn cynnig mwy o amrywiaeth o eitemau y gallai teuluoedd ddewis ohonynt.

- 1.276 Yn ogystal, teimlai rhai ymatebwyr na fyddai cynlluniau ailgylchu effeithiol ond yn bosibl pan fod dilladau gwisg ysgol o ansawdd uchel, neu fel arall na fyddent yn para'n ddigon hir i gael eu trosglwyddo i eraill. Awgrymwyd na fyddai hyn yn bosibl os mai gwisgoedd ysgol a brynir gan y siopau mawr fydd ar gael i'w hailddefnyddio.
- 1.277 Roedd pryderon eraill a fynegwyd gan ymatebwyr ynghylch cynlluniau cyfnewid ac ailgylchu yn cynnwys y canlynol.
- Y potensial i gynlluniau arwain at ddilladau o ansawdd gwael, mewn dewis cyfyngedig o feintiau, yn cael eu cynnig.
 - Awgrymiadau fod presenoldeb enwau a grwpiau blwyddyn ar ddilladau yn rhwystr ymarferol rhag ailddefnyddio gwisgoedd ysgol.
 - Pryderon ynghylch glanweithdra, yn enwedig o ganlyniad i Covid-19.
 - Dadleuon fod ailgylchu a chyfnewid gwisg ysgol eisoes yn digwydd trwy gyfryngau eraill megis Facebook Marketplace. Ar y llaw arall, roedd yn eraill yn pwysleisio pwysigrwydd gweld dillad ail-law a darnau o wisg ysgol yn bersonol er mwyn asesu eu hansawdd, gan arwain rhai rhieni at gasáu llwyfannau ar-lein fel Facebook Marketplace.

- Y gred y dylid blaenoriaethu fforddiadwyedd fel y gall pob teulu brynu gwisg ysgol newydd, ac felly'n gwneud y cynlluniau hyn yn ddiangen.
- Cred debyg y dylai'r pwyslais fod ar hyblygrwydd polisi gwisg ysgol yn hytrach na chyfnewid gwisg ysgol.
- Trafod canlyniadau cynlluniau aneffeithiol. Pan nad yw gwisgoedd ysgol a gyfrannwyd at gynlluniau cyfnewid yn cael eu defnyddio, dywed rhai y byddant i gyd yn diweddu mewn siopau elusen – er nad yw pob siop elusen yn derbyn gwisg ysgol, gan adael rhai i bendroni beth i'w wneud gyda hen ddilladau.

Cwestiwn Trafod M – Pa mor bwysig yw hi fod ysgolion yn gweithredu cynllun cyfnewid a/neu ailgylchu gwisg ysgol? Beth yw manteision cynlluniau cyfnewid a/neu ailgylchu gwisg ysgol? A oes unrhyw anfanteision? Pa mor gyffredin yw hi i ysgolion weithredu cynllun cyfnewid a/neu ailgylchu gwisg ysgol?

Rhieni

- 1.278 Credai pawb o'r rhieni ei bod yn bwysig cynnig blwch ailgylchu neu gyfnewid gwisg ysgol, gyda phedwar cyfranogwr yn crybwyll bod hyn yn fuddiol yn sgil cost ond hefyd am resymau amgylcheddol.
- 1.279 Cytunwyd, er bod rhai rhanddeiliaid heb glywed amdanynt, fod presenoldeb cynlluniau ailgylchu / ailddosbarthu yn gyffredin mewn **rhai** ysgolion a, gwnaed y sylwadau canlynol:
- Mae bellach lai o gywilydd ynghlwm wrth brynu gwisg ysgol ail-law, yn sgil yr argyfwng costau byw.
 - Caiff y cynllun ei hysbysebu'n wael mewn rhai ysgolion, sy'n golygu, os yw ar gael, bod llawer o rieni nad ydynt yn gwybod am ei bresenoldeb na sut i fanteisio ar y cynllun.
 - Er gwaethaf eu bodolaeth mewn rhai ysgolion, caiff llawer eu trefnu gan elusennau neu rieni felly byddai'n fanteisiol pe

bai'r llywodraeth yn dyrannu adnoddau i ysgafnhau'r pwysau hyn.

- Mewn un ardal, defnyddir cyfryngau cymdeithasol yn hytrach na blwch neu gynllun yn yr ysgol.

1.280 Mae manteision cynlluniau o'r fath a grybwyllwyd gan rieni yn cynnwys:

- Y buddion amgylcheddol sy'n gysylltiedig â gweld cynlluniau fel ailgylchu, yn hytrach nag 'elusen'.
- Y cyfle i greu 'cylch rhinweddol', po fwyaf cyffredin y daw cynlluniau, gall fod mai lleiaf fydd y cywilydd sy'n gysylltiedig â hwy.

1.281 Roedd yr anfanteision yn cynnwys:

- Y pwysau ychwanegol ar ysgolion / staff i drefnu'r gwasanaeth.
- Y ffaith fod llawer o rieni nad ydynt yn ymweld ag ysgolion eu plentyn (plant) (yn enwedig ysgolion uwchradd) ac felly nad ydynt yn cael cyfle i fynd at flwch, ac felly gallai fersiwn ddigidol fod yn fwy cynhwysol.
- Teimlad y gallai rhai rhieni ddal i deimlo cywilydd wrth roi gwisg ysgol ail-law i'w plant.
- Y realiti fod rhai gwisgoedd ysgol wedi gwisgo gormod i'w trosglwyddo.

Llywodraethwyr ysgol

1.282 Roedd llywodraethwyr ysgol yn unfrydol eu barn ei bod yn bwysig fod ysgolion yn cynnig cyfleoedd i brynu gwisg ysgol ail-law rywsut neu'i gilydd.

1.283 Yn ôl un llywodraethwr, o ganlyniad i'r pandemig Covid-19 a dysgwyr heb fod yn yr ysgol, mae rhai achosion lle nad yw gwisg ysgol wedi cael ei gwisgo o gwbl ac mae dysgwyr naill ai wedi tyfu allan o'r wisg ysgol neu wedi gadael yr ysgol. Felly, mae cyfle i drosglwyddo eitemau o wisg ysgol nad ydyn nhw wedi cael eu gwisgo o gwbl mewn gwirionedd.

- 1.284 Dywedodd un llywodraethwr fod weithiau draddodiad sy'n gysylltiedig â throsglwyddo gwisg ysgol yn y gymuned.
- 1.285 Dywedodd llywodraethwr arall fod rhai rhieni eisoes yn chwilio am wisg ysgol o eiddo coll, felly gellid yn hawdd addasu ymddygiad i ystyried ceisio gwisg ysgol ail-law fel yr hyn sydd arferol a mabwysiadu hyn yn ehangach.
- 1.286 Dywedodd amryw o lywodraethwyr y gallai 'siop' wisg ysgol ail-law, pe bai'n cael ei rhedeg gan y gymdeithas rhieni ac athrawon, gael buddion ariannol ac amgylcheddol i'r ysgol.
- 1.287 Eto i gyd, er gwaethaf y cryfderau a'r cyfleoedd hyn sy'n gysylltiedig â chynlluniau cyfnewid ac aildddefnyddio gwisg ysgol, awgrymwyd bod gan lawer o ddysgwyr (hyd yn oed os nad oes gan eu rhieni) deimlad o gywilydd yn erbyn gwisg ysgol ail-law. Y farn oedd bod hyn yn fwy cyffredin mewn ysgolion uwchradd wrth i ddysgwyr fynd yn hŷn a dod yn fwy ymwybodol o ffasiwn a negeseuon cymdeithasol.
- 1.288 Dywedodd pob llywodraethwr fod rhyw ffurf o gynllun cyfnewid neu aildddefnyddio gwisg ysgol yn eu hysgolion.

Staff addysgu

- 1.289 Roedd staff addysgu'n cysylltu'r cwestiwn hwn â'r thema mynediad ac argaeledd, gydag un aelod o staff yn crybwyll ei fod yn rhan o ymrwymiad eu hysgol i flaenoriaethu cynlluniau aildddefnyddio fel rhan o'u polisi gwisg ysgol.
- 1.290 Roedd aelod arall o staff yn gweld cynnwys cynlluniau o'r fath fel "synnwyr cyffredin", gydag un arall yn dweud, "fel mam, yn sicr does gen i ddim cywilydd arbed [arian]".
- 1.291 Roedd y brif anfantais neu her sy'n gysylltiedig â chynlluniau cyfnewid neu aildddefnyddio yn cynnwys sut y gallai cyfrinachedd fod yn bryder i rai; roedd un athro'n awgrymu y byddai'n bwysig rhwystro unrhyw gywilydd ac yn awgrymu y gellid goresgyn hyn trwy ddarparu ffurflen gais ar-lein neu roi dillad ar reilen yn rhywle nad yw'n rhy amlwg.

Plant a phobl ifanc

- 1.292 Dywedodd llawer o bobl ifanc fod gwisgoedd ysgol ail-law yn fanteisiol gan eu bod yn cynnig dewisiadau o ddillad rhatach neu am ddim.
- 1.293 Roedd rhai ymatebion yn awgrymu hefyd fod dillad ail-law yn dod yn fwy derbyniol gydag apiau fel Depop a Vinted yn cael eu defnyddio llawer mwy. Dywedodd un dysgwr: 'Pe bai pobl yn cychwyn gwerthu dillad ail-law, byddai'n llawer mwy derbyniol nag oedd ddeng mlynedd yn ôl'.
- 1.294 Fodd bynnag, roedd llawer o ddysgwyr yn dal i ddweud bod cywilydd ynghylch dillad ail-law a'u bod yn poeni y byddent yn cael eu bwlio gan gyfoedion am eu gwisgo. Roedd rhai dysgwyr yn awgrymu y gallai galw enwau fod yn broblem, gan awgrymu y gallai dysgwyr sy'n gwisgo dillad ail-law gael eu galw'n 'rhad'. Soniodd un dysgwr hefyd y gallai pobl fod yn poeni am ledaenu haint a dal firysau fel Covid-19 trwy wisgo dillad ail-law.
- 1.295 Yn ôl eraill, er ei bod yn bwysig i ysgolion gael cynlluniau i drosglwyddo dillad ymlaen, gallai rhai dillad gael eu gwrthod oherwydd mân feiau yn y wisg ysgol ac y byddai felly'n diweddu fel gwastraff.
- 1.296 Gofynnwyd i ddysgwyr hefyd: "A oes rheswm pam ei bod yn llai cyffredin i gael cynlluniau ailgylchu mewn ysgol uwchradd?"
- 1.297 Yr hyn a ddywedwyd gan amryw oedd, er bod dillad ail-law yn rhatach yn gyffredinol, byddai llawer o bobl yn teimlo'n anghysurus yn eu gwisgo yn sgil y cywilydd o orfod prynu'n ail-law. Roedd pryderon hefyd ynghylch bwlio a sut y gallai'r rheini sy'n gwisgo dillad ail-law fod yn fwy tebygol o gael eu targedu.
- 1.298 Er bod gan rai ysgolion gynlluniau ailgylchu gwisg ysgol, awgrymwyd nad oedd llawer o ddysgwyr yn gwybod amdanynt.
- 1.299 Esboniodd rhai disgyblion y byddai llai o gywilydd yn gysylltiedig â gwisg ysgol ail-law mewn ysgolion cynradd lle mae dysgwyr yn meddwl llai am eu delwedd.

Cyflenwyr gwisg ysgol

- 1.300 Roedd cyflenwyr yn cytuno'n unfrydol fod cynlluniau cyfnewid gwisg ysgol neu wisg ysgol ail-law yn bwysig iawn ac yn darparu gwasanaeth hanfodol, yn enwedig gan fod gwisg ysgol yn tueddu i aros yr un fath flwyddyn ar ôl blwyddyn.
- 1.301 Roeddent yn dweud bod y cynlluniau hyn yn fanteisiol yn ariannol i rieni fel dewis rhatach a'u bod yn cynnig buddion amgylcheddol ychwanegol trwy osgoi neu ohirio tirlenwi, neu ailgylchu. Fodd bynnag, dywedodd rhai rhanddeiliaid fod rhedeg cynllun yn effeithiol yn golygu cryn dipyn o waith, gan ychwanegu eu bod yn aml yn ddibynnol ar gymdeithasau rheini ac athrawon gwirfoddol. Roeddent yn awgrymu hefyd fod cynlluniau'n aml yn cael eu rhedeg yn ansensitif heb ystyried y cywilydd posibl sy'n gysylltiedig â phrynu gwisg ysgol ail-law.
- 1.302 Roedd cyflenwyr yn mynegi safbwyntiau cymysg ar ba mor gyffredin oedd cynlluniau cyfnewid / aildefnyddio gwisg ysgol. Teimlai un fod hyn yn weddol gyffredin tra teimlai un arall fod y cysyniad yn eithaf newydd heb "ddim ond ychydig o ysgolion" yn ei weithredu.
- 1.303 Roedd ymwybyddiaeth ymysg rhai cyflenwyr o gyflenwyr arbenigol gwisg ysgol yn rhedeg cynlluniau aildefnyddio gwisg ysgol mewn partneriaeth ag ysgolion, tra bod un o'r cyflenwyr yn rhedeg cynllun eu hunain: "rydym yn ei casglu, eu golchi, trwsio, smwddio a'u pecynnu – yna yn eu cynnig nhw'n ôl ar y wefan am hanner pris." Mae hyn yn fanteisiol gan fod gallu prynu gwisg ysgol ail-law o ansawdd da ar-lein yn cael gwared ar y cywilydd gan rieni: "nid ydynt yn ei phrynu o ddesg gan y gymdeithas rhieni ac athrawon – rydym yn gwarantu safon o ansawdd a chyfrinachedd iddyn nhw."

Rhanddeiliaid eraill

- 1.304 Roedd rhanddeiliaid yn gyffredinol o'r farn ei bod yn bwysig iawn fod ysgolion yn rhedeg cynlluniau cyfnewid gwisg ysgol. Awgrymwyd hefyd

fod agweddau at ddillad ail-law wedi newid a bod eu prynu wedi dod yn llawer mwy derbyniol dros y blynyddoedd diwethaf.

1.305 Mae'r hyn a grybwyllwyd fel manteision allweddol cynlluniau dillad ail-law yn cynnwys:

- Arbedion costau i rieni.
- Cynnig cyfle am ddillad o ansawdd gwell am bris rhatach (sef gwisg ysgol ail-law gan ddarparwyr arbenigol yn hytrach na gwisg ysgol newydd o archfarchnadoedd).
- Cynhyrchu incwm ychwanegol i ysgolion: “Ar gyfartaledd, mae cymdeithasau rhieni ac athrawon yn codi £7-9,000 y flwyddyn ... gall gwerthiannau o ddillad ail-law helpu tuag at hyn.”
- Manteision amgylcheddol o ran rhwystro dillad rhag mynd i dirlenwi. Gellid ystyried y rheswm hwn fel un sy'n fwy derbyniol yn gymdeithasol na bod yn methu â fforddio gwisg ysgol newydd.

1.306 Mae anfanteision a grybwyllwyd gan randdeiliaid yn cynnwys:

- Cywilydd posibl ynghylch dillad ail-law. Roedd un rhanddeiliad yn awgrymu bod “angen ystyried pwysau gan gyfoedion mewn ysgolion.”
- Mae trefnu cyfnewid gwisg ysgol ail-law yn her i ysgolion gan y gall fod yn anodd cael amser i'w rhedeg yn iawn: Awgrymai rhanddeiliaid “Mae ysgolion dan lawer iawn o bwysau, ac mae hyn yn rhywbeth arall iddynt ei wneud.”
- Y risg y gallai cynllun cyfnewid ail-law gael ei weithredu'n wael neu'n ansensitif gan yr ysgol, gan waethygu'r teimlad o gywilydd i rieni a dysgwyr.

1.307 Nid oedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn gwybod pa mor gyffredin yw cynlluniau o'r fath er yr awgrymwyd eu bod, yn anecdotaid, yn ymddangos fel pe baent ar gynydd.

1.308 Roedd rhai sylwadau ac awgrymiadau pellach gan randdeiliaid ar y mater hwn yn cynnwys:

- Byddai'n werth edrych ar enghreifftiau o arferion da cynlluniau gwisg ysgol ail-law a rhannu hyn gydag ysgolion eraill.
- Sicrhau cyfathrebu gofalus ynghylch bodolaeth y cynllun: "Mae'n dibynnu llawer ar sut y caiff ei werthu ... dyna lle mae cynnwys disgyblion mor bwysg – er enghraifft trwy Eco Ysgolion ... ni ddylai gael ei gadw o dan yr wyneb na'i wneud yn destun cywilydd."
- Archwilio cyfleoedd i redeg cynlluniau ar lefel cyngor cymuned neu awdurdod lleol neu drefnu clwstwr o ysgolion i redeg ysgolion ar y cyd, er mwyn lleihau'r pwysau ar ysgolion unigol / cymdeithasau rhieni ac athrawon.

Thema 8 – Effaith ar y Gymraeg

- 1.309 Noder na ofynnwyd unrhyw gwestiynau'n ymwneud â'r thema hon i ymatebwyr y gweithgareddau cyd-drafod.

Cwestiwn 11 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau ar bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

Ymatebwyr yr Ymgynghoriad

- 1.310 Nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn gallu gweld unrhyw effeithiau posibl newid canllawiau ar bolisïau gwisg ysgol ar yr iaith Gymraeg.
- 1.311 Roedd effeithiau a grybwyllwyd amlaf yn ymwneud ag iaith enwau ysgolion ar wisgoedd ysgol. Roedd logos a gwisgoedd ysgol wedi eu brandio yn cael eu gweld gan amryw o ymatebwyr fel rhywbeth a oedd yn hyrwyddo teimlad o hunaniaeth. O'r herwydd, teimlai rhai ymatebwyr y dylai pob logo fod yn ddwyieithog, gyda ffafriaeth i'r Gymraeg. Gallai hyn fod yn wir am glytiau wedi eu gwnïo neu eu smwddio ymlaen.
- 1.312 Ar y llaw arall, awgrymwyd hefyd y byddai cael gwared ar logos yn llwyr o wisg ysgol yn lleihau'r tebygolrwydd o godi cywilydd ar ddysgwyr ar sail tybiaethau o'u cefndir ieithyddol.
- 1.313 Teimlid hefyd y dylai'r holl ganllawiau, gwybodaeth a chyfarwyddiadau ynghylch gwisg ysgol gael eu cyhoeddi'n ddwyieithog a'u bod yn hygyrch yn ddwyieithog. Er hynny, dywedodd eraill y bydd y mwyafrif o bobl yn dysgu am ganllawiau a pholisïau gwisg ysgol yn anffurfiol ar lafar, felly fod iaith y canllawiau yn llai pwysig.
- 1.314 Roedd yr effaith posibl arall a grybwyllwyd gan nifer o ymatebwyr yn ymwneud â chyflenwyr gwisg ysgol. Gallai cael amryw o gyflenwyr gwisg ysgol gynnig mwy o gyfleoedd swyddi i siaradwyr Cymraeg a mwy o ddewisiadau i gefnogi cyflenwyr lleol Cymreig. Teimlad un ymateb oedd y dylai staff cyflenwyr gwisg ysgol fod yn ddwyieithog, lle bynnag bo'n

bosibl, fel y gallai trafodaethau gyda chwsmeriaid ddigwydd yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

- 1.315 Roedd yn ymddangos bod y cwestiwn hwn yn peri i lawer o ymatebwyr deimlo'n rhwystredig, gan bwysleisio pwysigrwydd fforddiadwyedd ac ansawdd addysgu. Roedd diffyg dealltwriaeth ynghylch sut y gallai fod cysylltiad rhwng canllawiau ar wisg ysgol a'r iaith Gymraeg, ac fe wnaeth ychydig o ymatebwyr fynegi diflastod gyda'r hyn roeddent yn ei weld fel agenda gwleidyddol i orfodi'r Gymraeg ar bobl.

Cwestiwn 12 – Eglurwch hefyd sut gellid llunio neu newid y canllawiau ar bolisiâu gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion er mwyn iddynt gael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a phaidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ymatebwyr yr Ymgynghoriad

- 1.316 Fel gyda Chwestiwn 11, roedd mwyafrif llethol yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gweld canllawiau polisi gwisg ysgol fel rhywbeth sy'n amherthnasol i'r Gymraeg.
- 1.317 Y prif newid a argymhellwyd oedd gorfodi bod pob logo a arddangosir ar wisg ysgol yn ddwyieithog, gyda rhai awgrymiadau fod y Gymraeg yn rhagflaenu'r Saesneg. Teimlai ymatebwyr hefyd y dylai'r holl ganllawiau a gwybodaeth gael eu darparu'r ddwyieithog. Gallai logos dwyieithog fod yn rhai i'w smwddio neu eu gwnïo ar ddillad. Fel dewis arall, gallai cael gwared ar logos o wisg ysgol hefyd wella cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg trwy beidio â breinio'r naill dros y llall mewn dyluniad gwisg ysgol.
- 1.318 Nododd rhai ymatebwyr y gallai trefniadau â chyflenwyr effeithio ar y Gymraeg. Gallai cael amryw o gyflenwyr gwisg ysgol gynyddu'r nifer o swyddi Cymraeg sydd ar gael a chynnig mwy o gyfle i gefnogi busnesau lleol Cymraeg.

Dadansoddiad o'r Sylwadau Terfynol

Cwestiwn 13 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin yn benodol â hwy, defnyddiwch y gofod hwn i'w hadrodd.

Ymatebwyr yr Ymgynghoriad

- 1.319 Roedd llawer o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ailadrodd neu bwysleisio agweddau o gwestiynau blaenorol i'r ymgynghoriad. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar agweddau o gost yn ogystal â dewisiadau mwy cyffredinol ynghylch gwisg ysgol.
- 1.320 Un thema a roddwyd sylw iddi yn y cwestiynau eraill ond a grybwyllwyd yn y sylwadau terfynol oedd y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad sy'n rhoi cyllid i deuluoedd ar incwm is i brynu gwisg ysgol a chyfarpar eraill sy'n gysylltiedig â mynd i'r ysgol. Roedd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad ffurfiol yn mynegi gwerthfawrogiad o'r grant, tra bod eraill yn galw ar Lywodraeth Cymru i ehangu'r gofynion cymhwysedd, gan fod llawer o bobl sy'n ei chael yn anodd fforddio gwisg ysgol nad ydynt yn gallu hawlio'r cyllid o dan y meini prawf cymhwysedd presennol.
- 1.321 Ar y llaw arall, roedd ychydig o ymatebwyr yn feirniadol o Lywodraeth Cymru am ddarparu grantiau gwisg ysgol i deuluoedd naill ai oherwydd eu bod yn credu bod y grantiau'n cael eu defnyddio mewn modd amhriodol (gan nad oes unrhyw graffu ar sut y caiff yr arian ei wario gan deuluoedd sy'n ei dderbyn) neu oherwydd eu bod yn anghytuno â'r defnydd hwn o refeniw treth i rieni sydd wedi dewis cael plant.
- 1.322 Roedd nifer mawr o ymatebion yn pwysleisio y dylai gwisg ysgol fod o ansawdd uchel ac na ddylai fod yn faich ariannol ar rieni. Crybwyllwyd hefyd effaith amgylcheddol gwisg ysgol o ansawdd isel a goblygiadau moesol y modd y caiff dilladau "ffasiwn cyflym" eu gwneud.
- 1.323 Fel mewn cwestiynau blaenorol, roedd gan ymatebwyr farn ar lle dylid prynu gwisg ysgol. Roedd rhai yn dymuno cyrchu dilladau o archfarchnadoedd, tra bod eraill yn pwysleisio pwysigrwydd cyflenwyr gwisg ysgol i gymunedau lleol. Roedd rheini a oedd yn rhwystredig gyda'r dewis cyfyngedig o feintiau a oedd ar gael gan gyflenwyr unigol yn

crybwyll hyn fel rheswm dros ganiatáu mwy o ryddid ynghylch lle i gyrchu gwisg ysgol. Roedd amryw o ymatebwyr yn awgrymu y dylai ysgolion gael eu cyllido i ddarparu gwisg ysgol yn uniongyrchol, gan gael gwared ar yr angen am ddadlau ynghylch archfarchnadoedd yn erbyn cyflenwyr unigol. Roedd llawer yn feirniadol o'r syniad y dylai neb fod yn elwa o werthu gwisg ysgol sy'n gostus i rieni ac a bennir fel rhywbeth gorfodol gan ysgolion.

- 1.324 Roedd rhai ymatebwyr yn mynegi barn am wisg ysgol yn gyffredinol, gyda hollt rhwng y rheini a oedd yn pwysleisio ei phwysigrwydd a'r rheini a oedd yn ei gweld fel rhywbeth diangen am amrywiaeth o resymau. Roedd y rheini a oedd o blaid gwisg ysgol yn crybwyll ei gallu i hyrwyddo teimlad o unffurfiaeth, cymuned a chyd-ddyheu ymysg dysgwyr. Dywedwyd bod gwisg ysgol yn rhoi cae chwarae gwastad i ddysgwyr o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol, yn rhwystro bwlio oherwydd gwahaniaethau gweladwy yn ansawdd neu bris dillad plant nad oedd yn wisg ysgol, a gwella ymddygiad, o fewn yr ysgol ac yn allanol.
- 1.325 Ar y llaw arall, credai rhai ymatebwyr fod gwisg ysgol yn hen ffasiwn neu'n ddiangen, gan bwysleisio nad ydynt yn helpu dysgu a bod problemau gyda gwisg ysgol yn arwain at gosbi diangen a chywilydd i ddysgwyr. Roedd nifer o rieni yn dadlau mai ychydig o weithleoedd sydd â pholisi gwisg sydd mor llym â pholisïau ysgolion, ac yn y rheini sydd â pholisi o'r fath, mae'r gwisgoedd i gyd yn eitemau angenrheidiol sy'n cael eu darparu'n rhad ac am ddim i'r gweithwyr.
- 1.326 O'r rheini sy'n feirniadol o wisg ysgol yn gyffredinol, roedd cryn dipyn o ymatebion yn cyfeirio at yr heriau mae gwisg ysgol yn eu hachosi i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, anhwylder ar y sbectrwm awtistig, neu nam ar y synhwyrau, gan fod deunydd ac arddull gwisg ysgol yn eu rhwystro'n aml rhag bod yn gysurus ac yn llesteirio'u gallu i ddysgu. Roedd ymatebwyr yn bryderus hefyd am effaith canllawiau presennol gwisg ysgol ar amrywiaeth. Dylai amrywiaeth, gan gynnwys gwallt affro a gwallt wedi ei liwio, gael ei ddathlu, ac nid cael ei gyfyngu gan bolisïau gwisg ysgol, meddai rhai.

- 1.327 Cafodd natur ryweddol gwisgoedd ysgol hefyd ei grybwyll gan nifer o ymatebwyr, gyda rhai yn gweld canllawiau ar sail rhywedd fel rhywbeth sy'n gwahaniaethu. Mae ystyriaethau perthnasol yn cynnwys a yw'n briodol i orfodi hyd sgertiau genethod a'i gwneud yn ofynnol i ddysgwyr wisgo eitemau penodol waeth beth fo'r tywydd.
- 1.328 Cafodd dilladau penodol eu crybwyll yn aml mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd gwisgoedd ysgol syml seiliedig ar liw gyda chlytiau logo i'w smwddio neu wnïo arnynt yn cael eu ffafrio gan lawer. Gellid cyfyngu hyn i grys polo neu grys arall ac a pheidio â phennu manylion ar dilladau allanol, er enghraifft. Roedd llawer o'r farn fod blaserau yn ddiangen oherwydd eu cost a'u harddull, ac roedd amrywiaeth barn ynghylch pa mor ffurfiol ddylai gwisgoedd ysgol fod. Roedd esgidiau'n cael eu crybwyll yn aml fel eitem sy'n achosi problemau, naill ai oherwydd bod canllawiau'n rhy gaeth, gan ei wneud yn anymarferol a dud i rieni ganfod pâr addas, neu oherwydd bod dysgwyr yn cael rhywfaint o ryddid yngylch esgidiau, gan arwain at wahaniaethau gweladwy rhwng dysgwyr sydd ag esgidiau â brand a rhai heb frand.
- 1.329 Roedd materion eraill a grybwyllwyd yn cynnwys y broses ymgynghori, gydag ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd ymgynghori gyda rhieni a'r rheini yr effeithir arnynt; pryderon ynghylch diogelu, gan gynnwys y risg o bobl anhysbys yn gallu mynd i mewn i'r ysgol yn ddjarwybod i eraill os nad yw dysgwyr mewn gwisg ysgol; a chwestiynau o awdurdod dros ganllawiau gwisg ysgol, gyda rhai yn credu y dylai Llywodraeth Cymru benderfynu ac eraill yn credu y dylai llywodraethwyr gael mwy o rym yn y maes hwn. Roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn mynegi rhwystredigaeth gyda chwestiynau am y Gymraeg, wrth fethu â gweld unrhyw gysylltiad â pholisi gwisg ysgol.

Cwestiwn Trafod N – A oes unrhyw beth penodol y dylid, yn eich barn chi, ei gynnwys mewn canllawiau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ar bolisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?

Rhieni

- 1.330 Roedd pump o gyfranogwyr credu y dylai fod pwyslais ar effaith amgylcheddol prynu gwisgoedd ysgol newydd yn barhaus, ac y dylid ystyried hyn wrth greu canllawiau ar bolisi gwisg ysgol.
- 1.331 Roedd tri chyfranogwr yn credu bod, yn gyffredinol, gormod o bwysau ar ysgolion uwchradd ac y dylai rheolau sy'n ymwneud â gwisg ysgol fod yn llai llym. Byddai hyn yn galluogi rhieni i gyrchu gwisg ysgol sy'n fwy cystadleuol.
- 1.332 Roedd dau gyfranogwr o'r farn nad oedd angen gwisg ysgol, yn benodol mewn ysgol gynradd.
- 1.333 Dywedodd un rhiant y dylai fod, law yn llaw â'r rheolau o *beth* ddylai gael ei wisgo, canllawiau hefyd ar *sut* y dylid gwisgo'r dillad.
- 1.334 Dywedodd un cyfranogwr na ddylai fod rheolau rhyweddol ar wisg ysgol, gan gyfeirio at ddigwyddiad lle nad oedd eu merch yn gallu gwisgo trowsus yn y gaeaf a oedd yn golygu ei bod yn oer ac anghysurus drwy'r diwrnod ysgol.

Llywodraethwyr ysgol

- 1.335 Roedd pawb o'r llywodraethwyr ysgol yn sôn sut roedd canllawiau generig a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn ddefnyddiol, gan eu bod yn ei gwneud yn haws i bob ysgol benderfynu polisiau unigol sy'n dibynnu ar eu cyd-destun lleol o fewn yr ysgol.
- 1.336 Yn y cyswllt hwn, dywedodd un llywodraethwr ysgol fod y canllawiau eisoes yn ddigon hyblyg a bod polisi generig gan Lywodraeth Cymru yn haws ei orfodi.
- 1.337 Roedd llywodraethwr arall yn holi sut oedd cyrff llywodraethu yn ystyried lliw gwisg ysgol, a arweiniodd at drafodaeth at liwiau cyffredin gwisg ysgol (a oedd yn fwy cysylltiedig â mynediad ac argaeledd), lliwiau llachar i wisg ysgol (a ddefnyddir weithiau am resymau'n ymwneud â diogelwch) a sut mae ysgolion newydd yn dewis lliw eu hysgol. Y farn oedd y dylid ystyried hyn gan roi sylw i'r ysgolion eraill yn yr un ardal.

Staff addysgu

- 1.338 Ni chynigiodd staff addysgu unrhyw awgrymiadau am beth y gellid ei gynnwys yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar bolisiâu gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion yn y dyfodol, heblaw ailadrodd ei bod yn ddefnyddiol cael y canllawiau.

Plant a phobl ifanc

- 1.339 Roedd rhai dysgwyr yn dadlau mai gwisgo eu dillad eu hunain oedd y ffordd orau ymlaen gan y byddai hyn yn caniatáu ar gyfer mwy o gysur a hunan-fynegiant. Roeddent yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy rhydd i fynegi eu hunain ar 'ddyddiau eu dillad eu hunain'.
- 1.340 Roedd dysgwyr eraill yn awgrymu y byddai'n well ganddynt wisg ysgol fwy cysurus, efallai heb ddim teis a gyda chrysau cysurus fel crysau polo.
- 1.341 Awgrymwyd siacedi 'fleece' hefyd i gymryd lle blaserau gan y byddent yn fwy cysurus i ddysgwyr. Roedd rhai dysgwyr yn awgrymu y gallai fod siacedi 'fleece' o wahanol liwiau ar gyfer gwahanol dai / grwpiau blwyddyn.
- 1.342 Roedd pobl ifanc eraill yn pwysleisio y dylid cadw gwisg ysgol gan ei fod yn llai drud yn y pen draw na theimlo o dan bwysau cyfoedion i brynu dillad newydd yn barhaus i fynd i'r ysgol.

Cyflenwyr gwisg ysgol

- 1.343 Roedd gan gyflenwyr arbenigol gwisg ysgol nifer o argymhellion ar gyfer canllawiau yn y dyfodol, gan gynnwys:
- Gwneud y canllawiau'n orfodol, fel maent yn Lloegr.
 - Cynnwys canllawiau ar wella trylwyredd y prosesau sy'n ymwneud â phenodi cyflenwyr, gan gynnwys tendro, dyfarnu contract ac adolygu contract, er enghraifft awgrymwyd y gallai Rheolwyr Busnes Ysgolion gyflawni hyn.

- Sicrhau ei bod yn ofynnol i ysgolion rhoi digon o rybudd i gyflenwyr os ydynt yn newid gwisg ysgol: “Os yw ysgolion yn newid eu gwisg ysgol ar rybudd byr iawn, gall y cyflenwr gael ei adael gyda gwerth degau o filoedd o bunnau o stoc diwerth.”
- Sicrhau bod y canllawiau’n blaenoriaethu ansawdd yn ogystal â chost.
- Parhau i roi gradd o ryddid i ysgolion wrth wneud penderfyniadau ynghylch gwisg ysgol.
- Cadw gwisg ysgol fel cysyniad: “Mae cytundeb cyffredinol fwy neu lai bod cael gwisg ysgol yn wirioneddol bwysig am nifer o resymau – mae’n cael gwared ar bob math o anghydraddoldeb a photensial am fwlio, cynyddu teimlad o falchder a pherthyn, gwella canolbwyntio gan nad yw disgyblion yn edrych ar ddillad ei gilydd.”

Rhanddeiliaid eraill

1.344 Roedd gan randdeiliaid eraill hefyd nifer o awgrymiadau ar beth i’w gynnig mewn canllawiau yn y dyfodol, sef:

- Canllawiau pellach ar ofynion rhybudd ymlaen llaw / ymgynghori wrth newid gwisg ysgol. Roedd hyn er budd cyflenwyr a rhieni: “Mae ar rieni eisiau rhywfaint o reolaeth dros hyn ac eisiau cyfle i roi eu barn a gwybod *pam* eu bod yn newid gwisg ysgol – nid dim ond dweud wrthyn nhw ‘dyma sy’n digwydd’ a pheidio â rhoi cyfle iddyn nhw gyfrannu at y penderfyniad.”
- Cynnwys uchafswm ar gyfer faint y dylai gwisg ysgol ei gostio.
- Annog ysgolion i redeg cynlluniau cyfnewid gwisg ysgol.
- Mwy o dryloywder ynghylch beth sy’n ‘arferol’ o safbwynt costau gwisg ysgol / nifer o eitemau â brand: “Nid yw rhieni’n

gwybod beth mae ysgolion eraill yn ei wneud, felly fydden nhw ddim yn gwybod sut mae eu hysgol nhw'n cymharu.”

- Canllawiau ar y nifer o eitemau ddylai fod â brand: “yna gall rhieni gael teimlad a yw eu hysgol nhw'n mynd dros ben llestri.”
- Annog ymgynghori â rhieni ar bob cam.
- Cynnwys astudiaethau achos o gynlluniau ail-law sy'n effeithiol ac a gaiff eu rheoli mewn modd sensitif: “Cipolygon neu astudiaethau achos o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda mewn lleoedd eraill – mae'n rhoi syniad i bobl o bethau y gallen nhw eu gweithredu yn eu hysgol.”

Cwestiwn Trafod O – A oes unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â pholisïau gwisg ysgol a/neu ganllawiau Llywodraeth Cymru ar bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion yr hoffech eu codi?

Rhieni

- 1.345 Credai tri rhiant y dylai fod polisi i bob ysgol gael rhyw fath o flwch ailgylchu neu gynllun ailddefnyddio, neu y gellid cynnal digwyddiad blynyddol fel 'bagiau i'r ysgol' a fydd hefyd o fudd i rieni sy'n dymuno cael gwared ar hen wisg ysgol.
- 1.346 Dywedodd un cyfranogwr y dylai, gan fod ymarfer corff yn gymaint o flaenoriaeth i blant, gwisg ysgol fod yn ymarferol i adlewyrchu'r angen i blant symud yn heini yn ystod eu dyddiau ysgol.
- 1.347 Credai cyfranogwr arall fod blaserau yn ddiangen fel rhan ofynnol o wisg ysgol.
- 1.348 Credai un cyfranogwr y dylai mwy o ysgolion fod yn cymryd rhan mewn cynlluniau fel Bagiau'r Ddraig, sy'n golygu bod gwisgoedd ysgol na ellir eu hailwisgo na'u cyfrannu i blant i'w haildefnyddiol yn gallu cael eu hailgylchu a'u defnyddio ar gyfer dibenion eraill.

- 1.349 Soniodd un rhiant hefyd am y broblem o wisg ysgol yn cael eu cynhyrchu yn India a Tsieina gyda deunyddiau rhad ac anghynaliadwy sy'n debygol o ddiosg microblastigau.
- 1.350 Awgrymai un arall efallai y gallai gwisgoedd ysgol sy'n fwy cyfeillgar at yr amgylchedd gael eu cymhorthdalau gan y llywodraeth.
- 1.351 Yn olaf, dywedodd rhiant arall mai, unwaith eto, pris yw'r broblem fwyaf.

Llywodraethwyr ysgol

- 1.352 Soniodd amryw o lywodraethwyr ysgol o ysgolion uwchradd am yr anhawster mae rhieni plant hŷn yn eu hwynebu gyda chost ychwanegol etiemau o feintiau mwy o wisg ysgol wrth i dreth ar werth gael ei hychwanegu at ddillad 'oedolion' ac esgidiau mwy na maint penodol, er eu bod yn cael eu gwisgo fel gwisg ysgol.
- 1.353 Soniodd amryw o lywodraethwyr ysgol hefyd am bryder dros yr hyn sy'n ymddangos fel diffyg gorfodi i sicrhau bod y Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei wario ar wisg ysgol ac nid ar eitemau eraill.
- 1.354 Dywedodd un llywodraethwr ysgol hefyd nad oedd yn sicr a oedd pawb sy'n gymwys am y grant yn gwybod amdano, gan awgrymu y gall fod ffordd fwy o effeithiol yn helpu ei hyrwyddo i rieni.
- 1.355 Yn yr un modd, dywedodd un llywodraethwr ysgol fod yn grant yn dibynnu ar fynediad at gyswllt rhyngrwyd, felly dylai fod yn flaenoriaeth sicrhau ei fod yn hygyrch i bawb. Dywedodd hefyd fod y teimlad o gywilydd ynghylch rhieni'n hawlio unrhyw fath o fudd-dal yn golygu bod rhai grwpiau nad oeddent yn cael y grant hyd yn oed os oeddent yn gymwys amdano.
- 1.356 Roedd dau lywodraethwr yn trafod y defnydd o'r gair 'uniform' ('gwisg ysgol' a ddefnyddir yn bennaf yn y Gymraeg er bod 'iwniform' yn gyffredin ar lafar) a'r ddelwedd bosibl, gan awgrymu y gallai beri gofid i rai pobl ifanc megis y rheini mewn gofal, gyda'r potensial o gysylltu'r gair â gwasanaethau heddlu neu ambiwlans, er enghraifft.
- 1.357 Awgrym ar gyfer term amgen i'w ddefnyddio yn lle 'uniform' yn y Saesneg fyddai 'dress code' fel a ddefnyddir gan y Senedd ac athrawon.

- 1.358 Yn olaf, soniodd un llywodraethwyr ysgol sut y dylai bod yn weladwy fod yn ystyriaeth, er enghraifft bod yn ddiogel ar y ffordd yn ôl ac ymlaen i'r ysgol, ac y dylid hyrwyddo deunyddiau adlewyrchol fel rhan o ganllawiau ehangach.

Staff addysgu

- 1.359 Nid oedd gan neb o'r staff addysgu a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws unrhyw sylwadau ychwanegol i'w rhannu ar ben y rheini yr ymdriniwyd â hwy eisoes yn y cwestiynau trafod a ofynnwyd.

Plant a phobl ifanc

- 1.360 Roedd rhai dysgwyr yn amau diben gwisg ysgol, gan ddweud 'Os yw er mwyn paratoi myfyrwyr am waith mewn iwniform oherwydd dyw hynny ddim yn berthnasol i bob myfyriwr [sic].'
- 1.361 Roedd pobl ifanc eraill yn gwrthwynebu'r farn hon, gan ddadlau y dylid cadw gwisg ysgol gan ei bod yn lleihau bwllo ar y sail bod pob dysgwr yn edrych yr un fath. Fodd bynnag, roeddent yn dweud y dylai fod agwedd fwy oddefgar at wisg ysgol i sy'n caniatáu ar gyfer tyllau yn y corff a gwahanol liwiau gwallt, gan fod athrawon yn cael lliwio eu gwallt a chael tyllau mewn llawer o ysgolion.

Cyflenwyr gwisg ysgol

- 1.362 Roedd gan gyflenwyr nifer o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn olaf, gan gynnwys:
- Mae gwisg ysgol yn bwysig – mae'n rhywbeth sy'n gwastadhau a sicrhau bod pawb yn gwisgo'r un dillad
 - Mae cyflenwyr arbenigol gwisg ysgol yn cynnig mantais foesegol dros archfarchnadoedd o safbwynt eu cadwyn gyflenwi: "Dw i'n gwybod beth mae'n ei gostio i ddod â dilledyn i'r wlad, dw i'n gwybod y costau mewnfario, costau'r

brethyn hwnnw: Nid yw'n £6 oherwydd bod bathodyn arno – mae'n £6 oherwydd bod pawb yn y gadwyn gyflenwi yn cael eu talu'n deg.”

- Mae cyflenwyr arbenigol gwisg ysgol yn cyflenwi dillad o feintiau ar yr eithafion – i blant bach iawn neu dal iawn, na ellir eu cyflenwi gan yr archfarchnadoedd.
- Pryderon am sail resymegol yr ymgynghoriad hwn a'i effaith posibl: “Mae [Llywodraeth Cymru] yn ceisio atgyweirio rhywbeth nad yw wedi torri.”
- Gwell rheolaeth o grantiau sydd ar gael, er enghraifft cyflwyno talebau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwario ar wisg ysgol.
- Sicrhau bod cyrff llywodraethu'n cyd-drafod â chyflenwyr wrth osod polisi er mwyn sicrhau ei fod yn addas: “Cefais sgwr y pnawn yma gydag ysgol mewn ardal ddifreintiedig ... mae eu dillad chwaraeon yn biws a dyma'r lliw drutaf i'w gynhyrchu.”

Rhanddeiliaid eraill

- 1.363 Ni chynigiodd rhanddeiliaid eraill unrhyw sylwadau pellach mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Atodiad A – Cwestiynau Ymgynghori

- 1.364 Cwestiwn 1 - Ydych chi'n cytuno y dylai cyrff llywodraethu ysgolion flaenoriaethu fforddiadwyedd wrth osod eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?
- 1.365 Cytuno
- 1.366 Anghytuno
- 1.367 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- 1.368 Cwestiwn 2 - Ydych chi'n cytuno y dylai cyrff llywodraethu ysgolion sicrhau argaeledd a mynediad hawdd at eitemau gwisg ysgol wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?
- 1.369 Cytuno
- 1.370 Anghytuno
- 1.371 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- 1.372 Cwestiwn 3 - Ydych chi'n cytuno na ddylai logos fod yn ofynnol ar wisgoedd ysgol?
- 1.373 Cytuno
- 1.374 Anghytuno
- 1.375 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- 1.376 Cwestiwn 4 - Ydych chi'n cytuno y dylai logos gael eu cyfyngu i un dilledyn allanol, er enghraifft siwmpwr, cardigan neu siaced/blaser?
- 1.377 Cytuno
- 1.378 Anghytuno
- 1.379 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- 1.380 Cwestiwn 5 - Ydych chi'n cytuno y dylid darparu bathodynnew logo y gellir eu smwddio neu eu gwnïo ymlaen, yn rhad ac am ddim?
- 1.381 Cytuno
- 1.382 Anghytuno
- 1.383 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

- 1.384 Cwestiwn 6 - Ydych chi'n cytuno na ddylai logos fod yn ofynnol ar ddiillad chwaraeon ysgol a gwahanol fathau o offer ysgolion?
- 1.385 Cytuno
- 1.386 Anghytuno
- 1.387 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- 1.388 Cwestiwn 7 - Mae nifer o ysgolion yn sefydlu trefniadau gyda chyflenwr unigol i ddarparu gwisg ysgol. Mae hynny'n golygu nad oes modd dewis ble i brynu eitemau gwisg ysgol â brand. A ydych chi'n cytuno y dylai ysgolion osgoi trefniadau gyda chyflenwr unigol ar gyfer darparu gwisgoedd ysgol â brand?
- 1.389 Cytuno
- 1.390 Anghytuno
- 1.391 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- 1.392 Cwestiwn 8 - Ydych chi'n cytuno y dylai ysgolion fod yn dryloyw wrth ddangos bod unrhyw fudd o gytundeb ariannol sydd ganddyn nhw gyda chyflenwyr gwisg ysgol yn cael ei drosglwyddo i'r cwsmer?
- 1.393 Cytuno
- 1.394 Anghytuno
- 1.395 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- 1.396 Cwestiwn 9 - Ydych chi'n cytuno, os bydd ysgolion yn ymrwymo i gytundeb gyda chyflenwyr gwisg ysgol, y dylent sicrhau bod costau defnyddio'r cyflenwr hwn yn debyg i brisiau gwisgoedd ysgol manwerthwyr y stryd fawr neu archfarchnadoedd?
- 1.397 Cytuno
- 1.398 Anghytuno
- 1.399 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- 1.400 Cwestiwn 10 - Ydych chi'n cytuno y dylai ysgolion weithredu cynllun cyfnewid a/neu ailgylchu gwisg ysgol fyddai ar gael i deuluoedd?
- 1.401 Cytuno

- 1.402 Anghytuno
- 1.403 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- 1.404 Cwestiwn 11 - Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau ar bolisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 1.405 Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?
- 1.406 Cwestiwn 12 - Eglurwch hefyd sut gellid llunio neu newid y canllawiau ar bolisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion er mwyn iddynt gael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Atodiad B – Cwestiynau Trafod

- 1.407 Thema 1: Fforddiadwyedd
- 1.408 1. I ba raddau ddylai cyrff llywodraethu ysgolion flaenoriaethu fforddiadwyedd wrth osod eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?
- 1.409 2. I ba raddau yn eich barn chi mae cyrff llywodraethu ysgolion yn blaenoriaethu fforddiadwyedd wrth osod eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion? Pa dystiolaeth sydd o hyn?
- 1.410 Thema 2: Mynediad ac Argaeledd
- 1.411 3. I ba raddau ddylai cyrff llywodraethu ysgolion sicrhau argaeledd a mynediad hawdd at eitemau gwisg ysgol wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?
- 1.412 4. I ba raddau yn eich barn chi mae cyrff llywodraethu ysgolion yn sicrhau argaeledd a mynediad hawdd at eitemau gwisg ysgol wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion? Pa dystiolaeth sydd o hyn?

- 1.413 Thema 3: Logos Ysgol
- 1.414 5. Pa mor bwysig yw hi i gael logos ysgol ar wisgoedd ysgol? Pam ydych chi'n dweud hynny? Beth yw'r manteision/anfanteision cymharol o gael logo ysgol?
- 1.415 A oes unrhyw eitemau penodol o wisg ysgol a ddylai / na ddylai gynnwys logo yn eich barn chi?
- 1.416 6. I ba raddau ydych chi'n meddwl bod bathodynnew y gellir eu smwddio neu eu gwnïo ymlaen yn ddewis arall ymarferol i gymryd lle'r logo brodwaith traddodiadol? A ddylai'r rhain gael eu darparu'n rhad ac am ddim i ddisgyblion, yn eich barn chi?
- 1.417 Thema 4: Trefniadau gyda Chyflenwyr
- 1.418 7. Pa mor addas yw hi i ysgolion sefydlu trefniadau gyda chyflenwr unigol i ddarparu gwisg ysgol? Anogwch os oes angen: Mae hynny'n golygu nad oes modd dewis ble i brynu eitemau gwisg ysgol â brand. Beth yw'r manteision / anfanteision cymharol o gael trefniadau â chyflenwr unigol ar gyfer darparu gwisgoedd ysgol?
- 1.419 8. Noder: Ni fydd pawb o'r rhanddeiliaid yn ymwybodol o hyn. Pa mor gyffredin yw hi i ysgolion sefydlu trefniadau gyda chyflenwr unigol i ddarparu gwisg ysgol?
- 1.420 Thema 5: Tryloywder i Gwsmeriaid
- 1.421 9. Pa mor bwysig yw hi fod ysgolion yn dryloyw wrth ddangos bod unrhyw fudd o gytundeb ariannol sydd ganddyn nhw gyda chyflenwyr gwisg ysgol yn cael ei drosglwyddo i'r cwsmer?
- 1.422 10. Pa mor gyffredin yw hi fod ysgolion yn dryloyw wrth ddangos bod unrhyw fudd o gytundeb ariannol sydd ganddyn nhw gyda chyflenwyr gwisg ysgol yn cael ei drosglwyddo i'r cwsmer? Pa dystiolaeth sydd o hyn?
- 1.423 Thema 6: Pa mor debyg ddylai costau gwisg ysgol fod i gostau gwisgoedd ysgol heb eu brandio mewn archfarchnadoedd?

- 1.424 11. Pa mor bwysig yw hi fod ysgolion yn ymrwymo fod costau gwisg ysgol sydd ar gael trwy gytundeb gyda chyflenwyr unigol yn debyg i brisiau gwisgoedd ysgol manwerthwyr y stryd fawr neu archfarchnadoedd? I ba raddau mae hyn yn digwydd?
- 1.425 12. Pa mor bwysig yw hi fod ysgolion yn gweithredu cynllun cyfnewid a/neu ailgylchu gwisg ysgol? Beth yw manteision cynlluniau cyfnewid a/neu ailgylchu gwisg ysgol? A oes unrhyw anfanteision? Pa mor gyffredin yw hi i ysgolion weithredu cynllun cyfnewid a/neu ailgylchu gwisg ysgol?
- 1.426 Thema 7: Beth arall ddylai gael ei gynnwys / pa faterion eraill y dylid eu hystyried?
- 1.427 A oes unrhyw beth penodol y dylid, yn eich barn chi, ei gynnwys mewn canllawiau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ar bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?
- 1.428 A oes unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â pholisïau gwisg ysgol a/neu ganllawiau Llywodraeth Cymru ar bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion yr hoffech eu codi?